

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol

2023/24



Cynnwys

1. Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol – Cyflwyniad	03
2. Trosolwg o'r Gwasanaethau i Blant	
Ein cyflawniadau allweddol yn 2023/24	05
Sut mae pobl yn llywio ein gwasanaethau?	07
Ein datblygiadau a gwelliannau	11
Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer 2024/25?	22
3. Trosolwg o'r Gwasanaethau i Oedolion	
Ein cyflawniadau allweddol yn 2023/24	24
Sut mae pobl yn llywio ein gwasanaethau?	26
Ein datblygiadau a gwelliannau	29
Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer 2024/25?	48
4. Sut rydyn ni'n gwneud ein gwaith?	
Ein gweithlu.....	50
Y Gymraeg.....	52
Ein cyllid	52
Arweinyddiaeth wleidyddol a chorfforaethol, llywodraethu ac atebolrwydd	53
Ein partneriaethau	53
5. Hyrwyddo a gwella lles y rhai rydyn ni'n eu helpu – Y chwe safon ansawdd.	
Safon Ansawdd 1: Gweithio gyda phobl i bennu a chyd-baratoi deilliannau lles personol maen nhw eisiau'u cyflawni.	55
Safon Ansawdd 2: Gweithio gyda phobl a phartneriaid er mwyn diogelu a hyrwyddo iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol y bobl.	56
Safon Ansawdd 3: Cymryd camau i amddiffyn a diogelu pobl rhag cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu'u niweidio	57
Safon Ansawdd 4: Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a bod yn rhan o'r gymdeithas	58
Safon Ansawdd 5: Cefnogi pobl i ddatblygu a chynnal perthnasau domestig, teuluol a phersonol iach mewn modd diogel.....	59
Safon Ansawdd 6: Gweithio gyda phobl a bod yn gymorth iddyn nhw i gyflawni lles economaidd gwell, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenions	60

adran

1

Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol – Cyflwyniad

Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 gyhoeddi adroddiad blynyddol ar sut mae Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi cyflawni ei Wasanaethau Cymdeithasol, gan fyfyrio ar yr hyn rydyn ni wedi'i gyflawni a'r heriau rydyn ni wedi'u hwynebu ar draws ein Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion ac i Blant, gan bwysleisio'r cysylltiadau â Chynllun Corfforaethol y Cyngor a darparu enghreifftiau o sut mae ein gwaith wedi hyrwyddo a gwella lles y rhai rydyn ni'n eu cefnogi. Rydyn ni hefyd wedi nodi ein blaenoriaethau gwasanaeth ar gyfer 2024/25.

Mae 2023/24 wedi bod yn flwyddyn heriol a gwerth chweil arall. Mae ein Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion ac i Blant wedi parhau i deimlo'r pwysau sy'n gysylltiedig â denu a chadw staff a chynnydd mewn anghenion mwy cymhleth. Mae hyn yng nghyd-destun gwaddol pandemig, yr argyfwng costau byw parhaus a'r sefyllfa ariannol anodd ar draws y sector cyhoeddus. Yn yr un modd â swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol eraill ledled Cymru, mae'n rhaid i Ronda Cynon Taf gydbwyso pwysau a chymhlethdod gwasanaethau yn erbyn lleihad o ran cyllid awdurdodau lleol a'r angen i wneud arbedion, ac er bod Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaethau i Blant yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor, mae'n anochel ei fod yn effeithio ar ein gallu i reoli disgwyliadau a diwallu anghenion.

Er gwaethaf yr heriau sylweddol hyn, mae ein Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion ac i Blant wedi parhau i ddarparu a thrawsnewid gwasanaethau, gan weithio ar y cyd, lle bo'n bosibl, i nodi cyfleoedd i fynd i'r afael â materion a gwneud y mwyaf o adnoddau i sicrhau ein bod ni'n parhau i fodloni ein rhwymedigaethau statudol. Mae'r rheidrydd i weithio mewn partneriaeth ar draws

yr awdurdod lleol a gweithio gyda'r holl asiantaethau eraill yn fwy nag erioed.

Mae ymroddiad, ymrwymiad ac ymdrech aruthrol ein gweithlu yn y gwasanaethau cymdeithasol, y darparwyr a gomisiynwyd, rhieni maeth a phobl sy'n mabwysiadu plant a'n sefydliadau partner wedi ein galluogi ni i barhau i ddarparu gwasanaethau. Rydyn ni hefyd yn ffodus i gael cefnogaeth gorfforaethol gref o bob rhan o'r Cyngor a chymorth gan gydweithwyr o adrannau eraill a'n Haelodau Etholedig.

Rydw i'n hynod falch o'n cyflawniadau, y straeon newyddion da a'r astudiaethau achos, sy'n ein hatgoffa o'r effaith gadarnhaol rydyn ni'n ei chael ar fywydau rhai o'n pobl fwyaf agored i niwed yn Rhondda Cynon Taf. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi sicrhau bod ein trigolion wedi cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnyn nhw. Dyma obeithio bod yr adroddiad yma'n dangos canlyniadau eu gwaith caled a diflino dros y flwyddyn ddiwethaf.


Neil Elliott

Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol

adran

2

Trosolwg o'r Gwasanaethau i Blant



Yn y Gwasanaethau i Blant, rydyn ni'n cyfrannu at Gynllun Corfforaethol y Cyngor, **“Gwneud gwahaniaeth”**, ac yn benodol y flaenoriaeth lles **“Sicrhau bod POBL yn annibynnol, yn iach ac yn llwyddiannus”** drwy:




Wella gwasanaethau i blant a phobl ifainc a sicrhau bod anghenion plant yn cael eu hystyried ym mhob rhan o'n gwaith.




Yn yr Adran yma, rydyn ni'n darparu data a gwybodaeth i ddangos cyflawniadau gwasanaeth allweddol, datblygiadau, a heriau yn y Gwasanaethau i Blant yn 2023/24, ynghyd â'n blaenoriaethau gwasanaeth allweddol ar gyfer 2024/25, lle mae datblygiadau a newid pellach wedi'u nodi.

Ein cyflawniadau allweddol yn 2023/24

Eleni bu galw uchel parhaus a chymhlethdod cynyddol am y Gwasanaethau i Blant. Mae disgwyl i hyn barhau yn y cyd-destun presennol wrth i deuluoedd agored i niwed brofi effaith hirdymor o niwed y pandemig a chyni. Mae'r Gwasanaethau i Blant yn gwasanaethu cymuned lle mae lefelau uchel o gam-drin domestig, iechyd meddwl gwael, camddefnyddio sylweddau ac ecsbloetiaeth. Mae hyn yn atgyfnerthu'r angen i gyflawni yn erbyn ein blaenoriaethau strategol sydd â'r bwriad o'n cefnogi i ganolbwyntio ar atal, cryfhau teuluoedd a symud tuag at ddyfodol nid-er-elw o ran gwasanaethau gofal i bobl ifainc sy'n derbyn gofal. Mae trosolwg o'r galw a chyflawniad cysylltiedig isod:

Cafodd
28,035 
o gysylltiadau ar gyfer
plant eu derbyn gan y
Gwasanaethau Cymdeithasol
statudol yn ystod y flwyddyn
(i fyny o 26,712 yn 2022/23)


Yn achos
97% 
o'r cysylltiadau a dderbyniwyd,
cafodd penderfyniad ei
wneud erbyn diwedd y
diwrnod gwaith nesaf
(98% yn 2022/23).


Cafodd cyngor
neu gymorth
ei ddarparu
yn achos
45% 
o'r cysylltiadau a dderbyniwyd
(45% yn 2022/23).

Roedd
331 
o blant ar y Gofrestr Amddiffyn
Plant ar 31 Mawrth (i lawr o
407 2022/23).

Cafodd
5,635 
o asesiadau newydd eu
cwblhau ar gyfer plant
(i fyny o 5,633 yn 2022/23).

Roedd
4,487 
o fewn yr amserlenni statudol
(i lawr o 4,628 yn 2022/23).

Roedd
1,803 
o blant â chynllun gofal a
chymorth (i lawr o 1,904
yn 2022/23).

Roedd gan
842 
o deuluoedd sy'n hysbys i'r
Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth
fwy o wytnwch (i lawr o 1,075 yn
2022/23).

Er gwaethaf y pwysau hyn, mae carfanau ar draws y Gwasanaethau i Blant wedi parhau i ddarparu gwasanaethau diogel o ansawdd uchel i blant a theuluoedd agored i niwed, fel y dangosir gan rai o'n cyflawniadau allweddol a nodir isod:

- Rydyn ni wedi parhau i fwrw ymlaen â'n Strategaeth Atal ar gyfer Plant sy'n Derbyngofal ac mae'r niferoedd cyffredinol yn sefydlogi ar gyfradd is, ac rydyn ni wedi gweld gostyngiad yn y gyfradd y mae plant dan 1 oed yn dechrau derbyn gofal.
 - Ar ddiwedd mis Mawrth 2024, roedd gyda ni 637 o Blant yn Derbyngofal o'i gymharu â 624 yn 2023, 655 yn 2022, a 717 yn 2020.
 - Mae'r Garfan Magu Cyn-geni yn gwbl weithredol ac wedi gweithio gyda 78 o deuluoedd yn 2023/24. Mae'r gyfradd Dechrau Derbyngofal ar gyfer plant dan 1 oed wedi gostwng o 28% yn 2022/23 i 18% yn 2023/24 sy'n dangos effaith gadarnhaol y cymorth cyn-geni gwell yma.
 - Mae'r Prosiect Ailuno yn rhan o'r Strategaeth Atal ar gyfer Plant sy'n Derbyngofal wedi'i gwblhau ac mae 50 o deuluoedd wedi ailuno yn ystod y flwyddyn ac mae gwaith ar y gweill i gynyddu'r nifer hwnnw yn y dyfodol.

- Rydyn ni wedi parhau i roi gweithgareddau ein Strategaeth Gweithlu'r Gwasanaethau i Blant ar waith, sydd â'r nod o wella lles staff a sicrhau bod cymaint o staff â phosibl yn cael eu cadw:
 - Cafodd gofodau myfyriol eu henwebu ar gyfer clod ac maen nhw'n cefnogi gwydnwch yn y gwasanaethau: <https://youtu.be/Uojp3ITPkRM>.
 - Cymerodd staff ran mewn un o bedair sesiwn Hysbysu a Chynnwys gyda thema dathlu a oedd yn arddangos teuluoedd yn ailuno lle'r oedd plentyn wedi derbyn gofal yn flaenorol, a'n gwaith gyda cheiswyr lloches digwmni.
 - Mae 19 o weithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso wedi ymuno â'r Gwasanaethau i Blant.
 - Mae paratoadau ar y gweill i ddatblygu Academi Gwaith Cymdeithasol Rhondda Cynon Taf.

- Rydyn ni wedi parhau i fwrw ymlaen â'n **Strategaeth Trawsnewid Gwasanaethau Preswyl Plant sy'n Derbyngofal 2022-2027** sydd wedi arwain at gynnydd yn nifer y cartrefi plant ac rydyn ni ar y trywydd iawn i agor saith cartref newydd erbyn 2025.
- Yng nghyd-destun cyflenwad annigonol o ofal maeth a chymhlethdod cynyddol, mae nifer y plant sydd angen gofal preswyl wedi cynyddu. Serch hynny, mae'n gadarnhaol bod nifer y plant sy'n cael eu lleoli yn Rhondda Cynon Taf (yn agosach at adref) wedi cynyddu, fel y mae'r nifer mewn lleoliadau nid-er-elw, tra bod nifer y plant mewn lleoliadau a gomisiynir er elw wedi gostwng.
- O ran ein Plant sy'n Derbyngofal:
 - Mae'r rhai sy'n Gadael Gofal yn parhau i ffynnu yn rhan o'r cynllun GofaliWaith a chafodd 9 hyfforddai eu recriwtio i'n rhaglen Camu i'r Cyfeiriad Cywir yn 2023/24: Hyfforddai'r Flwyddyn - **Camu i'r Cyfeiriad Cywir**.
 - Cafodd achlysur i ddathlu plant a phobl ifainc sydd â phrofiad o fod mewn gofal ei gynnal ym mis Tachwedd 2023 yng Ngwesty'r Parc Treftadaeth fel dathliad ar y cyd rhwng yr Ysgol Rithwir i Blant sy'n Derbyngofal a'r Gwasanaethau i Blant.



Sut mae pobl yn llywio ein gwasanaethau?

Rydyn ni wedi parhau i gryfhau cyfranogiad plant a phobl ifainc yn unol â'n Strategaeth Cyfranogiad newydd y Gwasanaethau i Blant 2023-26 i hyrwyddo cynnwys ac ymgysylltu yn benodol â Phlant sy'n Derbyn Gofal ac asiantaethau partner, er mwyn sicrhau cydweithio a bod llais y plant a'r bobl ifainc yn cael ei glywed wrth ddatblygu a darparu gwasanaethau. Cafodd y maes gwaith yma'i nodi fel blaenoriaeth ar gyfer y Gwasanaethau i Blant yn 2023/24 ac mae rhagor o wybodaeth am ein gwaith yn yr adran Cyflawni ein Blaenoriaethau.

Yn ogystal, rydyn ni wedi parhau i gynyddu cyfleoedd i bobl ifainc a theuluoedd gael mwy o lais, cyfranogiad a dewis o ran eu cynlluniau a'r gwasanaethau maen nhw'n eu cael. Er enghraifft, rydyn ni wedi:

- parhau i wella ein cynnig Gwasanaethau Eiriolaeth yn unol â'r Cynnig Cenedlaethol, gan ddarparu cymorth i 96 o bobl ifainc a theuluoedd yn ystod y flwyddyn, lle cafodd y 'cynnig rhagweithiol' ar gyfer eiriolaeth ei wneud. Mae hyn yn cymharu â 73 o bobl ifainc a theuluoedd yn 2022/23.
- cynnwys staff ac aelodau o'r teulu wrth adolygu ein polisi sefydlogrwydd er mwyn i ni allu deall a nodi beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd angen ei newid yn y dyfodol. Roedd y gweithgaredd yma'n cynnwys grwpiau ffocws, cyfweiliadau a gweithdy ailuno yn hydref 2023.
- datblygu gweithdy newydd 4 wythnos o hyd yn ein Carfan Cymorth Rhianta gan y nodwyd drwy ymgynghori â rhieni bod y rhaglenni presennol 10 wythnos o hyd yn rhy hir i rieni ymrwymo iddyn nhw. Datblygodd y Cydlynedd Rhianta weithdy newydd 4 wythnos o hyd yn lle'r 10 wythnos gan ymdrin â holl elfennau allweddol y rhaglenni a'u cyflwyno wyneb yn wyneb yn y gymuned. Cafodd 2 weithdy eu cyflwyno i 11 o deuluoedd, ac fe gyflawnodd pob teulu'r gweithdai gan roi adborth cadarnhaol.
- lansio ein gwefan Gwasanaethau i Blant newydd i ddarparu gwybodaeth fwy hygyrch i blant a chynhalwyr.
- ymgymryd â chynllun peilot eiriolaeth rhieni chwe mis, a gafodd ei ddarparu gan TGP Cymru. Roedd y peilot yn ymwneud yn benodol â'r maes amddiffyn plant, gyda chymorth eiriolaeth rhieni yn cael ei roi i'r rhieni hynny a oedd naill ai'n dod i mewn i'r gwasanaeth Amddiffyn Plant neu eisoes yn rhan ohono. Cafodd yr holl rieni eu cefnogi i leisio eu barn mewn cyfarfodydd trwy adroddiadau am eu dymuniadau a'u teimladau a gafodd eu hysgrifennu mewn partneriaeth ag eiriolwyr ac yna trwy gymorth mewn cyfarfodydd. Mae hyn bellach wedi'i ymestyn drwy gyllid Llywodraeth Cymru i gynllun peilot tair blynedd ledled Cymru.

Cynllun Peilot Eiriolaeth Rhieni Rhondda Cynon Taf – adborth gan rieni (sylwadau yn yr iaith wreiddiol)

“ I feel more confident and knowledgeable and feel I understand the process better because of advocate. ”

“ Even though I am not happy the kids were registered I felt I was listened to and got my point across. ”









“ I would not have been able to get across what I wanted to if it wasn't for you and I wouldn't have remembered all I needed to say so the report really helped me have my say. ”

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, rydyn ni wedi cynnal arolwg blynyddol o ddefnyddwyr gwasanaeth a oedd yn gofyn i sampl o blant a phobl ifainc, a oedd â chynllun gofal a chymorth ar y diwrnod y lluniwyd y sampl, sut maen nhw'n teimlo am y gofal a'r cymorth maen nhw'n eu derbyn. Eleni fe newidion ni rai o'r cwestiynau a ofynnnon ni i gasglu data sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau er mwyn i ni ddeall profiad bywyd plant yn well. Roedd hyn yn cynnwys cwestiwn testun rhydd 'Hoffet ti nodi rhywbeth arall sy'n bwysig i ti? Mae dy lais di'n bwysig'. Ymatebodd 29 o blant i'r cwestiwn yma. Er mwyn cynyddu nifer y bobl sy'n cwblhau'r arolwg a chasglu cymaint o ymatebion â phosibl, fe gyflwynon ni hefyd fersiwn ar-lein o'r arolwg a chod QR i gael mynediad iddo er mwyn annog rhagor o gyfranogiad.

Cwblhaodd cyfanswm o 169 o blant yr arolwg, o'i gymharu â 140 yn 2022/23. Roedd yr ymatebion cyffredinol i'r arolwg yn gadarnhaol, fel y dangosir yn y tabl isod. Nododd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr eu bod yn 'teimlo'n ddiogel lle maen nhw'n byw' a'u bod yn 'teimlo eu bod yn cael gofal da'.

Mesur ansawdd gwasanaeth

O'r 169 o blant a phobl ifainc a ymatebodd i'r arolwg:



Rydyn ni hefyd yn derbyn adborth gan blant sy'n byw yn ein cartrefi plant yn rhan o Adroddiadau Ansawdd Gofal rheolaidd (sylwadau yn yr iaith wreiddiol):

“...You know that I couldn't walk to school on my own, and I really wanted to, well you can see me do it today! Staff have been helping me, crossing the road and that, showing me where to cross and what I got to do, and then they followed behind me a few times and now I can do it on my own! You won't believe it, I knew you wouldn't believe it, but come and watch me now!”

“Staff really do care about me, I didn't think that would happen, but it has.”

“Sometimes I say horrible things to staff, I don't mean it but it's like things build up. It's not good, but they don't make me feel terrible about it. They just listen, and when things are calm, they talk it through, you know, like to try, and work it through so it don't all build up again. There's rules, but you know, they try to find out why I feel like this and help me with it. They don't give up on me.”

“Staff made Christmas really special” another child, who was experiencing their first Christmas in care said, “I had one of the best Christmases I have ever had!”

“I'm supported here to achieve my goals.” While discussing their individual goals with the RI the young person continued by stating “sometimes I change my goals every five minutes, because I'm not sure what they are yet, like what I really want to be, but the staff just say ok give that a go too, and see what works best for you. I've done lots of things to help me make up my mind, I've tried it all!”

“I really like all the staff at the home and that they have lots of time for me and always listen to my opinions.”

“I love it here, the activities are great, and I go to a local swimming club. Also, I have a new Hamster as a pet as I always wanted one.”

“The staff at the home helped to get me back into my education as I was excluded from my last one, and I really like my new school.” I get to go on free time at my friends and sleep over night, as my friends are really important to me.

Comment re Agency staff: “they don't know what they are doing, they don't know us, half of them don't even know how to answer the phone.” Another child commented “bosses should do more to make sure we got enough staff, it makes you feel like bad when agency come in and they don't know you, or how they should be doing things.”

“I love the food here, we make our own Nandos, and I get to have my own choice of a takeaway once a week. I have tried food I have never had before, we all have a say in the weekly menu.”

“I love coming here, we do loads of things we like” and “I love having a sleep over here I see my friend and I wouldn't be able to sleep over her house so it's really good, we can choose what activity we do.”

Canmoliaeth a chwynion am y Gwasanaethau i Blant

Mae proses statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer canmol a chwyno yn rhoi'r cyfle i ddefnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd a'u cynhalwyr roi adborth. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi nifer y chwynion a chanmoliaethau a ddaeth i law eleni ac yn y tair blynedd flaenorol.

	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24
Nifer y chwynion a ddaeth i law	29	47	70	89
Nifer y canmoliaethau a ddaeth i law	92	116	75	55

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae nifer y chwynion am y Gwasanaethau i Blant yn gyffredinol yn parhau i fod yn isel er bod cynnydd wedi bod o gymharu â'r llynedd. Mae'r patrwm yma wedi'i adlewyrchu ledled Cymru. Pan, o bryd i'w gilydd, nad ydyn ni wedi gallu bodloni disgwyliadau pobl, rydyn ni'n defnyddio'r adborth i ddysgu beth y mae modd i ni ei wneud yn well a, lle bo angen, rydyn ni'n gwneud newidiadau.

Beth mae ein harolygydd yn ei ddweud am ein gwasanaethau?

Adroddiadau Arolygu Ansawdd Gofal gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) 2023/24: Mae'r rhan fwyaf o'r adroddiadau wedi bod yn gadarnhaol, gan ddangos bod ein cartrefi preswyl i blant yn darparu gofal o ansawdd uchel yn gyson mewn amgylchedd heriol. Serch hynny, mae Arolygiad o un cartref plant newydd sydd angen cynnal gwaith adnewyddu unwaith na fydd plant yn byw yno wedi arwain at chwe Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth sy'n cael sylw fel blaenoriaeth.

Cwblhaodd AGC Arolygiad ym mis Tachwedd 2023. Roedd y canlyniad yn gadarnhaol ac yn adlewyrchu ansawdd y gofal sy'n cael ei ddarparu gan y rheiny sy'n rhoi gofal maeth a'r ystod o wasanaethau sydd ar gael i'w cefnogi nhw a phobl ifainc yn ogystal â sefyllfa bresennol y gwasanaeth. Cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf 7 mlynedd yn ôl. Arweiniodd arolygiad 2023 at restr o welliannau i'r gwasanaeth megis:

- Penodi Rheolwr Gwasanaeth.
- Mae absenoldeb rheolwr gwasanaeth wedi effeithio ar ddarpariaeth y gwasanaeth gan nad oes goruchwyliaeth gyson i adolygu a datblygu amcanion y gwasanaeth.
- Mae angen adolygu'r broses o ddirprwyo tasgau a chyfrifoldebau gan reolwyr i staff uwch er mwyn galluogi rheolwyr i ganolbwyntio ar ddatblygu'r gwasanaeth a sicrhau ei fod yn bodloni gofynion y rheoliadau.
- Cafodd argymhellion yr adolygiad ar gyfer cynllunio a datblygu'r gwasanaeth yn y dyfodol eu nodi ond doedd hi ddim yn glir pa gamau a chynnydd sydd wedi'u gwneud.

Caiff gwelliannau pellach a nodwyd gan AGC eu trafod yn **Adroddiad Ansawdd Gofal Maethu Cymru Rhondda Cynon Taf** a gyflwynwyd i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol ym mis Mawrth 2024. Mae nifer o bwyntiau gwella eisoes wedi'u gweithredu, gan gynnwys penodi Rheolwr Gwasanaeth, a bydd diweddariad yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiad Ansawdd Gofal nesaf. Mae'r Arolygwyr yn bwriadu dychwelyd o fewn 12 mis i'r adolygiad a gafodd ei gynnal ym mis Tachwedd 2023 i adolygu'r gwelliannau gofynnol.



Cyflawni Ein Blaenoriaethau - Deilliannau, Cynnydd a Heriau

Blaenoriaeth 1 - Gweithredu'r Strategaeth Atal Plant sy'n Derbyn Gofal

Mae cefnogi plant a theuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel ac i ffynnu a rhoi cymorth effeithiol i blant sydd angen dechrau derbyn gofal yn ddau gyfrifoldeb hanfodol a nodau allweddol y Gwasanaethau i Blant. Yn 2023/24, rydyn ni wedi parhau i ddarparu cymorth i deuluoedd fel mai dim ond y plant hynny nad oes dewis arall diogel ar eu cyfer sy'n dechrau derbyn gofal.

Yn rhan o'r cymorth yma rydyn ni wedi parhau i gyflawni'r pedwar maes datblygu sydd wedi'u nodi yn ein Strategaeth Atal Plant sy'n Derbyn Gofal 2022/25 sef:

i) Datblygu carfan MAGU Cymorth cyn geni

Rydyn ni wedi datblygu cymorth cyn-geni gwell ar gyfer ein teuluoedd mwyaf agored i niwed gan gynnwys y rhai sydd â phrofiad o fod mewn gofal neu ofal cymdeithasol eu hunain neu sydd wedi cael plentyn arall wedi'i dynnu o'u gofal eisoes, a hynny trwy ein carfan MAGU newydd, a ddaeth yn weithredol ym mis Mai 2023. Mae'r garfan MAGU yn anelu at ddarparu llwybr iechyd a gofal cymdeithasol integredig i fenywod beichiog a'u teuluoedd o 12 wythnos o feichiogrwydd hyd at ben-blwydd cyntaf y plentyn, ar draws gwasanaethau ymyrraeth gynnar a gwasanaethau ar ffiniau gofal. Mae'r garfan wedi gweithio gyda 78 o deuluoedd yn 2023/24. Drwy ganolbwyntio ar feithrin sgiliau a gwydnwch a thrwy hynny leihau risg, mae'r garfan yn ceisio lleihau nifer y plant dan 1 oed sy'n dechrau derbyn gofal. Mae'r flwyddyn gyntaf yma wedi'n galluogi i gasglu data sylfaenol cynhwysfawr er mwyn mesur cynnydd yn y dyfodol, ond mae rhai dangosyddion addawol iawn eisoes i awgrymu bod Magu yn gwneud gwahaniaeth..

- Bu gostyngiad o 22% yn nifer y plant dan 1 oed sy'n dechrau Derbyn Gofal yn Rhondda Cynon Taf.
- Mae dibyniaeth ar leoliadau rhiant a phlentyn wedi gostwng 10%.
- Mae gostyngiad yn nifer y lleoliadau rhiant a phlentyn sy'n dod i ben gyda'r rhiant a'r plentyn yn gwahanu. Dim ond 1 o'r 9 lleoliad a oedd yn cael eu cefnogi gan y garfan Magu a ddaeth i ben gyda gwahanu. Yn flaenorol, roedd y cyfraddau gwahanu ar tua 30-40%.
- O'r 46 o fabanod a gafodd eu geni lle mae cymorth Magu ar waith, mae 41 wedi aros yng ngofal rhiant neu wedi dychwelyd i ofal rhiant ar ôl cyfnod o wahanu.
- Mae tadau yn manteisio'n dda ar y gwasanaeth. O'r 78 o deuluoedd, roedd 53 o'r rheini'n cynnwys tad yn rhan o gwpl neu fel yr unig riant cysylltiedig.
- Cafodd llesiant a gwydnwch gwell ei gofnodi ymhlith 100% o'r rhai a oedd yn gadael y gwasanaeth.

Cafodd nifer o ddeilliannau cadarnhaol iawn eu cyflawni ar achosion lle mae Magu yn darparu cymorth. Ceir enghreifftiau o fabanod sydd wedi'u geni, lle bu risg uchel o asesiad negyddol ac yn y pen draw'r posibilrwydd o wahanu oddi wrth riant, sydd wedi llwyddo i barhau i fod yng ngofal un neu ddau o'i rieni.

y Garfan MAGU

Astudiaeth Achos



Mae Mam a Thad i blentyn A â phrofiad o fod mewn gofal ac wedi ymwneud yn sylweddol â'r Gwasanaethau i Blant drwy gydol eu plentyndod.

Materion o bryder:

- Yn agored i gamfanteisio rhywiol.
- Defnydd o sylweddau.
- Mae'r ddau wedi cymryd rhan mewn ymddygiad mentrus.
- Cyflwr cartref hynod o wael.
- Anawsterau gydag iechyd meddwl ansefydlog.
- Diffyg hunanofal a sgiliau annibyniaeth sydd wedi'u datblygu'n wael.
- Diffyg presenoldeb mewn apwyntiadau cyn-geni.
- Ddim yn derbyn pryderon a godwyd a ddim yn ymgysylltu â'r gweithiwr cymdeithasol.

Dechreuwyd gweithdrefnau amddiffyn plant a arweiniodd at gynllun i roi enw'r babi ar y gofrestr amddiffyn plant ar adeg ei eni oherwydd graddau'r pryder ynghylch gallu'r rhieni i ofalu am eu baban yn ddiogel. Galwyd Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus hefyd.

Ar y cam yma, roedd posibilrwydd gwirioneddol iawn o gychwyn achos gofal a photensial y cynllun ar gyfer y babi disgwylidig i fod yn un sy'n cynnwys gwahanu oddi wrth rieni.

Ar ba ffurf oedd yr ymyrraeth?

- Meithrin perthynas, treulio amser yn gwrando ar brofiadau gwahanol rhieni sydd wedi ymwneud â'r Gwasanaethau i Blant.
- Cefnogaeth ymarferol i fynd i'r afael ag amgylchedd cartref gwael iawn, roedd hyn yn cynnwys glanhau malurion a llanast, addysgu am gynhyrchion glanhau a'u defnydd.
- Canolbwyntio ar ffordd iach a diogel o fyw iddyn nhw eu hunain er mwyn creu amgylchedd diogel i'w babi.
- Cyflwyno rhaglenni rhianta ar gyflymder sy'n addas ar gyfer anghenion dysgu.
- Cefnogaeth ymarferol i baratoi ar gyfer babi, addysgu am fwydo, ymolchi, cysgu.
- Cymorth i fynychu dosbarthiadau cyn-geni ac apwyntiadau meddygol, ychydig iawn o rwydwaith cymorth sydd gan y rhieni ac roedden nhw mewn perygl o ymddieithrio â gwasanaethau iechyd.

Daeth yr asesiad rhianta cyn-geni a gynhaliwyd gan y gweithiwr cymdeithasol o'r Garfan Ymyrraeth Ddwys i'r casgliad bod y risg o roi'r babi disgwylidig yn uniongyrchol i ofal rhieni yn dal yn rhy uchel, er ei fod yn cydnabod cryfderau a chynnydd sylweddol o ran ymgysylltu. Cafodd lleoliad rhiant a phlentyn ei nodi fel y cynllun ôl-eni. Roedd y rhieni'n bryderus iawn ac roedd angen llawer o gefnogaeth arnyn nhw dros y cyfnod yma. Er bod y lleoliad y tu allan i'r ardal leol, roedd gweithiwr Magu yn ymweld yn rheolaidd ac yn parhau i gefnogi'r rhieni i ddeall a gweithio drwy'r pryderon a nodwyd yn yr asesiad rhianta. Roedd staff Magu yn cefnogi'r trawsnewid o'r lleoliad yn ôl i'r gymuned gyda lefel uchel o batrymau ymweld nes bod tystiolaeth bod y risg yn lleihau.

Deilliant:

- Mae'r broses drawsnewid wedi'i chwblhau.
- Mae rhieni yn diwallu anghenion eu babi yn gyson i safon dda.
- Maen nhw'n darparu amgylchedd cynnes, meithringar a chariadus.
- Roedden nhw wrth eu boddau pan orffennodd yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus gydag asesiad rhianta cadarnhaol ar ôl genedigaeth.
- Maen nhw nawr yn aros am gynhadledd adolygu amddiffyn plant, sydd â'r bwriad o dynnu enw eu babi oddi ar y gofrestr amddiffyn plant.
- Maen nhw'n gweithio'n dda gyda'r holl wasanaethau angenrheidiol ar gyfer eu hunain a'u babi ac yn awyddus i barhau â chymorth Magu dros y misoedd nesaf.

Yn eu geiriau eu hunain (yn yr iaith wreiddiol):



We are both so happy with the help we have received from you. We hope that all future interactions are as positive, and we strongly believe they will be.



ii) Datblygu cymorth i Gynhalwyr sy'n Berthnasau


Roedden ni'n bwriadu datblygu, cyflwyno a chyhoeddi cynnig craidd ar gyfer yr holl gynhalwyr sy'n berthnasau a gwarcheidwaid arbennig ond doedd dim modd i ni fwrw ymlaen â hyn yn 2023/24. Mae'r gwaith yma wedi'i gyflawni ers hynny. Ar hyn o bryd mae data'n dangos gostyngiad bach yn nifer y Gorchmynion Gwarchodaeth Arbennig o 330 ym mis Ebrill 2023 i 323 i fis Mawrth 2024. Byddwn ni'n monitro effaith cynllun peilot sydd â'r nod o wneud Gwarchodaeth Arbennig yn gyfle cyfartal i bawb, yn enwedig y rheini sy'n teimlo bod eu cyllid personol yn rhwystr. Rydyn ni'n parhau i gomisiynu **Kinship Cymru** i gynnig gwasanaeth '**Kinship Connected**' i wella deilliannau ar gyfer gwarcheidwaid arbennig a chynhalwyr eraill sy'n berthnasau yn y fwrdeistref sirol. Mae 'Kinship Connected' yn helpu cynhalwyr sy'n berthnasau i ddatblygu rhwydweithiau cefnogol hirdymor sy'n arwain at amgylchedd mwy sefydlog a chefnogol lle mae modd i'r plant yn eu gofal ffynnu. Mae'r cymorth yn cynnwys cymorth un i un, cymorth gan gymheiriaid, cyngor, cymorth i gael mynediad at grantiau a gweithdai ar-lein rhad ac am ddim i sicrhau bod gan y cynhalwyr sy'n berthnasau yr help sydd ei angen arny'n nhw i gefnogi'r plant sydd yn eu gofal. Yn Rhondda Cynon Taf mae'r rhan fwyaf o blant sy'n derbyn gofal yn byw gyda chynhalwyr sy'n berthnasau.

iii) Datblygu ein Model Ymarfer

Rydyn ni'n cyd-gynhyrchu model ymarfer newydd ar gyfer gweithwyr cymdeithasol a staff sy'n gweithio gyda theuluoedd sydd wedi'u hatgyfeirio at y Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn dilyn ymarfer ymchwil a oedd yn cynnwys adolygiad llenyddiaeth ac yn ymdrin â rhestr fer o fodelau dewisol, cytunodd y Garfan Rheoli Gwasanaethau i Blant ar fodel ymarfer newydd, ac rydyn ni wedi dechrau ymgynghori â theuluoedd ac ymarferwyr ar roi'r model newydd ar waith.

iv) Gwella Gwaith Ailuno

Dyw pob plentyn sydd angen dod o dan ofal ddim yn gallu mynd yn ôl i ofal ei rieni biolegol, neu ddylai ef neu hi ddim dychwelyd adref at ei rieni biolegol. Serch hynny, mae modd i lawer ddychwelyd yn llwyddiannus, gyda'r cymorth cywir. Rydyn ni wedi adnewyddu ein polisi sefydlogrwydd ac wedi datblygu strategaeth ailuno sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ailuno cartrefi plant sydd wedi treulio rhywfaint o amser yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Wrth wneud hyn, fe wnaethom ni gynnwys staff ac aelodau o'r teulu er mwyn i ni allu deall a nodi beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd angen ei newid yn y dyfodol. Roedd y gweithgaredd yma'n cynnwys grwpiau ffocws, cyfweiliadau a gweithdy ailuno yn hydref 2023. Yn 2023/24, o'r 119 o blant a adawodd ofal y Cyngor, cafodd 50 o blant eu dychwelyd adref (42%). Mae hyn yn llai nag yn 2022/23 pan gafodd 57% o blant a adawodd ofal y Cyngor eu dychwelyd adref.



Blaenoriaeth 2 - Gweithredu Strategaeth Trawsnewid Gwasanaethau Preswyl Plant sy'n Derbyngofal

O ran y plant hynny na allant aros gyda'u teuluoedd, rydyn ni am wneud yn siŵr bod modd iddyn nhw dderbyn gofal yn nes at eu cartref. Yn 2023/24, fe wnaethom ni barhau i weithio gyda darparwyr i ddatblygu digonolrwydd lleoliadau yn agos i gartref, gan wneud yn siŵr bod y Cyngor yn darparu'r llety a'r cymorth sydd eu hangen ar ein plant sy'n derbyn gofal.

Yn unol ag uchelgais Llywodraeth Cymru o ddileu elw o ofal plant, rydyn ni'n gweithredu ein **Strategaeth Trawsnewid Gwasanaethau Preswyl** tymor hir a gytunwyd gan y Cabinet ym mis Chwefror 2023. Trwy'r Strategaeth, byddwn ni'n datblygu darpariaeth newydd o gartrefi plant sy'n cwrdd ag angen ac yn cyd-fynd â dyletswydd digonolrwydd statudol gan gynnwys nodi'r darparwyr hynny a fydd yn cydweithio / trawsnewid i fod yn rhai nid-er-elw. Yn 2023/24, rydyn ni wedi agor pedwar cartref plant newydd, wedi recriwtio a hyfforddi staff ar gyfer y cyfleusterau newydd hyn yn ogystal â phrynu eiddo arall a fydd yn cael ei adnewyddu a'i gofrestru fel cartref plant. O ganlyniad i'r datblygiadau hyn, er bod nifer y plant sydd angen gofal preswyl wedi cynyddu, o 56 i 69, mae'n gadarnhaol bod nifer y plant sy'n cael eu lleoli yn Rhondda Cynon Taf (yn agosach at adref) wedi cynyddu o 459 i 464. Mae 19 o blant wedi cael eu lleoli yng nghartrefi plant mewnol Rhondda Cynon Taf ym mis Mawrth 2024 o'i gymharu â 10 ym mis Mawrth 2023. Mae nifer y plant a gafodd eu lleoli y tu allan i Gymru hefyd wedi gostwng o 8% ym mis Mawrth 2023 i 5% ym mis Mawrth 2024.

Er gwaethaf y datblygiadau cadarnhaol hyn, unwaith eto bu'n rhaid gosod nifer fach o bobl ifainc mewn lleoliad 'gweithredu heb gofrestru' ('OWR')- y dewis annerbyniol arall fyddai peidio â darparu llety a gofal i'r person ifanc dan sylw. Mae hyn yn sgil cynnydd yn y galw, cymhlethdod cynyddol o ran anghenion, a phrinder cartrefi plant cofrestredig. Yn ystod Ionawr a Chwefror adolygodd y Sefydliad Gofal Cyhoeddus y trefniadau, gan roi sicrwydd sylweddol ac awgrymiadau defnyddiol ar gyfer gwelliant. Bydd yr adroddiad yn cael ei dderbyn gan Fwrdd Rhianta Corfforaethol y Cyngor yn 2024/25.



Maethu Cymru Rhondda Cynon Taf yw Gwasanaeth Maethu'r Awdurdod Lleol. Yn unol â'n Strategaeth Trawsnewid Gwasanaethau Preswyl, yn 2023/24 fe wnaethom ni barhau i weithio i gynyddu cyflenwad a sgiliau rhieni maeth yn Rhondda Cynon Taf. Roedd hyn yn cynnwys ymuno â'r ymgyrch Genedlaethol newydd '**gall pawb gynnig rhywbeth**' sy'n ceisio ysbrydoli pobl o bob cefndir i ystyried maethu gyda'u hawdurdod lleol. Yn allweddol i'r ymgyrch yma yw rhannu profiadau realistig pobl sy'n rhoi gofal maeth ac archwilio'r nodweddion personoliaeth bach ond arwyddocaol sydd gan bobl i'w cynnig a all wneud byd o wahaniaeth i berson ifanc sy'n derbyn gofal. Fe wnaethom ni hefyd hyrwyddo Wythnos Maethu 19 Chwefror- 25 Chwefror 2024 mewn cydweithrediad â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg.

Hyfforddiant a chymorth - Cynhalwyr sy'n Ystyriol o Drawma

Yn ogystal â darparu therapi, mae ein gwasanaeth therapiwtig MAPSS (Gwasanaeth Cymorth Sefydlogrwydd Amlasiantaethol) yn darparu hyfforddiant i gefnogi sefydlogrwydd mewn lleoliadau.

Mae modd i chi wyllo'r **Cyfweliad Gofal sy'n Ystyriol o Drawma** yma gyda Tracy, sy'n riant maeth, i ddeall yn well sut y gall darparu hyfforddiant sy'n Ystyriol o Drawma effeithio'n gadarnhaol ar blant mewn gofal maeth a'u cynhalwyr.

Yn 2023/24, roedd cyfanswm o 268 o unigolion yn rhoi gofal maeth (128 Prif Ffrwd a 140 yn Berthynas) yn Rhondda Cynon Taf. Mae hyn yn cymharu â 286 yn 2022/23 (136 Prif Ffrwd a 150 yn Berthynas). Mae angen i ni gyflymu'r broses o denu pobl i faethu, ac rydyn ni'n datblygu cynlluniau wedi'u costio i'w cymeradwyo. I gael rhagor o wybodaeth am Faethu Cymru Rhondda Cynon Taf darllenwch ein **Hadroddiad Ansawdd Gofal** a gafodd ei gyflwyno i'n Bwrdd Rhianta Corfforaethol ym mis Mawrth 2024.

Dathlu Llwyddiant – Gwobrau Rhwydwaith Maethu 2023

Cafodd Megan ei henwebu am wobwr y Rhwydwaith Maethu ar gyfer plant rhieni maeth gan weithiwr cymdeithasol goruchwylol ei rhieni. Cafodd ei dewis yn gyd-enillydd gan dderbyn ei gwobr mewn seremoni ym mis Tachwedd 2023. Roedd y seremoni yn gyfle gwych i ddathlu'r gymuned faethu a thynnu sylw at eu llwyddiannau anhygoel:


Mae rhieni Megan wedi maethu gyda Maethu Cymru Rhondda Cynon Taf ers 2008, ac yn y cyfnod yma, mae Megan wedi bod yn gefn i'w theulu.

Pan aeth ei Mam yn sâl yn ddiweddar gan orfod treulio amser yn yr ysbyty, bu Megan yn helpu gyda gofal dydd i ddydd yr efeilliaid y mae'r teulu'n gofalu amdany'n nhw, y mae Megan yn eu hystyried yn frodyr iddi.

Mae Megan hefyd yn cydbwysu astudiaethau ar gyfer ei gradd fferylliaeth. Dywedodd Sarah Hanspal-Blake, y gweithiwr cymdeithasol goruchwylol: 'Dydy Megan ddim wedi cwyno unwaith ac mae wedi fy syfrdanu gyda'r cymorth y mae hi wedi'i roi i'r bechgyn a'i Thad.'

Dydy ei chefnogaeth amhrisiadwy, o dasgau yn y tŷ, mynd â'r bechgyn i sesiynau ar ôl ysgol a gofalu amdany'n nhw yn ystod gwyliau'r ysgol, ddim wedi mynd heb i neb sylwi – yn hollbwysig, ac yn caniatáu i'r bechgyn i aros gyda nhw.

Rydyn ni'n parhau i wella'r cymorth sy'n cael ei ddarparu i'n rhai sy'n gadael gofal ac wedi datblygu Strategaeth Llety a Chymorth i'r rhai sy'n Gadael Gofal sy'n amlinellu ein dull o ddarparu cymorth i bobl ifainc sy'n gadael gofal. Mae'r strategaeth wedi'i datblygu gyda'r rhai sy'n gadael gofal drwy gyfres o achlysuron galw heibio. Roedd y bobl ifainc y buom ni'n siarad â nhw yn cytuno ag egwyddorion y strategaeth ac yn teimlo bod y continwwm cymorth rydyn ni wedi'i amlinellu ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal yn gadarnhaol. Wrth fyfyrio ar eu profiadau personol o adael gofal, dywedodd y mwyafrif o'r bobl ifainc y buom ni'n siarad â nhw y bydden nhw wedi hoffi rhywfaint o gymorth ysgafn wrth symud i fyw'n annibynnol; i gael mentor yn galw heibio arny'n nhw ychydig o weithiau'r wythnos i weld sut maen nhw'n ymdopi, gan leihau'n raddol nifer yr ymweliadau maen nhw'n eu cael mewn wythnos. Yn ogystal, roedd llawer o bobl ifainc yn teimlo y bydden nhw'n elwa ar ragor o wybodaeth ymarferol ynglŷn â byw ar eu pen eu hunain am y tro cyntaf, megis gwybodaeth am sut i reoli arian a biliau, ynghyd â phrydau bwyd y byddai'n hawdd eu paratoi ar gyllideb. Rydyn ni wedi cynhyrchu fersiwn Hawdd ei Ddeall o'r strategaeth fel bod y rhai sy'n gadael gofal yn deall yr hyn rydyn ni'n ceisio'i gyflawni a phryd.



Ein Gweledigaeth ar gyfer y Strategaeth Llety a Chymorth i'r rhai sy'n Gadael Gofal:

Darparu cysondeb o ran llety a chymorth i bobl ifainc sy'n gadael gofal, diwallu anghenion y rhai sy'n gadael gofal yn Rhondda Cynon Taf, wrth ddatblygu llwybr llety clir ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal.

Drwy'r Rhaglen Grant Cymorth Tai rydyn ni'n parhau i ddatblygu tai â chymorth a gwasanaethau cymorth sy'n ymwneud â thai a all helpu pobl ifainc i ddatblygu sgiliau byw'n annibynnol a helpu i ddatrys problemau a allai arwain at ddigartrefedd. Mae datblygiadau eleni wedi cynnwys agor cyfleuster newydd sy'n cynnwys 5 fflat hunan-gynhaliol ar gyfer pobl ifainc 16-21 oed sydd ag anghenion cymorth uchel.

Rydyn ni'n parhau i ddarparu cymorth a chyngor a chyflwyno cyfleoedd cyflogaeth, addysg a hyfforddiant i'n pobl ifainc sy'n byw mewn gofal neu'n gadael gofal trwy amrywiaeth o raglenni i wella cyflogadwyedd a rhagolygon o ran dod o hyd i swydd. Fe ddarparon ni **ddiweddariad blynyddol** ar ein rhaglen Camu i'r Cyfeiriad Cywir a'n rhaglen Gofal i Waith i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol ym mis Mawrth 2024.

Rhaglen Swyddi dan Hyfforddiant 'Camu i'r Cyfeiriad Cywir'

Astudiaeth Achos



Dyma raglen ddwy flynedd sy'n cynnig swyddi dan hyfforddiant â thâl i bobl ifainc 16–25 oed sydd mewn gofal, neu sy'n gadael gofal, yn Rhondda Cynon Taf. Caiff cyfleoedd gwaith eu rhoi i hyfforddeion mewn amrywiaeth o adrannau yng Nghyngor Rhondda Cynon Taf.

Stori Lizzy:

Mae Lizzy Hattersley, hyfforddai Camu i'r Cyfeiriad Cywir, wedi bod ar leoliad yng Ngwasanaethau Oriau Dydd i Oedolion 'Learning Curve' yn Abercynon. Cwblhaodd Lizzy y Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan a'r cymhwyster craidd. O ganlyniad i gwblhau ei chymhwyster craidd ymgeisiodd Lizzy Hattersley a llwyddodd i sicrhau lle ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd yn astudio cwrs Gradd BA (Anrh) Gwaith Ieuenctid a Chymunedol.

GofaliWaith

Astudiaeth Achos



Mae'r rhaglen yma'n ceisio rhoi anogaeth a chymorth i bobl ifainc 16-25 oed sydd â phrofiad o fod mewn gofal, er mwyn nodi ystod o gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddi a manteisio arny'n nhw.

Dadansoddiad o Ddeilliannau Ebrill 2023 – Mawrth 2024:

Atgyfeiriadau - 101

Wedi sicrhau cyflogaeth - 8

Wedi mynd i addysg bellach – 8

Wedi ennill cymhwyster – 18

Wedi cwblhau Cwrs GofaliWaith – 21

Profiad gwaith a gwirfoddoli – 9

Yn dal i weithio gyda GofaliWaith ar hyn o bryd – 16

Heb ymgysylltu – 21

Mentrau Newydd:

O fis Medi 2023 mae GofaliWaith wedi cysylltu â'r Ysgol Rithwir i gynnig cymorth o ran Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant i bob disgybl Blwyddyn 10 ac 11. Caiff ymweliadau eu trefnu gyda Phersonau Dynodedig bob tymor academaidd.

Stori JE:

Derbyniwyd atgyfeiriad gan Berson Dynodedig Ysgol Gymunedol Glynrhedynog gan nad oedd JE yn mynychu'r ysgol a'i fod mewn perygl o adael addysg heb unrhyw gymwysterau a dim cyrchfan. Fe wnaeth JE gwrdd â chynghorydd GofaliWaith a mynegodd ddi-ddordeb mewn gweithio yn y diwydiant adeiladu.

Cafodd JE wybod am gwrs 2 wythnos Cyflwyniad i Adeiladu gan GofaliWaith ac roedd yn awyddus i fynychu gan ei fod eisiau cyflawni ei gymhwyster Lefel 1 mewn Iechyd a Diogelwch a'r Cerdyn Cynllun Tystysgrif Sgiliau Adeiladu (CSCS). Cytunodd yr ysgol i ryddhau JE i fynychu'r cwrs. Mynychodd JE bob sesiwn yn ystod y cwrs pythefnos Cyflwyniad i Adeiladu gyda GofaliWaith a dangosodd fod ganddo'r gallu i fynychu, cymryd rhan a hefyd cyflawni ei nodau. Mae JE wedi meithrin perthynas ragorol â GofaliWaith ac mae'n mynychu sesiynau adolygu wythnosol. Ers cwblhau'r cwrs a gweithio gyda GofaliWaith mae JE wedi mynychu'r ysgol yn fwy rheolaidd ac mae hyd yn oed wedi sefyll arholiad ac ennill cymhwyster mewn gwyddoniaeth.

Bydd JE yn sefyll ei arholiad Lefel 1 mewn Iechyd a Diogelwch a Phrawf CSCS Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu ar 10 Mai 2024 ac mae wedi gwneud cais a chael ei dderbyn ar gwrs Lefel 1 Aml-Sgiliau Adeiladu yng Ngholeg y Cymoedd ar gyfer mis Medi 2024.

Bu cynnydd yn nifer y plant digwmni sy'n ffoaduriaid sydd wedi dod i mewn i'n gofal, o 8 o blant dan 18 oed yn 2022/23 i gyfanswm o 17 o blant dan 18 oed a 15 dros 18 oed hyd at ddiwedd mis Mawrth 2024 drwy'r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol (DU), a nifer fach o bobl sy'n cyrraedd yn ddigymell. Rydyn ni'n rhagweld y bydd angen cynyddol yn y maes yma wrth i ffactorau geowleidyddol, economaidd a hinsoddol sbarduno mudo ar draws cenhedloedd.

Blaenoriaeth 3 - Hyrwyddo cynnwys ac ymgysylltu - Cyflawni ein Strategaeth Cyfranogiad

Rydyn ni wedi parhau i gryfhau cyfranogiad plant a phobl ifainc yn unol â'n Strategaeth Cyfranogiad newydd y Gwasanaethau i Blant 2023-26 i hyrwyddo cynnwys ac ymgysylltu yn benodol â Phlant sy'n Derbyn Gofal ac asiantaethau partner, er mwyn sicrhau cydweithio a bod llais y plant a'r bobl ifainc yn cael ei glywed wrth ddatblygu a darparu gwasanaethau.

Ein haddewid cyfranogiad i Blant a Phobl Ifainc

Byddwn ni'n eich trin chi'n deg.

Byddwn ni bob amser yn gwrando arnoch chi, yn eich parchu a bod yn broffesiynol.

Rydyn ni am gael sgysiau agored a gonest gyda chi.

Rydyn ni am i chi wybod eich hawliau a beth i'w ddisgwyl pan fyddwn ni'n gweithio gyda'n gilydd.

Bydd staff yn rhannu eu proffiliau 'Amdanaf i' (pan fo'n briodol) er mwyn i chi gael gwybod pwy sy'n rhoi cymorth i chi a beth yw eu hoffterau a'u diddordebau.

Rydyn ni eisiau i chi ein herio ni os ydych chi'n teimlo bod neb yn gwrando arnoch chi.

Dywedwch wrthon ni sut byddai modd i ni wneud pethau'n well i'ch cefnogi.

Mae pob person yn wahanol ac yn unigryw, byddwn ni'n dysgu o'ch syniadau ac yn gwrando ar ba gymorth rydych chi'n teimlo sydd ei angen arnoch chi ac yn gweithio gyda'n gilydd i ddatblygu hyn.

Dywedwch wrthon ni beth aeth yn dda a beth allai fod yn well trwy adborth.

Rydyn ni eisiau deall eich profiadau a gwrando ar eich adborth i helpu i wneud gwelliannau i bob plentyn a pherson ifanc.

Bob blwyddyn byddwn ni'n darparu adborth trwy 'Dywedoch chi, fe wnaethom ni' am y gwelliannau rydyn ni wedi'u gwneud i gefnogi pob Plentyn a Pherson Ifanc yn well.

Ein haddewid cyfranogiad i Rieni, Cynhalwyr a Theuluoedd

Byddwn ni bob amser yn gwrando arnoch chi, yn eich parchu a bod yn broffesiynol.

Byddwn ni'n dod i'ch adnabod chi.

Rydyn ni am i chi wybod eich hawliau a beth i'w ddisgwyl pan fyddwn ni'n gweithio gyda'n gilydd.

Bydd staff yn rhannu eu proffiliau 'Amdanaf i' (pan fo'n briodol) er mwyn i chi gael gwybod pwy sy'n rhoi cymorth i chi a beth yw eu hoffterau a'u diddordebau.

Byddwn ni bob amser yn gwirio eich bod chi wedi deall yr wybodaeth a drafodwyd.

Bydd eich lleisiau yn cael eu clywed.

Mae modd i chi ein herio os byddwn ni'n methu â chyrraedd y safonau uchel rydyn ni wedi'u gosod i ni ein hunain.

Byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth rydyn ni'n ei gael gennych chi i'n helpu i wella ein cymorth i rieni, cynhalwyr a theuluoedd.

Byddwn ni'n darparu adborth blynyddol (bob blwyddyn) trwy 'Dywedoch chi, fe wnaethom ni' ac yn rhannu'r gwelliannau rydyn ni wedi'u gwneud ar gyfer rhieni, cynhalwyr a theuluoedd.

Yn rhan o barhau a chryfhau'r sgwrs 'Dod yn Rhan o Bethau' gyda phobl ifainc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, cafodd achlysuron cyfranogiad eu cynnal gyda phobl ifainc 11 i 15 oed ar **22 Medi 2023** a **10 Tachwedd 2023** yn YMa, Pontypridd. Cymerodd pobl ifainc ran mewn sesiwn celf a chrefft a sesiwn gwneud pwдинаu heb eu pobi (yn seiliedig ar adborth blaenorol). Bu pobl ifainc hefyd yn rhannu eu llais am yr hyn sy'n mynd yn dda iddyn nhw a'r hyn y byddai modd ei wella ar gyfer plant a phobl ifainc.

Un o'r camau gweithredu allweddol yn Strategaeth Cyfranogiad 2023/26 yw datblygu gwybodaeth i'r cyhoedd ar gyfer plant, pobl ifainc a theuluoedd. Agwedd o'r prosiect yma fydd ailddatblygu'r wybodaeth ar ein gwefan ar gyfer plant a phobl ifainc â phrofiad o fod mewn gofal. Mae hyn yn rhoi adborth ar waith o'r arolwg 'Dod yn Rhan o Bethau' ac achlysuron cyfranogiad wyneb yn wyneb, lle dywedodd pobl ifainc yr hoffon nhw gael gwybodaeth fwy hygyrch mae modd iddyn nhw edrych arni'n gyflym ynghyd â gwybodaeth i gefnogi eu hiechyd meddwl a'u lles.

Cafodd enghreifftiau pellach o waith a gafodd ei gynnal yn 2023/24 i gynnwys ac ymgysylltu â phlant a phobl ifainc sydd â phrofiad o fod mewn gofal eu cyflwyno i'r **Bwrdd Rhianta Corfforaethol ym mis Ionawr 2023**, gan gynnwys yr astudiaeth achos ganlynol

Cefnogi plant a phobl ifainc sydd â phrofiad o fod mewn gofal – Achlysur Dathlu Plant a Phobl Ifainc sydd â Phrofiad o Fod Mewn Gofal


Cafodd achlysur dathlu plant a phobl ifainc sydd â phrofiad o fod mewn gofal ei gynnal ar 29 Tachwedd 2023 yng Ngwesty'r Parc Treftadaeth fel dathliad ar y cyd rhwng yr Ysgol Rithwir ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a'r Gwasanaethau i Blant. Cafodd 37 o bobl ifainc eu henwebu ar gyfer gwobrau cyflawniad mewn addysg, cyflawniadau personol, y celfyddydau a chwaraeon.

Roedd yr achlysur yn cynnwys perfformiad gan ein côr Sing Proud Cymru sy'n cynnwys plant, pobl ifainc a chynhalwyr yn rhan o Voices from Care Cymru ac yn cynnwys cân gyda defnydd o Makaton ynghyd ag areithiau ysbrydoledig a pherfformiadau gan blant a phobl ifainc.

Daeth dros 100 o blant, pobl ifainc, cynhalwyr, staff ac Aelodau'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol i'r achlysur i gydnabod cyflawniadau'r bobl ifainc.

Sylwadau gan y Swyddog Cyfranogiad:

“*Dywedodd gofalwr maeth wrtha i ei bod hi o'r farn bod yr achlysur yn ysbrydoledig i'w phobl ifainc oherwydd ei bod yn dda iddyn nhw wrando ar bobl ifainc sydd wedi goresgyn heriau ac sy'n gwneud yn dda o ran eu haddysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ac i'w mab wrando ar yr wybodaeth yma gan y bobl ifainc yn eu geiriau eu hunain.*”



Ymyrraeth Gynnar ac Ataliaeth

Mae galw a gweithgarwch cynyddol barhaus wrth y drws ffrynt - derbyniwyd 28,035 o gysylltiadau ar gyfer plant gan y Gwasanaethau Cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn, i fyny o 26,712 yn 2022/23.

Yn 2023, gofynnwn ni i'r Sefydliad Gofal Cyhoeddus gynnal adolygiad o'n Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth. Pwrpas yr adolygiad oedd gwneud argymhellion ar y model gweithredu gorau posibl, i ddarparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon sy'n diwallu anghenion plant a theuluoedd ac sy'n cyd-fynd â thrawsnewidiadau digidol a thrawsnewidiadau sy'n seiliedig ar leoedd a fydd yn digwydd dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Rydyn ni wedi parhau i ddarparu cymorth i deuluoedd mor gynnar â phosibl er mwyn cynyddu gwydnwch ac atal yr angen am wasanaethau statudol. Yn 2023/24, fe ymgysyllton ni â 1,195 o deuluoedd, ac fe gynyddodd eu cydnerthedd ar ôl iddyn nhw gwblhau gwaith gyda'n Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth. Mae hyn yn gyson â 2022/23 pan adroddodd 1,263 o deuluoedd gynydd yn eu gwydnwch yn dilyn ymyrraeth gyda'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth.


Deilliannau'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth

(ar gyfer y teuluoedd hynny a gwblhaodd yr ymyrraeth)

85% Yn fwy cydnerth

12% Heb gymryd rhan yn y gwerthusiad

3% Cydnerthedd ddim wedi gwella



Y Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth - Adborth gan Deulu (sylwadau yn yr iaith wreiddiol)

“ I feel that both myself, [Child] and [Child] have benefitted greatly from the support you have provided. ”

“ When I first self referred into RFS, I was doubting myself as to if I'd made the right decision. Opening up your family's situation and struggles to a stranger makes you feel incredibly vulnerable... Feeling that I would be seen as a bad mother, I was really apprehensive about our first meeting. However, within the first few minutes of meeting you, you'd put me at ease ”

“ Thank you for all your help! It's really appreciated. ”

“ Your individual approach to the three of us has meant that we have all been supported in the areas where we have needed it. ”

“ We are extremely grateful for the time you took to help us, and the way you really listened to our concerns ”

“ Coming away from each of our discussions, I felt that I had gained positive feedback and reassurance in my decisions going forward, instead of the expected feeling that my pride had been dented. ”

“ You made it so easy for me to explain my concerns to you. Instead of feeling the judgement that 'd anticipated, I instead felt that you understood what I was saying. ”

“ We are already seeing results from our CAB referral. I've applied for a blue badge for [Child] (independently of DLA) and this has been approved by RCTCBC. This alone will make the world of difference to [Child] when we are out and about. ”

Cynhalwyr Ifainc

Cafodd 147 o asesiadau eu cwblhau ar gyfer cynhalwyr ifainc o dan 18 oed yn ystod 2023/24, o'i gymharu â 133 y flwyddyn flaenorol. Cyflwynodd ein darparwr cymorth dan gontract Gweithredu dros Blant 144 o achlysuron ar gyfer cynhalwyr ifainc lle'r oedd mwy na 1,100 o bresenoldeb yn ystod y flwyddyn, a 70 o achlysuron a grwpiau penodol pellach wedi'u cynnal ar gyfer cynhalwyr sy'n frodyr a chworydd gyda mwy na 450 o bresenoldeb. Mae'r achlysuron a'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnig i gynhalwyr ifainc a chynhalwyr sy'n frodyr a chworydd yn canolbwyntio ar ddarparu seibiant o'r rôl ofalu, yn ogystal ag adeiladu cydnherthedd a sgiliau newydd. Mae'r rhain wedi cynnwys:

- Sesiynau grŵp rheolaidd ar draws y sir i ddarparu cymorth gan gyfoedion
- Sesiynau llesiant
- Cymorth mentora
- Sgiliau coginio
- Nofio
- Teithiau i barciau thema a chanolfannau chwarae
- Bowlio
- Sinema
- Rheoli arian
- Technegau cyfweliad
- Teithiau i'r traeth
- Celf graffiti
- Gweithdai canu

Cymorth i Gynhalwyr Ifainc

Astudiaeth Achos

Mae Plentyn A yn byw gartref gyda'i mam a'i thad a chafodd ei hatgyfeirio am gymorth gan hyrwyddwr cynhalwyr ei hysgol. Mae mam Plentyn A yn dioddef o Epilepsi ac mae wedi bod yn profi trawiadau difrifol ers 10 mlynedd. Mae hi'n gallu cymryd peth amser iddi wella ohonyn nhw. Mae'r trawiadau wedi gadael Mam â niwed i'w nerfau yn ei choes, gan effeithio ar ei symudedd a pha mor hir y mae'n gallu cerdded yn annibynnol. Cytunodd plentyn A a'i rhieni i gael asesiad cynhaliwr ifanc a nodwyd y meysydd pryder canlynol:

- Mae Plentyn A yn teimlo bod angen iddi helpu llawer gartref i wneud pethau'n haws i Mam gan fod posibilrwydd y gall straen fod yn sbardun i'r trawiadau.
- Mae Plentyn A yn gyndyn o adael Mam rhag ofn i rywbeth ddigwydd iddi tra bydd i ffwrdd ac, yn dilyn trawiad, mae Plentyn A yn aros gyda Mam rhag ofn y bydd angen unrhyw beth arni wrth iddi wella.
- Pryderon ynghylch lles emosiynol Plentyn A. Dydy Plentyn A ddim yn hoffi siarad am ei phryderon a'i theimladau gyda'i theulu gan nad yw hi am ychwanegu at eu straen ac roedd hi'n cydnabod nad yw hi'n teimlo ei bod hi'n gallu siarad ag unrhyw un arall.
- Yn yr ysgol, mae Plentyn A yn poeni am ei Mam ac yn ei chael hi'n anodd canolbwyntio.
- Pan fydd y teulu'n mynd allan gyda'i gilydd, mae Plentyn A yn gwyllo ei Mam rhag ofn bod arwyddion ei bod hi ddim yn teimlo'n dda. Teimlai'r rhieni bod Plentyn A yn colli allan ar fynd allan a chael hwyl.

Ar ba ffurf oedd y cymorth?

- Yn ystod y broses asesu, roedd y teulu'n teimlo ei bod yn fuddiol cael yr amser i siarad yn agored am eu sefyllfa a'r effaith yr oedd yn ei chael ar bob un ohonyn nhw. Roedd modd i'r rhieni roi cydnabyddiaeth a sicrwydd i Blentyn A.
- Gwnaeth Plentyn A gais am y Cerdyn Cynhalwyr Ifainc ac mae'n mynd ag ef i'r ysgol bob dydd. Mae pob un o'i hathrawon bellach yn gwybod pan fydd Plentyn A yn dangos ei cherdyn, bod angen peth amser arni ar ei phen ei hun neu fod angen iddi siarad â rhywun mewn lle tawel. Mae modd iddi ddefnyddio ei ffôn os yw ei Mam wedi bod yn sâl yn y bore, ar ôl trafod hyn gyda'r hyrwyddwr cynhalwyr.
- Atgyfeirwyd Plentyn A at y prosiect cynhalwyr ifainc i gael cymorth parhaus. I ddechrau, fyddai hi ddim yn aros am sesiynau grŵp gan nad oedd hi am adael Mam. Felly fe wnaethon nhw wahodd Plentyn A a'i Mam i weithgaredd gyda'i gilydd ac roedd modd iddyn nhw ymgysylltu â Phlentyn A gan ei bod yn gwybod bod ei Mam yn dal yno. Dechreuodd Plentyn A ddod i adnabod y cynhalwyr ifainc eraill a'r gweithwyr. Mae hi bellach yn mynychu'r sesiynau grŵp yn rheolaidd. Mae hi wedi gwneud ffrindiau ac mae'n cael seibiant rheolaidd o fod gartref.

Deilliant:

Dywed rhieni Plentyn A ei bod hi'n hapusach yn yr ysgol nawr, yn dod yn fwy hyderus yn gofyn i athrawon am help ac yn gwybod bod modd iddi ddefnyddio ei ffôn amser cinio sydd wedi lleihau ei phryder ynghylch gadael ei Mam. Mae Plentyn A yn gadael ei Mam am gyfnodau byr a dywedodd Mam ei bod yn dod yn haws iddi bob tro y mae'n gwneud hynny. Mae Plentyn A wedi bod yn ymgysylltu â phobl ifainc eraill sydd hefyd yn gynhalwyr ifainc ac felly mae'n deall bod llawer o bobl ifainc eraill sydd â bywydau cartref a phryderon tebyg iddi. Mae gan Blentyn A bellach rwydwaith o gymorth y tu allan i'w theulu ac mae'n cael cyfleoedd rheolaidd i siarad am unrhyw bryderon sydd ganddi. Mae hi wedi bod yn mwynhau sesiynau grŵp a gweithgareddau bach yn annibynnol i'w theulu ac wedi bod yn canolbwyntio arni hi ei hun yn hytrach na phoeni am sut mae Mam.

Yn eu geiriau eu hunain (yn yr iaith wreiddiol):

“Child A looks forward to going to the project and wishes she could go every week! She knows that they are all in the same situation. She has got a lot better leaving me for a short time and will now ask for help when she needs it.”

“It's really good (the young carers project). It makes me feel relaxed. I wish it were more often!”


Diogelu Plant a Phobl Ifainc

Rydyn ni wedi cydweithio gyda'n partneriaid trwy Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg a'r Bartneriaeth Cymunedau Diogel i gytuno ar ddatblygiad Strategaeth Camfanteisio Ranbarthol. Mae rhagor o wybodaeth yn **Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg 2023/24**.

Rydyn ni hefyd wedi cydweithio i ddatblygu menter Mannau Diogel Rhondda Cynon Taf a fydd yn galluogi cymunedau i ddatblygu cyfleoedd i helpu eu hunain gan ddefnyddio dull diogelu cyd-destunol yn ogystal â chyfrannu at fentrau newydd eraill fel y Cynllun Peilot 'Built for Zero' a Fframwaith 'Clear, Hold, Build'.

Rydyn ni'n parhau i ddarparu Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn unol â'r dull 'plentyn yn gyntaf' a nodwyd gennym yng Nghynllun Strategol Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid 2021/24 sy'n trin plant fel plant ac yn ceisio sicrhau nad ydyn nhw'n cael eu troseddoli'n ddiangen oherwydd eu bod yn agored i niwed neu'r heriau y maen nhw'n eu hwynebu. Mae'n sicrhau bod y gwasanaeth yn canolbwyntio ar y plentyn yn hytrach na'r gwasanaeth a'i fod yn diwallu anghenion unigol plant ac yn ymateb i'w lles gorau. Yn 2023/24, cafodd **Pecyn cymorth a deunydd hyfforddi ac adnoddau eraill** eu datblygu ar gyfer gweithwyr proffesiynol i gyflwyno ffordd newydd o weithio i leihau nifer y plant a phobl ifainc sydd â phrofiad o fod mewn gofal sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol. Nod y pecyn cymorth yw rhoi'r egwyddorion yn y '**Protocol Cymru Gyfan: Lleihau Nifer y Plant a'r Bobl Ifainc sy'n cael eu Troseddoli**' ar waith. Roedd dros 65 o blant a phobl ifainc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn rhan o waith datblygu'r Pecyn Cymorth, ac mae eu barn wedi llunio cynnwys y Pecyn Cymorth. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn ein **Hadroddiad diweddarau'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid** a gafodd ei gyflwyno i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol ym mis Ionawr 2024.

Mae'r gwaith yma wedi gweld cynnydd yn nifer y datrysiadau y tu allan i'r llys (o 124 yn 2022/23 i 143 yn 2023/24) gan ddargyfeirio plant a phobl ifainc o sancsiynau ffurfiol, a chofnod troseddol. Mae hon yn duedd gadarnhaol ac mae'n cyd-fynd â'r ymdrech i leihau nifer y plant a'r bobl ifainc sy'n cael eu troseddoli lle bo'n briodol. Serch hynny, rydyn ni wedi gweld cynnydd yn nifer y newydd-ddyfodiaid i'r system cyfiawnder ieuenctid yn ystod y 12 mis diwethaf (o 55 yn 2022/23 i 66 yn 2023/24) a chynnydd sylweddol yn nifer y plant sy'n cael eu remandio neu'u dedfrydu i gyfnod mewn llety cadw ieuenctid (o 2 yn 2022/23 i 8 yn 2023/24). Bydd lleihau'r niferoedd hyn yn her glir ac yn flaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod, a bydd llwyddiant, i raddau helaeth, yn dibynnu ar ddealltwriaeth well o anghenion ein carfan ac effeithiolrwydd gwaith partneriaeth cryf ochr yn ochr â'r Gwasanaethau i Blant, Iechyd, Addysg a'r Heddlu.



Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer 2024/25?


Bydd ein blaenoriaethau strategol yn aros yr un fath ar gyfer 2024/25:

1. Byddwn ni'n gweithredu'r Strategaeth Atal Plant sy'n Derbyn Gofal- bydd hyn yn targedu gwasanaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth tuag at gymorth i deuluoedd er mwyn sicrhau mai dim ond y plant hynny nad oes dewis arall diogel ar eu cyfer sy'n dod i ofal.
2. Byddwn ni'n cyflawni'r Strategaeth Trawsnewid Gwasanaethau Preswyl, gan wneud yn siŵr bod y Cyngor yn darparu'r llety a'r cymorth sydd eu hangen ar ein plant sy'n derbyn gofal.
3. Byddwn ni'n cyflawni'r strategaeth Cyfranogiad sy'n amlinellu dull Gwasanaethau i Blant Rhondda Cynon Taf o gefnogi hawliau plant, pobl ifainc, rhieni, cynhalwyr, a theuluoedd sy'n derbyn gofal a chymorth, i leisio'u barn ac i gymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau am eu bywyd a helpu i lunio datblygiadau gwasanaeth yn y dyfodol.
4. Byddwn ni'n ail-ddylunio ein Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (Strategaeth 'Cymorth Cywir, Amser Cywir a Lle Cywir') ochr yn ochr â rhanddeiliaid i fod yn wasanaeth cynaliadwy gyda bwriad cryf o ran atal wrth y drws ffrynt.
5. Byddwn ni'n sicrhau bod gweithlu Gwasanaethau i Blant Rhondda Cynon Taf yn uchel ei gymhelliant, yn ymgysylltu ac yn cael eu gwerthfawrogi; bod gan staff y gallu, y sgiliau, y cymhwysedd a'r hyder i ddiwallu anghenion plant a theuluoedd.

adran

3

Trosolwg o'r Gwasanaethau i Oedolion



Yn y Gwasanaethau i Oedolion, rydyn ni'n cyfrannu at Gynllun Corfforaethol y Cyngor **"Gwneud gwahaniaeth"** ac yn benodol y flaenoriaeth llesiant **"Sicrhau bod POBL: yn annibynnol, yn iach ac yn llwyddiannus"** gan:

"Cefnogi ein trigolion sy'n hŷn, agored i niwed, neu sydd ag anableddau, er mwyn iddyn nhw barhau i fod yn annibynnol a mwynhau bywyd o ansawdd."

"Integreiddio gofal iechyd a chymdeithasol a darparu cymorth i'r rheiny â phroblemau iechyd meddwl ac anghenion cymhleth."

Yn yr adran yma, rydyn ni'n darparu data a gwybodaeth i ddangos cyflawniadau gwasanaeth allweddol, datblygiadau, a heriau yn y Gwasanaethau i Oedolion yn 2023/24, ynghyd â'n blaenoriaethau gwasanaeth allweddol ar gyfer 2024/25, lle mae datblygiadau a newid pellach wedi'u nodi.

Ein cyflawniadau allweddol yn 2023/24

Mae Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn gyffredinol yn wynebu dyfodol heriol. Mae newid demograffig, galw cynyddol, anawsterau sy'n gysylltiedig â chyllid a'r gallu i recriwtio a chadw'r gweithlu yn rhoi gwasanaethau gofal cymdeithasol dan bwysau ar adeg pan fo partneriaid eraill ar draws y gwasanaethau cyhoeddus, megis y GIG a thai, yn wynebu heriau i'r un graddau.

Rydyn ni'n ffodus bod gyda ni draddodiad cadarnhaol o weithio ar y cyd â'r GIG i gydgyssylltu gofal i bobl â chyflyrau cymhleth ac anghenion gofal a chymorth yn enwedig mewn meysydd megis anableddau dysgu, gwasanaethau iechyd meddwl, rhyddhau o'r ysbyty ac ailalluogi. Serch hynny, er mwyn cwrdd yn effeithiol â maint a chyd-ddibyniaeth yr anghenion a ragwelir gan boblogaeth sy'n heneiddio bydd yn rhaid i ni hwyluso symudiad tuag at fodol iechyd a gofal cymdeithasol mwy integredig. Wedi dweud hynny, caiff Gofal Cymdeithasol i Oedolion ei ddarparu mewn amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys yn uniongyrchol drwy wasanaethau'r Cyngor, gan ddarparwyr gofal cymdeithasol eraill, neu'r sector cymunedol a gwirfoddol neu drwy gymorth gan deulu a ffrindiau sy'n darparu gofal anffurfiol. Y gweithlu ffurfiol ac anffurfiol yma yw ein hased mwyaf ac mae cynnal ei uniondeb ar adegau o newid ac ansicrwydd yn parhau i fod yn flaenoriaeth i ni. Mae trosolwg o'r galw a chyflawniad cysylltiedig isod:



Cafodd

13,553

o gysylltiadau ar gyfer oedolion eu derbyn gan y Gwasanaethau Cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn (gostyngiad o 14,013 yn 2022/23).

O'r rhain, roedd

10,847

yn gysylltiadau newydd a dderbyniwyd (11,444 yn 2022/23).

Cafodd cyngor neu gymorth ei ddarparu yn achos

66%

o'r cysylltiadau newydd a dderbyniwyd (gostyngiad o 76% yn 2022/23).



Cafodd

6,081

o asesiadau newydd eu cwblhau ar gyfer oedolion yn ystod y flwyddyn (gostyngiad o 8,315 yn 2022/23).

O'r rhain, roedd gan

1,484 (24%)

ddeiliant cynllun gofal a chymorth (gostyngiad o 1,490 (18%) yn 2022/23).

Roedd gan

4,282

o oedolion gynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth 2023 (i fyny o 4,260 yn 2022/23).



Cafodd

2,240

o adolygiadau eu cwblhau yn ystod y flwyddyn (gostyngiad o 2,890 yn 2022/23).

Cafodd

76.2%

o oedolion eu cefnogi yn y gymuned yn ystod y flwyddyn (gostyngiad o 79.3% yn 2022/23).



Cafodd

1,179

o becynnau ailalluogi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn (i fyny o 1,087 yn 2022/23).

O'r rhain, dychwelodd

51%

at hunanofal yn dilyn ymyriad (gostyngiad o 62% yn 2022/23).

Dechreuodd

1,871



o wasanaethau i oedolion yn ystod y flwyddyn (gostyngiad o 2,027 yn 2022/23).

O'r rhain,

- roedd 444 yn lleoliadau gofal preswyl (505 yn 2022/23)
- roedd 1,184 yn becynnau gofal cartref (1,235 yn 2022/23)
- roedd 243 ar gyfer cymorth seibiant (287 yn 2022/23).

Er gwaetha'r cyd-destun yma, mae cynnydd da wedi'i wneud ar gyflawni gwelliannau i wasanaethau i'n helpu ni i gwrdd â'r heriau presennol a'r heriau yn y dyfodol, fel y dangosir gan rai o'n cyflawniadau allweddol a nodir isod:

- Cwblhau ailfodelu'r garfan Gofal a Chymorth / Anabledau Dysgu i greu dwy garfan Anabledau Dysgu newydd, datgysylltu'r Garfan Adolygu Cymunedol a chreu'r carfanau Gofal a Chymorth newydd ar draws y Fwrdeistref.
- Rhaglen ymgysylltu 'Fy Niwrnod I, Fy Newis I' gyda phobl ag anabledd dysgu i gydgyhyrchu strategaeth ar gyfer gwasanaethau oriau dydd a model gweithredu i drawsnewid y gwasanaeth a chwrdd â dyheadau pobl ag anabledd dysgu sydd angen mynediad at gyfleoedd yn ystod y dydd nawr ac yn y dyfodol.
- Mae gwaith yn mynd rhagddo i drawsnewid yr ystod o lety sydd ar gael i bobl agored i niwed. Er nad ydyn ni'n rhagweld y bydd y prosiectau cyfalaf mawr hyn yn cael eu cwblhau eleni, bydd ein buddsoddiad yn cynnig llawer mwy o ddewis a chyfleoedd i bobl gael byw bywydau annibynnol a heb gyfyngiadau yn y dyfodol. Bydd y cyfleusterau gofal ychwanegol, safle Danymynydd ac yn Aberpennar, yn y dyfodol yn cael effaith gadarnhaol ar gapasiti llety gofal yn y dyfodol ac felly hefyd y datblygiad newydd arfaethedig yn Nhreforci pan fydd safle addas ar gael.
- Rydyn ni wedi llwyddo i ail-dendro'r contractau Byw â Chymorth ar gyfer pobl ag Anabledd Dysgu gyda chyfranogiad pobl ag anabledd dysgu.
- Gwnaethom ni ymateb i gau cartref nyrsio The Willows a throsglwyddo'r preswylwyr agored i niwed yn ddiogel i leoliadau priodol eraill er gwaethaf yr amserlenni heriol.
- Buom ni'n gweithio gyda'n partneriaid yn y Rhanbarth i gyflwyno gofynion Rhyddhau i Adfer ac Asesu (D2RA) Llywodraeth Cymru a gweithredu'r system adrodd newydd o ran oedi yn achos llwybrau gofal (PoCD) o fis Ebrill a ddisodlodd yr oedi wrth drosglwyddo gofal (DToC).
- Rydyn ni wedi lleihau rhestrau aros yn y garfan Addasu ac Offer yn y Gymuned a gwasanaethau gofal a chymorth ac wedi cyflwyno prosesau rheoli risg ac uwchgyfeirio effeithiol ar gyfer pob carfan er mwyn cefnogi rheolwyr i flaenoriaethu'r rhai sydd â'r angen mwyaf am ymyrraeth.
 - Gofal a Chymorth: o 186 ym mis Mawrth 2023 i 129 ym mis Mawrth 2024.
 - Addasu ac Offer yn y Gymuned (Therapi Galwedigaethol): o 201 ym mis Mawrth 2023 i 120 ym mis Mawrth 2024.
- Mae Rhondda Cynon Taf wedi cymryd rôl arweiniol wrth arwain nifer o garfanau integredig, gwasanaethau a byrddau partneriaeth gyda phartneriaid yr Awdurdod Lleol a'r GIG e.e. y gwasanaeth offer cymunedol, Cadw'n Iach Gartref, Partneriaeth Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol, Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, ac yn fwyaf diweddar, y garfan camddefnyddio sylweddau ar gyfer Merthyr Tudful.
- Mae ein gwasanaeth Vision Products yn parhau i ddarparu gwasanaeth offer cymunedol effeithiol ar draws y rhanbarth ac mae cytundeb Adran 33 newydd wedi'i sefydlu a'i lofnodi gan holl aelodau'r Awdurdod Lleol.





Sut mae pobl yn llywio ein gwasanaethau?

Mae gyda'r meysydd gwasanaeth unigol brosesau sydd wedi'u sefydlu'n dda ar gyfer casglu adborth yn rhan o'u prosesau sicrhau ansawdd. Isod mae rhai enghreifftiau o ymgysylltu â gwasanaethau a chynnwys defnyddwyr gwasanaethau a gynhaliwyd yn 2023/24 a sut mae'r rhain wedi siapio ein gwasanaethau:

- caiff preswylwyr yng nghartrefi gofal y Cyngor eu hannog i roi sylwadau ac awgrymiadau trwy gyfarfodydd preswylwyr a blychau sylwadau/awgrymiadau i lywio gwelliannau i wasanaethau. Mae rhai enghreifftiau o sut mae'r adborth yma wedi llywio gwasanaethau'n cynnwys:
 - Gwella ein gweithgareddau garddwriaethol yn ein cartrefi gofal preswyl.
 - Ailwampio ac addurno'r ardaloedd bwyta ac fe ddewisodd y preswylwyr y cynlluniau lliw a'r dodrefn.
 - Mae newidiadau i'r fwydlen wedi'u rhoi ar waith yng nghartref gofal ychwanegol Cwrt yr Orsaf.
- Rhaglen ymgysylltu 'Fy Niwrnod I, Fy Newis I' gyda phobl ag anabledd dysgu i gydgyhyrchu **strategaeth ar gyfer gwasanaethau oriau dydd** a model gweithredu i drawsnewid y gwasanaeth a chwrdd â dyheadau pobl ag anabledd dysgu sydd angen mynediad at gyfleoedd yn ystod y dydd nawr ac yn y dyfodol.
- Proses dendro Byw â Chymorth yn rhan o'r rhaglen "Fy Nghartref I, Fy Newis I" wedi'i chydgyhyrchu o'r fanyleb gwasanaeth hyd at werthuso'r cynigion. Bu'n fuddiol cynnwys defnyddwyr yn y broses o ddrafftio Manylebau Gwasanaeth gan mai wrth ddiffinio'r angen y bu eu gwybodaeth fwyaf defnyddiol. Mae'r cwestiynau tendro a gafodd eu gosod gan y grŵp wedi'u seilio ar eu gwybodaeth unigol a'u profiad personol o'r Gwasanaethau Byw â Chymorth. Cafodd hyn ei nodi fel arfer cadarnhaol gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn eu gwiriad sicrwydd o wasanaeth anableddau dysgu cymunedol Rhondda Cynon Taf a Charfan Anableddau Dysgu Cymunedol y De ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg:

Sylw gan randdeiliad a ymatebodd i'n harolwg (yn yr iaith wreiddiol):



Adults with LD are included in everything the authority is planning and everything is issued in easy read format.



- Fe gasglon ni safbwyntiau pobl a oedd wedi defnyddio ein gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn ddiweddar (asesiad cymesur ar Un Pwynt Mynediad) yn rhan o'r adolygiad Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth i ddeall profiadau a chyfleoedd i wella.
- Fe wnaethom ni ymgysylltu â chynhalwyr di-dâl i ddeall pa gymorth maen nhw'n teimlo sydd ei angen arny'n nhw nawr ac yn y dyfodol i'w cefnogi yn eu rôl ofalu. Fe wnaethom ni hefyd ymgysylltu â'n staff i nodi gwelliannau i'r ffordd rydyn ni'n cynnal Sgyrsiau i Gynhalwyr statudol, a bydd hyn yn cael ei ddefnyddio i nodi gwaith ymgysylltu a datblygu pellach yn y flwyddyn i ddod. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu â chynhalwyr er mwyn deall disgwyliadau ar gyfer mathau eraill o seibiant a fydd, ynghyd ag ymgysylltu pellach, yn llywio'r gwaith o ddatblygu manyleb gwasanaeth seibiant cynhalwyr newydd ar gyfer tendr yn ddiweddarach yn 2024/25.


- Rydyn ni'n parhau i addasu sut rydyn ni'n cyfathrebu ac yn cynnwys defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys paratoi cynnwys hawdd ei ddeall. Tynnwyd sylw at hyn fel arfer cadarnhaol yn ystod gwiriad sicrwydd y Gwasanaethau Anableddau Dysgu a gafodd ei gwblhau gan AGC ac AGIC ym mis Chwefror 2024:

“Gwelsom enghraifft o achos lle roedd gwybodaeth mewn fformat hawdd ei deall wedi cael ei datblygu a'i defnyddio i helpu person ag anabledd dysgu i ddeall pam yr oedd angen i'w rhieni/cynhaliwr (gofalwr) symud i gartref gofal preswyl. Mae hyn yn enghraifft o arfer cadarnhaol.”

Yn debyg i'r blynyddoedd blaenorol, fe gynhalion ni arolwg blynyddol i ddefnyddwyr y gwasanaeth a oedd yn gofyn i sampl o oedolion 18 oed a hŷn, a oedd â chynllun gofal a chymorth ar y diwrnod y lluniwyd y sampl, sut maen nhw'n teimlo am y gofal a'r cymorth y maen nhw'n ei dderbyn. Eleni cwblhaodd 724 o bobl yr arolwg o'i gymharu â 465 o bobl yn 2022/23. Yn gyffredinol, mae cyflawniad o'i gymharu â'r llynedd yn gadarnhaol gyda mwyafrif y mesurau ansawdd gwasanaeth yn gwella neu'n aros yr un fath o gymharu â'r llynedd.

Mesur ansawdd gwasanaeth:

O'r 724 o oedolion a ymatebodd i'r arolwg:



Cwblhaodd 45 o gynhalwyr holiadur i gynhalwyr yn 2023/24 o'i gymharu â 25 yn 2022/23. Cytunodd 97% o gynhalwyr gydag 'ie' neu 'weithiau' o ran y datganiad 'Mae modd i fi wneud y pethau sy'n bwysig i mi' a chytunodd 78% gydag 'ie' neu 'weithiau' eu bod nhw'n teimlo'n rhan o'u cymuned.

Canmoliaeth a Chwynion am y Gwasanaethau i Oedolion

Mae proses ganmoliaeth a chwyno statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi cyfle i ddefnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd roi adborth. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi nifer y cwynion a chanmoliaeth a dderbyniwyd eleni ac yn y tair blynedd flaenorol.

	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24
Nifer y cwynion a ddaeth i law	25	63	57	74
Nifer y canmoliaethau a ddaeth i law	91	66	70	90

Yn debyg i'r blynyddoedd blaenorol, mae nifer y cwynion am Wasanaethau i Oedolion yn gyffredinol yn parhau i fod yn gymharol isel o gymharu â nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau. Pan, o bryd i'w gilydd, nad ydyn ni wedi gallu bodloni disgwyliadau pobl, rydyn ni'n defnyddio'r adborth i ddysgu beth y mae modd i ni ei wneud yn well a, lle bo angen, rydyn ni'n gwneud newidiadau.

Beth mae ein harolygwyr yn ei ddweud am ein gwasanaethau?

Adroddiadau Arolygu Ansawdd Gofal AGC 2022-2023: Mae system graddau mud newydd wedi'i chyflwyno eleni gan AGC, mae'r gwasanaeth cartrefi gofal wedi cael gradd fud 'Da' eleni ac mae'n ymdrechu i wella arfer er mwyn cael gradd 'Rhagorol'.

Fe wnaeth **gwiriad sicrwydd** AGC ac AGIC o wasanaethau anabledd dysgu Cyngor Rhondda Cynon Taf, a Byrddau Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Bae Abertawe ym mis Chwefror 2024 ganfod y canlynol:

- Mae'r uwch-reolwyr yn ymwybodol o'r heriau parhaus sylweddol a wynebwr wrth ymateb i alw ac anghenion mwy cymhleth, a phwysau ariannol. Maent wedi nodi nifer o feysydd allweddol y mae angen eu gwella. Gan weithio mewn partneriaeth, mae RhCT a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg/Bae Abertawe wedi cydnabod bod angen parhau i drawsnewid a gwella gwasanaethau fel bod pobl yn gallu cael y gofal/cymorth/therapi cywir ar yr adeg gywir, yn y lle cywir ac yn y ffordd fwyaf effeithlon a diogel posibl.
- Ar lefel weithredol, gwelsom lawer o enghreifftiau o ymarferwyr yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd yn cydweithio'n effeithiol. Dywedodd cynhalwyr ac ymarferwyr wrthon ni am fanteision strwythur newydd y Garfan Anabledd Dysgu Cymunedol a'r ffaith bod Timau Anabledd Dysgu Cymunedol arbenigol wedi'u hailgyflwyno ym maes gofal cymdeithasol. Gwnaethant gydnabod ei bod yn ddyddiau cynnar a'u bod yn obeithiol y bydd y newid hwn yn cael effaith gadarnhaol ar bobl ag

anabledd dysgu. Soniodd ymarferwyr gofal cymdeithasol yn gadarnhaol am y strwythur newydd ac roeddent o'r farn ei fod yn mynd o 'nerth i nerth.' Dywedodd rhai pobl wrthym y byddai cyd-leoli ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn gwella gwaith partneriaeth ymhellach.

- Mae'r rhan fwyaf o bartneriaethau yn gweithio'n dda ar lefel weithredol, ond chaiff gwybodaeth bob amser mo'i rhannu'n effeithiol oherwydd y dulliau a'r systemau gwahanol ar gyfer cofnodi gwybodaeth yn yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd. Mae hyn yn golygu nad yw gwybodaeth am iechyd ac anghenion gofal a chymorth pobl ar gael yn hawdd ar draws partneriaethau.
- Mae'r awdurdod lleol yn hyrwyddo mathau gwahanol o gymorth tai er mwyn galluogi pobl i gyflawni eu canlyniadau ac i fyw mor annibynnol â phosibl yn y gymuned.
- Cytunwyd ar ddull gweithredu rhanbarthol er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cefnogi'n effeithiol i gyflawni eu canlyniadau llesiant personol wrth iddynt ddod yn oedolion. Bydd y dull rhanbarthol hwn yn sicrhau bod asiantaethau yn cydgysylltu'n effeithiol er mwyn sicrhau proses effeithlon ac effeithiol ar gyfer cynllunio'r broses bontio a'i rhoi ar waith ledled y rhanbarth.

Cyflawni Ein Blaenoriaethau - Deilliannau, Cynnydd a Heriau

Blaenoriaeth 1 - Datblygu llety gofal ar gyfer pobl hŷn ac agored i niwed

Rydyn ni wedi parhau i ddatblygu gweledigaeth a strategaeth y Cyngor ar gyfer llety gofal i bobl hŷn ac agored i niwed i sicrhau ein bod ni'n creu'r cynnig gwasanaeth cywir sy'n ymateb i alw cynyddol ac anghenion newidiol, gan alluogi rhagor o bobl i fyw'n annibynnol yn eu cymuned.

Mae hyn yn cynnwys datblygu cyfleusterau gofal ychwanegol sy'n cynnig cyfle i bobl hŷn fyw bywyd mwy annibynnol ac atal derbyniadau diangen i ofal preswyl. Mae gofal ychwanegol hefyd yn galluogi pobl i gael mwy o reolaeth a chael eu cynnwys yn fwy mewn penderfyniadau am eu hamgylchedd a'r gwasanaethau maen nhw'n eu derbyn.

Yn 2023/24, aildechreuodd y gwaith adeiladu yn ardal Porth ar y cyfleuster gofal ychwanegol newydd. Dechreuodd y gwaith adeiladu yng ngwanwyn 2022 yn y lle cyntaf, ond daeth i ben oherwydd bod y prif contractiwr yn mynd i ddwylo'r gweinyddwyr yn ystod gaeaf 2022. Mae **Linc Cymru** wedi penodi contractwr newydd i aildechrau gwaith adeiladu ar safle hen Gartref Gofal Dan y Mynydd. Ailddechreuodd y gwaith ar y safle ym mis Chwefror 2024 a'r dyddiad cwblhau diwygiedig ar gyfer y datblygiad yw Gaeaf 2025. Bydd y cynllun yn golygu y bydd modd defnyddio safle hen Gartref Gofal Dan y Mynydd unwaith eto drwy adeiladu datblygiad o'r radd flaenaf fydd yn cynnwys 60 o fflatiau gofal ychwanegol. Bydd yr adeilad pedwar llawr yn cynnwys ardal fwyta, salon trin gwallt, ystafell weithgareddau, canolfan oriau dydd a swyddfeydd yn ogystal â maes parcio allanol.

Rydyn ni hefyd yn gweithio gyda **Linc Cymru** i ddatblygu cyfleuster gofal ychwanegol newydd yn Aberpennar. Bydd y cynllun ar safle'r hen Bafiliwn, sy'n dyddio'n ôl i 1919 – ac mae camau dylunio'r datblygiad wedi ystyried yr hanes arwyddocaol yma ar gyfer y cynllun arfaethedig. Bydd y datblygiad arfaethedig yn darparu 15 o welyau gofal dementia preswyl o ansawdd uchel, a 25 o fflatiau gofal ychwanegol gyda thai hygyrch ychwanegol i bobl hŷn. Mae hyn oll mewn ymateb i anghenion demograffeg yr ardal. Yn ogystal, bydd amrywiaeth o gyfleusterau megis lolfa, ystafelloedd bwyta, ystafell oriau dydd, salon trin gwallt ac ystafell synhwyraidd yn rhan o'r cynllun. Bydd y datblygiad yma hefyd yn hwyluso opsiwn trosiannol ar gyfer y rhai sy'n rhan o'r cynllun, gan roi cyfle iddyn nhw symud o ofal ychwanegol i ofal dementia preswyl, yn amodol ar newid yn eu categori gofal. Bydd hyn yn sicrhau bod modd i unigolion aros yn rhan o'r cynllun gyda pharhad gofal. Yn haf 2023, cafodd **dau achlysur cyhoeddus** eu cynnal er mwyn i drigolion lleol gael gwybod rhagor am y cynnig a helpu i lywio'r cynllun wrth symud ymlaen.

Mae'r dyddiad cwblhau ar gyfer y datblygiad yma'n debygol o fod rhwng diwedd 2026 a dechrau 2027.

Rydyn ni hefyd yn gweithio ar opsiynau datblygu cyfleusterau llety gofal pellach yng Nglynrhedynog a Threorci yn unol â'n strategaeth i foderneiddio gwasanaethau gofal preswyl lleol y cytunwyd arni gan y Cabinet yn **Chwefror 2023**. Ar hyn o bryd, rydyn ni'n edrych i ganfod tir addas ar gyfer y datblygiadau hyn a byddan nhw'n cael eu cynllunio i gyflawni rhagoriaeth 'BREEAM', sef asesiad cynaliadwyedd mwyaf blaenllaw'r byd.

Rydyn ni hefyd wedi ad-drefnu Cartref Gofal Tegfan i ofal dementia yn unig. Mae hyn wedi rhoi'r potensial i ni gynyddu ein cynnig lleol ac ehangu'r ddarpariaeth o welyau i'r rhai â dementia, yn unol â'r galw presennol a'r galw rhagweledig.

Gan weithio gyda **Chymdeithas Tai Cynon Taf**, fe agoron ni gynllun byw â chymorth newydd â chwe fflat yn **Nhreorci**. Mae'r fflatiau hyn yn rhoi cyfleoedd i bump o bobl sy'n byw mewn lleoliad meddygol yn bennaf symud yn ôl i'r gymuned ac i lety parhaol, gyda'r holl gymorth a gofal y bydd eu hangen arnyn nhw i symud ymlaen â'u bywydau a ffynnu.

Mae gwaith wedi dechrau ar ddatblygu llety gofal arbenigol newydd ar gyfer oedolion a phobl hŷn ag anabledau dysgu, ar **safle hen Gartref Gofal Preswyl Bronllwyn yng Ngelli**. Mae'r hen gartref gofal wedi'i ddymchwel ac mae'r gwaith ar y safle yn parhau yn dilyn toriad ar y safle oherwydd daeth cwmni'r contractwr dymchwel blaenorol i ben. Mae gwaith yn mynd rhagddo fel y cynlluniwyd ar gynllun llety â chymorth yn rhan o ddatblygiad **'The Big Shed'** yn Nhonypandy. Bydd y cynllun yn cynnwys 8 fflat ar gyfer oedolion ag anabledau dysgu ochr yn ochr â llety staff. Rydyn ni hefyd yn datblygu opsiynau dylunio ar gyfer cynllun byw â chymorth newydd i bobl ag anabledd dysgu ym Mhentre'r Eglwys. Bydd hyn yn golygu dymchwel hen Gartref Gofal Garth Olwg ac adeiladu ar y safle presennol. Mae'r cynnydd wedi bod yn arafach na'r disgwyl a does dim partneriaid wedi'u nodi eto ar hyn o bryd.



Gofal Ychwanegol

Astudiaeth Achos



Helo, fy enw i yw Gillian Bishop. Rydw i'n 57 mlwydd oed a symudais i Gwrt yr Orsaf ym mis Hydref 2022. Mae gen i sawl cyflwr iechyd ac rydw i'n gaeth i gadair olwyn.

Cyn symud i Gwrt Yr Orsaf roeddwn i'n byw mewn fflat yn Nhreorci. Roedd y fflat yma'n fach iawn a doedd fy nghadair olwyn ddim yn gallu ffitio trwy unrhyw un o'r drysau. Roeddwn i wedi fy ynysu i'r ardal fyw a doedd gen i ddim ffrindiau. Doeddwn i ddim yn gallu gadael yr eiddo a'r unig bobl o'n i'n gweld oedd y bobl a oedd yn galw i mewn pedair gwaith y dydd i roi cymorth i mi a'r nyrs ardal yn y bore i roi fy inswlin. Cafodd hyn effaith enfawr ar fy iechyd meddwl gan ddwysáu fy iselder a'm gorbyder.

Dywedodd fy ngweithiwr cymdeithasol wrtha i am Gwrt Yr Orsaf a rhoddodd gymorth i mi i fynd i edrych o gwmpas. Roeddwn i'n caru Cwrt Yr Orsaf yn syth bin ac roeddwn i'n methu aros i symud i mewn.

Mae byw yng Nghwrt yr Orsaf wedi cael effaith fawr ar fy iechyd a'm lles. Rydw i gymaint yn hapusach ac mae gen i gymaint mwy o ryddid ac annibyniaeth. Mae fy fflat yn llawer mwy, rydw i wedi ei bersonoli yn ôl fy nymuniadau, mae'r drysau'n ddigon llydan i mi allu teithio o ystafell i ystafell ac rydw i'n gallu golchi fy nillad fy hun gyda chymorth staff gofal nawr fy mod i'n gallu cael mynediad i gegin. Doeddwn i byth yn gallu gwneud hyn yn fy hen fflat. Mae gen i ddrws ffrynt awtomatig rydw i'n gallu ei reoli'n electronig. Rydw i bellach yn gadael fy fflat sawl gwaith y dydd ar fy mhen fy hun.

Rydw i'n cael cymorth gan staff gofal RhCT sy'n galw i mewn pedair gwaith y dydd. Maen nhw hefyd yn rhoi cymorth i mi gael cawod bob bore. Mae digon o le yn fy ystafell gawod ac mae gen i hefyd declyn codi ar y nenfwd sy'n galluogi staff i fy nhrosglwyddo'n rhwydd. Mae'r teclyn codi'n gyfforddus yn fy marn i, ac mae'r staff gofal yn gwneud trosglwyddiadau yn bleserus.

Rydw i wrth fy modd â'r staff gofal sy'n rhoi cymorth i mi, rydyn ni'n cael llawer o hwyl, maen nhw i gyd yn hyfryd. Maen nhw'n rhoi cymorth i mi gyda fy ngofal personol a'm trosglwyddiadau ac yn paratoi fy myrbrydau a diodydd gan fy mod yn ddiabetig ac yn methu â gwneud hyn drosof fi fy hun. Mae gen i larwm galwadau brys rydw i'n ei wisgo bob amser. Rydw i'n pwysu'r larwm yma mewn argyfwng ac mae staff bob amser yn ateb ac yn galw heibio os bydd eu hangen nhw arnaf i. Mae hyn yn rhoi ymdeimlad gwych o ddiogelwch i mi tra rydw i'n byw yma.

Rydw i wedi gwneud cymaint o ffrindiau yma yng Nghwrt yr Orsaf. Bob bore a nos rydyn ni'n cyfarfod lle rydyn ni i gyd yn dod â pheycyn bwyd a byrbrydau i'w mwynhau a'u rhannu wrth sgwrsio a gwyllo teledu. Rydyn ni'n chwarae bingo bob wythnos ac yn cynnal cyfarfodydd tenantiaid lle rydyn ni'n trafod ac yn trefnu achlysuron a gweithgareddau i ni gyd eu mwynhau. Rydw i bob amser yn cymryd rhan yn y cyfarfodydd a'r gweithgareddau.

Mae fy nhenantiaeth yng Nghwrt Yr Orsaf yn cynnwys prif bryd o fwyd a phwddin o'r bwyty i lawr y grisiau. Rydw i bob amser yn mynd i gwrdd â'r holl staff a fy ffrindiau. Rydw i'n mwynhau'r bwydydd rydw i wedi dewis. Rydw i'n cael hwyl gyda fy ffrindiau (sydd hefyd yn byw yma). Weithiau os dydw i ddim yn teimlo'n dda iawn byddaf i'n rhoi gwybod i'r staff a byddan nhw'n danfon fy mhrydau i fy ystafell i sicrhau mod i ddim yn colli allan.

Mae fy anghenion yn bendant yn cael eu diwallu yma yng Nghwrt yr Orsaf a mwy. Cefais fy nghyflwyno i asiantaeth gyfeillio yma ac rydw i'n defnyddio hwn ddwywaith yr wythnos. Mae fy fflat yn cael ei lanhau gan y gwasanaeth unwaith yr wythnos ac mae fy siopa groser o'm dewis yn cael ei ddsbarthu i fy fflat.

Cymerais ran yn y broses o lunio fy nghynllun darparu gwasanaeth ac eisteddais i lawr gyda'r dirprwy reolwr a buom ni'n trafod yr hyn yr oeddwn i ei eisiau a pha gymorth roedd ei angen arnaf i tra fy mod i'n byw yma, os oes gyda fi unrhyw bryderon neu broblemau neu os oedd unrhyw agwedd o'm gofal a chymorth angen ei newid. Rydw i'n gwybod bod modd i mi fynd i weld rheolwyr RhCT a byddan nhw'n gwneud eu gorau i roi cymorth i mi mewn unrhyw ffordd bosibl fel y maen nhw wedi'i wneud yn y gorffennol.

Rwy'n hapus iawn yma ac yn hapus gyda'r gwasanaeth dw i'n ei gael. Dydw i byth eisiau gadael.

Blaenoriaeth 2 - Atal anghenion rhag gwaethygu a galluogi adferiad ac annibyniaeth.

Rydyn ni'n parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau i osgoi angen rhag dwysáu neu arwain at adferiad ac annibyniaeth.

Ym mis Tachwedd 2023, cymeradwyodd y Cabinet gynlluniau i barhau i gefnogi pobl i fod mor annibynnol â phosibl drwy barhau i ddarparu gwasanaeth ailalluogi mewnol a gofal canolraddol drwy ein Gwasanaeth Cymorth yn y Cartref. Cwblhawyd 1,179 o becynnau ailalluogi rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024. O'r pecynnau hyn, roedd 1,160 wedi lleihau, cynnal neu liniaru'r angen am gymorth (98%).

Yn ystod 2023/24, darparodd ein gwasanaethau mewnol Cymorth yn y Cartref 133,655 awr o gymorth gofal cartref uniongyrchol i 1,766 o bobl, gan eu galluogi a'u cefnogi i aros mor annibynnol â phosibl. O'r rhain, darparwyd bron i 26,000 awr o ofal uniongyrchol tymor byr gan y gwasanaeth Gofal Canolraddol a'r Gwasanaeth Ailalluogi, gyda 75.5% o bobl yn dod yn annibynnol ar ddiwedd ein cymorth gofal canolraddol a 79.5% yn dod i ben yn annibynnol ar ôl cymorth ailalluogi.

Gwasanaeth Cymorth yn y Cartref – Adborth gan Ddefnyddwyr Gwasanaeth

Y gwasanaeth Gofal Canolraddol a'r Gwasanaeth Ailalluogi:

- Cytunodd 94% eu bod nhw'n cael eu hysbysu'n llawn wrth gynllunio eu rhaglen gymorth.
- Dywedodd 97% eu bod nhw'n teimlo eu bod nhw wedi cyflawni eu holl nodau o'n gwasanaeth.
- Roedd 100% yn cytuno bod eu hurddas a'u dewis yn cael eu parchu bob amser.
- Roedd 100% yn cytuno eu bod nhw wedi elwa o'n gwasanaeth.
- Cytunodd 99% fod ein gwasanaeth wedi eu helpu i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartref.
- Dywedodd 96% eu bod nhw wedi gallu cynnal eu hannibyniaeth ers i'r cymorth ddod i ben.

Gofal yn y Cartref

- Cytunodd 100% eu bod nhw'n cael eu trin ag urddas a pharch.
- Cytunodd 92% fod ein gwasanaeth wedi eu helpu i gynnal eu hannibyniaeth.
- Dywedodd 100% eu bod nhw'n fodlon bod staff wedi cyrraedd o fewn 30 munud i'r amser y cytunwyd arno.

Cynhalwyr heb gyflog

- Roedd 100% o bobl yn ystyried bod y cymorth a ddarperir yn Ardderchog neu'n Dda lawn.
- Dywedodd 100% eu bod nhw'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rôl fel cynhaliwr.

Atgyfeirwyr

- Dywedodd 100% fod yr amser ymateb ar gyfer cynllunio gwasanaeth yn Ardderchog neu'n Dda lawn.
- Dywedodd 100% fod eu hyder yn y gwasanaeth a ddarperir yn Ardderchog neu'n Dda lawn.

Staff

- Dywedodd 98% eu bod nhw'n teimlo eu bod nhw'n cael eu cefnogi yn eu rôl gan eu goruchwyliwr.
- Dywedodd 93% eu bod nhw'n cael cynnig cyfleoedd hyfforddi digonol yn eu rôl.

Sut mae ailalluogi yn cefnogi pobl hŷn i fyw yn eu cartrefi eu hunain

Astudiaeth Achos



Mae Mr H yn 89 oed a chysylltodd ei ferch â'r garfan Un Pwynt Mynediad ar ôl iddo gael ei ryddhau o'r ysbyty ar ôl iddo gwmpo oherwydd pwysedd gwaed isel a thorri ei drwyn a'r asgwrn o gwmpas ei lygaid. Mae Mr H hefyd wedi drysu weithiau.

Mae merch Mr H wedi symud i mewn gyda'i rhieni i roi cymorth i'w thad, ond mae hi hefyd yn gweithio a dywedodd wrth y garfan Un Pwynt Mynediad nad oedd ei thad yn gallu gwneud unrhyw beth yn annibynnol ers iddo gael ei ryddhau o'r ysbyty a'i fod wedi colli sgiliau a hyder.

Yn yr asesiad, dywedodd Mr H yr hoffai fynd yn ôl i wneud ei holl dasgau gofal personol a mynd i'r toiled ar ei ben ei hun, cerdded heb gymhorthion, a gallu defnyddio'r grisiau. Dyma oedd ei nodau ar gyfer y Cynllun Ailalluogi bryd hynny.

Ar ôl asesiad, darparodd Therapyddion Galwedigaethol offer i'w gynorthwyo i symud rhwng y gwely a'r toiled. Gosodwyd rheiliau cydio a alluogodd Mr H i ymarfer defnyddio'r grisiau a throsglwyddo i ddodrefn ac oddi arno. Trefnwyd galwadau bore a hwyr gyda staff ailalluogi i ymarfer ymolchi a gwisgo.

Gwnaeth Mr H gynnydd da ac yn dilyn ymyriad gan y garfan Ailalluogi:

- Roedd yn gallu symud yn annibynnol gyda'i ffrâm cerdded.
- Gallai gerdded i fyny ac i lawr y grisiau'n annibynnol.
- Yn annibynnol gyda phob agwedd ar ofal personol fel mynd i'r toiled, ymolchi a gwisgo ac wedi dechrau cael cawod yn annibynnol.

Yn 2023/24 cwblhaodd y Garfan Gofal a Chymorth tymor byr 824 o asesiadau. O'r rhain derbyniodd 85 o bobl wasanaethau ataliol; roedd 623 yn ymwneud â datblygu gofal a chymorth i nodi a chyflawni eu deilliannau; cafodd 72 wybodaeth a chyngor; ac roedd y gweddill naill ai heb unrhyw anghenion gofal a chymorth neu'n gallu eu diwallu mewn ffordd amgen. Dywedodd un unigolyn: "Oherwydd eich cymorth chi rydw i wedi gallu dychwelyd i fy nghartref fy hun a dyna beth roeddwn i eisiau. Rydw i a fy nheulu wedi cael cymorth drwy'r prosesau amrywiol i gyflawni'r deilliant yma."

Dyrannodd y Garfan Addasu ac Offer yn y Gymuned (ACE) 2,849 o achosion i staff i'w hasesu yn ystod 2023/24. Dosbarthwyd 3135 darn o offer/addasiadau i gartrefi pobl er mwyn rhoi cymorth i unigolion gadw eu hannibyniaeth.

Derbyniodd y Garfan Addasu ac Offer yn y Gymuned (ACE) 617 o geisiadau gan ddarparwyr gofal am gymorth gyda materion codi a chario a chwblhawyd 678 o gynlluniau codi a chario, gan leihau risg a chefnogi staff gofal i ddefnyddio offer yn effeithiol ac yn ddiogel i alluogi pobl i barhau i fyw gartref. Dywedodd un unigolyn: "Mae'n rhaid i mi ddweud bod y gwasanaeth rydw i wedi'i dderbyn yn eithriadol. Roedd yr aelod o staff mor garedig, ystyriol a chydymdeimladol a helpodd i fy arwain i sicrhau bod y cymhorthion yr oeddwn eu hangen yn cael eu nodi a'u bod wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'm gallu i fyw'n annibynnol. Roedd y cymhorthion wedi'u gosod yn brydlon ac yn effeithlon, ac roedd yr holl staff a gymerodd ran yn hyfryd. Hoffwn i chi ddiolch yn ddiffuant i bawb a gymerodd ran."

Astudiaeth Achos



Carfan Addasu ac Offer yn y Gymuned

Mae Mr X yn byw ar ei ben ei hun mewn fflat llawr gwaelod ar rent, daeth atgyfeiriad i'r Garfan Addasu ac Offer yn y Gymuned am asesiad cegin. Roedd Mr X yn cael anhawster i gyflawni tasgau cegin oherwydd diffyg lle, doedd cypyrddau'r gegin ddim yn hygyrch iddo, a doedd e ddim yn gallu cyrraedd y ffenestr felly roedd yn cael ei gadael ar agor yn barhaol.

Derbyniodd Mr X asesiad gan Therapydd Galwedigaethol a gwnaethpwyd argymhelliad i addasu'r gegin gyda'r bwriad y byddai'r gwaith yn tarfu ar Mr X cyn leied â phosibl gan yr oedd yn dal i fyw yn yr eiddo.

Cafodd yr unedau wal gegin eu disodli gan rai gyda basgedi gollwng wedi'u pweru er mwyn iddo allu cyrraedd eitemau'n haws ac yn fwy diogel. Tynnwyd uned drôr ac wyneb gweithio i greu lle i osod stôl glwydo. Disodlwyd y tapiau sinc gyda thapiau lifer â handlen hir gan fod y rhain yn caniatáu i Mr X afael ynddo'n haws. Gosodwyd system agor awtomatig yn lle'r ffenestr.

Mae'r addasiad wedi lleihau'r risg i Mr X wrth iddo wneud tasgau yn y gegin ac mae hefyd wedi cynyddu ei annibyniaeth gan leihau'r ddibyniaeth ar ei deulu.

Mae Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn grant nad yw'n ad-daladwy sydd ar gael i ariannu'r gost o wneud addasiadau i eiddo er mwyn helpu pobl fregus neu anabl i fyw'n annibynnol yn eu cartref. Mae enghreifftiau'n cynnwys darparu cyfleusterau toiled ac ymolchi priodol ac addasiadau i wella mynediad i'r eiddo a thu mewn iddo, e.e. rampiau, rheiliau, lifftiau grisiau, ac ati. Cynyddodd y nifer o Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a gafodd eu cwblhau i 483 yn 2023/24 o 336 yn 2022/23. Ar gyfartaledd, cymerodd 329 diwrnod calendr i gyflawni'r Grant o gymharu â 369 diwrnod calendr yn 2022/23.

Mae adborth cwsmeriaid, unwaith y bydd Grant Cyfleusterau i'r Anabl ac addasiad tai wedi'u cwblhau, yn cynnwys:

- Mae 95% o unigolion yn cytuno eu bod nhw'n teimlo'n fwy hyderus ac annibynnol
- Mae 97% yn cytuno bod ansawdd eu bywyd wedi gwella ac roedd 97% wedi'u bodloni ar y cyfan.

Rydyn ni'n bwrw ymlaen â'r gwaith o ailgynllunio'r model gweithredu Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA), sy'n rhan o'r Gwasanaethau i Oedolion, i ganolbwyntio o'r newydd ar well gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar. Mae rhai elfennau o'r model newydd eisoes wedi'u datblygu, gan gynnwys mwy o gydweithio â Charfan Datblygu Cymunedau y Cyngor a gwasanaethau cymuned eraill a gwella prosesau atgyfeirio. Mae ffurflen ddigidol newydd wedi'i datblygu gyda'r nod o'i rhoi ar waith ar gyfer ein cydweithwyr yn y Garfan Ymateb ar Unwaith a'r cyhoedd yn ystod Gwanwyn 2024.

Rydyn ni'n parhau i wneud y mwyaf o dechnoleg newydd a sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch ac ar gael i bobl a'u teuluoedd. Mae hyn yn cynnwys cydweithio â Chynghorau Caerdydd a Merthyr Tudful i sefydlu Canolfan Derbyn Larymau digidol a fydd yn rhoi rhagor o gyfleoedd i ehangu'r dechnoleg gynorthwyol rydyn ni'n ei chynnig ar hyn o bryd sy'n diwallu anghenion preswylwyr. Yn anffodus, chafodd y tendr cychwynnol mo'i ddatblygu oherwydd byddai cost y ganolfan newydd yn sylweddol uwch na'r disgwyl. Rydyn ni'n archwilio o ran y camau nesaf, gan gynnwys tendr cydweithredol arall neu ddyfarniad uniongyrchol posibl i'n darparwr presennol. Rhagwelir y bydd Canolfan Derbyn Larymau digidol yn ei le

erbyn diwedd y flwyddyn ariannol a bydd amserlenni yn dibynnu ar ba opsiwn a ddewisir. Hyd nes y bydd y Ganolfan wedi'i sefydlu, fydd dim modd i ni fwrw ymlaen yn sylweddol gyda'n hagenda Technoleg yn Gyntaf yn y Gwasanaethau i Oedolion, ond bydd ein darpariaeth gwasanaeth presennol yn cael ei chynnal hyd nes y bydd y Ganolfan newydd yn ei lle.

Serch hynny, rydyn ni'n parhau i archwilio cyfleoedd ar gyfer dulliau arloesol o ddarparu gofal ac asesu angen. Rydyn ni wedi treialu'r defnydd o synwryddion yn ein gwasanaethau gofal uniongyrchol tymor byr yn ystod 2023/24 i weld a allai ddarparu darlun mwy cywir a chyflymach o anghenion pobl. Roedd y prosiect yn gydweithrediad â Sensei Networks, Centerprise International a Karantis 360 i fonitro cwblhau tasgau byw bob dydd o bell trwy synwryddion a osodwyd yng nghartrefi pobl yn ystod y cyfnod peilot. Bydd gwerthusiad y prosiect yn barod yn ystod 2024/25 a bydd yn llywio ein hymagwedd at dechnoleg i hwyluso gofal ymhellach.

Prosiect Sensei

Astudiaeth Achos



Mae Mrs Y yn byw gyda dementia ac mae wedi bod yn defnyddio ei larwm Lifeline yn rheolaidd. Pan ymwelodd yr Ymatebwyr Symudol, canfuon nhw y gallai fod gan Mrs Y fwy o symudedd nag a feddylwyd yn wreiddiol pan wnaed ei threfniadau gofal. Gosodwyd yr offer Sensei gyda chytundeb yr holl bartion a chyda chefnogaeth gan weithiwr cymdeithasol penodedig Mrs Y. Gosodwyd dau synhwyrdd symud yn yr ystafell wely i benderfynu a oedd Mrs Y mewn gwirionedd yn codi o'i gwely yn annibynnol; gosodwyd cyflymromedr ar bibell y toiled i fonitro llif y dŵr i'r toiled bob tro y byddai'n cael ei fflysio; gosodwyd synhwyrdd tymheredd yn yr ystafell wely i sicrhau bod yr ystafell yn cael ei chadw ar dymheredd diogel a chyfforddus a synhwyrdd drws ar y drws ffyrnt i fonitro bob tro yr agorwyd a chaewyd y drws. Oherwydd y fatres llif aer ni ddefnyddiwyd synhwyrdd mat gwely gan y byddai'n rhoi darlenniadau ffug. Drwy osod y cyfarpar yma, roeddem ni'n gallu asesu symudedd Mrs Y a'i gweithrediad annibynnol yn gywir, gan olygu y gallai ei phegyn gofal gael ei deilwra i'w gwell cefnogi hi i fyw'n annibynnol. Rhoddwyd mesurau diogelwch newydd ar waith hefyd i sicrhau bod Mrs Y yn ddiogel wrth symud allan o'i gwely'n annibynnol, gan leihau ei defnydd o'r larwm Llinell Fywyd.

Yn ystod 2023/24, cwblhawyd 1,278 o osodiadau newydd o offer technoleg i alluogi byw'n annibynnol. O'r rhain, roedd tua 367 o osodiadau ar gyfer pecyn Teleofal pwrpasol yn gysylltiedig â chynllun gofal a chymorth, gyda'r nod o ddiwallu anghenion gofal a chymorth pobl mewn modd arloesol ac sy'n galluogi drwy ddefnyddio technoleg a monitro o bell.

Roedd gweddill y gosodiadau ar gyfer un o'n pecynnau Llinell Fywyd, er mwyn i bobl allu byw'n ddiogel ac yn annibynnol gartref, gan ganiatáu i bobl gysylltu o bell â'n Canolfan Fonitro Llinell Fywyd mewn sefyllfaoedd brys, er enghraifft os ydyn nhw'n cwmpo gartref. Ar ddiwedd mis Mawrth 2024, roedd 3,532 o gysylltiadau Llinell Fywyd byw.

Gan adeiladu ar y Gwasanaeth Llinell Fywyd presennol, rydyn ni wedi parhau i ddarparu'r cynnig o gymorth ychwanegol o wasanaeth ymatebydd symudol o fore gwyn tan nos, bob diwrnod o'r flwyddyn. Yn rhan o'n cynnig gwasanaeth ymatebwyr, byddwn ni'n darparu cymorth gyda'r gobaith o osgoi anfon pobl i'r ysbyty. Yn ystod 2023/24 gwnaeth yr Ymatebwyr 5,910 o ymweliadau, ac roedd 2,267 o'r rhain oherwydd bod pobl yn cwmpo gartref. Roedd yr Ymatebwyr Symudol yn gallu defnyddio eu hoffer codi arbenigol i helpu pobl i godi, gan osgoi bod angen ambiwlans neu dderbyniad i ysbyty ar 2,069 o'r bobl hyn. Llwyddodd yr Ymatebwyr Symudol i gyrraedd o fewn yr amser targed o 1 awr tua 88% o'r amser.

Blaenoriaeth 3 - Cefnogi Cynhalwyr di-dâl

Rydyn ni wedi parhau i gefnogi cynhalwyr di-dâl i gadw'r fantol yn wastad rhwng eu rolau gofalu a chynnal ansawdd eu bywydau. Yn 2023/24, cynhaliwyd 244 o asesiadau cynhalwyr ar gyfer oedolion yn ystod y flwyddyn, o gymharu â 300 yn 2022/23.

Mae niferoedd bellach wedi gostwng oherwydd llai o alw. Mae hyn yn atgyfnerthu ein profiad bod cyflawniad yn y maes yma'n sensitif i fentrau codi ymwybyddiaeth ymhlith y carfanau rheoli gofal yn hytrach na galw gan gynhalwyr.

- Cyflawnodd y Cynllun Cynnal y Cynhalwyr 83 o achlysuron ar gyfer cynhalwyr sy'n oedolion yn ystod 23/24 ac roedd 642 o gynhalwyr yn bresennol. Ar gyfer Cynhalwyr sy'n Oedolion Ifainc, cynhaliwyd 18 o achlysuron ac roedd 155 yn bresennol.
- Bu galw cyson am gwnsela i gynhalwyr- cafwyd 108 o atgyfeiriadau yn ystod y flwyddyn. Ariannwyd capasiti ychwanegol drwy grant tymor byr i leihau'r amser aros ac roedd 4 ar y rhestr aros ar ddiwedd mis Mawrth 2024, o gymharu â 22 ar yr un adeg y flwyddyn flaenorol.
- Ar ddiwedd mis Mawrth 2024 roedd 2,846 o gynhalwyr sy'n oedolion wedi'u cofrestru gyda Chynllun Cynnal y Cynhalwyr ac yn derbyn gwybodaeth yn rheolaidd trwy gylchlythyr y cynhalwyr.

Yn 2023/24, dydyn ni ddim wedi gwneud cymaint o gynnydd ag yr oedden ni wedi bwriadu gwneud o ran adolygu ac ailgynllunio'r Strategaeth Cymorth i Gynhalwyr i sicrhau bod darpariaeth seibiant yn

diwallu anghenion cynhalwyr di-dâl ac anghenion unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau fel bod pobl yn gallu byw yn eu cartrefi teuluol yn hirach. Gan adeiladu ar yr ymgynghoriad a gynhaliwyd gennym ni yn 2021, rydyn ni wedi gweithio gyda chynhalwyr di-dâl i wneud yn siŵr ein bod ni'n deall beth sydd ei angen arnyn nhw.

Serch hynny, mae gwaith wedi parhau yn y maes yma a llwyddon ni i gael arian grant i gefnogi opsiynau seibiant byr i gynhalwyr di-dâl yn ogystal â dyfarnu contract newydd i Gynllun Cysylltu Bywydau Deddwyrain Cymru a gynhelir gan Gyngor Caerffili i ddarparu ein gwasanaeth Cysylltu Bywydau. Mae'r cynllun yma'n bartneriaeth sydd wedi'i hen sefydlu ac sy'n tyfu sy'n cynnwys Caerffili, Blaenau Gwent, Merthyr Tudful, Torfaen, Sir Fynwy a Chasnewydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Bydd yn cynnig mathau mwy hyblyg o seibiant ac yn ehangu mynediad i bob grŵp o ddefnyddwyr gwasanaeth. Bydd pobl sy'n byw yn Rhondda Cynon Taf yn gallu cael mynediad at drefniadau ar draws yr holl ardaloedd awdurdod lleol yn ogystal â'r cynllun sy'n cefnogi Rhondda Cynon Taf i ddatblygu'r gwasanaeth Cysylltu Bywydau. Mae'r hyblygrwydd yma o fudd i bob un o'r partneriaid ac mae'n cysylltu'r cynhaliwr mwyaf addas i'r unigolyn yn ôl anghenion cymorth yr unigolyn a'r deilliannau a ddewiswyd.

Cynllun Cynnal y Cynhalwyr

Astudiaeth Achos



Mae gan Mr a Mrs G deulu mawr sy'n cynnwys plant sy'n oedolion. Mae gan eu plentyn ieuengaf sydd yn ei arddegau anghenion cymhleth gan gynnwys awtistiaeth. Am flynyddoedd doedden nhw ddim yn gwybod am y gwasanaethau cymorth sydd ar gael iddyn nhw. Dirywiodd eu hiechyd meddwl yn sylweddol ac roedden nhw'n teimlo bod ganddyn nhw neb arall i drafod eu problemau gyda nhw.

Cysylltodd Mrs G â'r Cynllun Cynnal y Cynhalwyr yn 2022 pan sylweddolodd fod y ffordd yr oedden nhw'n ymdopi yn anghynaliadwy ac yn afiach i'r ddau ohonyn nhw. Ar ôl siarad â staff y prosiect, a dawelodd meddyliau Mr a Mrs G, daethon nhw i'w hachlysur cyntaf. Roedd hwn yn gam arwyddocaol iddyn nhw; er iddyn nhw fynd i'r achlysur gyda'i gilydd a chael trosolwg o'r hyn i'w ddisgwyl, roedden nhw'n dal i wella ar ôl problemau gorbryder difrifol.

Mae Mr a Mrs G wedi bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau prosiect a gweithdai yn rheolaidd. Maen nhw wedi mwynhau ystod lawn o brofiadau gan gynnwys cefnogaeth emosïynol, cymorth seibiant, gweithgareddau creadigol a gwibdeithiau i'r teulu. Ar un achlysur, aeth Mrs G i sesiwn grŵp ar ei phen ei hun pan oedd Mr G yn sâl, gan ddangos newid enfawr, cadarnhaol yn ei chyflwr meddwl.

Mae Mr a Mrs G yn dweud eu bod nhw'n teimlo'n llawer llai ynysig, bod ganddyn nhw fwy o hyder i ofyn am gymorth a'u bod nhw'n teimlo'n hapusach ac yn fwy hamddenol. Mae hyn wedi eu gwneud nhw'n fwy cydnerth a pharod ar gyfer y dyfodol, gan eu bod nhw'n realistig iawn y bydd heriau pellach ar hyd y ffordd.

Blaenoriaeth 4 - Hyrwyddo Taliadau Uniongyrchol

Rydyn ni wedi parhau i hyrwyddo taliadau uniongyrchol fel ffordd o rymuso pobl i fod yn fwy annibynnol a rheoli eu hanghenion gofal unigol. Mae nifer yr oedolion sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol i ddiwallu eu hanghenion wedi cynyddu i 454 yn 2023/24 o 419 yn 2022/23. Mae mwy na 5,500 o oriau o gymorth yn cael eu darparu gan ddefnyddio'r dull yma bob wythnos.

Yn dilyn ein gwaith gyda Catalyddion Cymunedol yn 2022/23 fe wnaethom ni barhau i gefnogi datblygiad microfentrau cymunedol, gan sicrhau cyllid grant trwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i gyflawni prosiect Microfentrau ar gyfer Gofal. Mae menter fach yn fusnes masnachwr unigol bach sy'n ymreolaethol ac nad yw'n cael ei gyflogi'n uniongyrchol gan y person sy'n derbyn gofal, ond sy'n gallu rheoli perthynas uniongyrchol a hyblyg â'u defnyddwyr gwasanaeth. Ar ddiwedd mis Mawrth 2024 roedd 22 o unigolion yn defnyddio Microfentrau i ddarparu 182 awr o ofal a chymorth yr wythnos drwy Daliad Uniongyrchol. Roedd 16 o microfentrau wedi'u cofrestru ar dudalen we Small Good Stuff RhCT, gyda rhai yn darparu gofal wedi'i drefnu'n breifat yn unig.

communitycatalysts®
unlocking potential effecting change

Microfenter

Astudiaeth Achos



Mae Natalie yn byw yn Nhreorci ac mae hi wedi sefydlu menter ficro i gefnogi pobl hŷn a phobl anabl drwy'r prosiect Catalyddion Cymunedol. Mae Natalie, sy'n gwasanaethu ardaloedd Cwm Rhondda, Cwm Cynon a Thaf-elái, yn helpu ei chleientiaid mewn amrywiaeth o ffyrdd gyda siopa, gofal personol, gwaith trwsio o gwmpas y tŷ ac weithiau mynd â chŵn am dro. Mae ei horiau yn hyblyg ac yn cyd-fynd â'i bywyd teuluol ei hun, gan ei helpu i gael cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith yn ogystal â darparu gwasanaeth y mae mawr ei angen yn ei chymuned. Dysgwch ragor am brofiadau Natalie yn y **fideo** yma.



Blaenoriaeth 5 - Comisiynu Gofal yn y Cartref

Rydyn ni wedi parhau i weithio gyda darparwyr gofal yn y cartref i sicrhau bod pobl yn cael gofal yn y cartref o ansawdd da yn seiliedig ar y deilliannau y maen nhw am eu cyflawni a bod digon o ddarpariaeth ar gael ar y lefel gywir i ateb y galw.

Ar hyn o bryd, mae gwasanaeth 'Cymorth yn y Cartref' y Cyngor yn darparu 100% o ofal ail-alluogi a chanolraddol yn yr ardal, ond mae tua 90% o ofal hir dymor yn y cartref yr ardal eisoes wedi'i gomisiynu i ddarparwyr allanol. Ym mis Tachwedd 2023, **cymradwydd y Cabinet ailgynllunio ein model gwasanaeth gofal yn y cartref** fel y byddwn, o fis Hydref 2024, yn comisiynu'r holl ofal yn y cartref hirdymor gan ddarparwyr gofal allanol, yn rhan o broses aildendro gofynnol. Roedd y penderfyniad yma'n rhan o gynigion ar gyfer comisiynu model diwygiedig ar gyfer gofal yn y cartref hirdymor, a fydd yn seiliedig ar barthau daearyddol newydd ac yn canolbwyntio ar ddeilliannau, yn lle amseroedd galwadau a thasgau.

Yn ogystal, bydd y pecyn gofal a aseswyd ar gyfer pob defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei gynnal a bydd staff cymwys a gyflogir gan Wasanaeth Cymorth yn y Cartref y Cyngor i ddarparu gofal cartref hirdymor ar hyn o bryd yn trosglwyddo i'r darparwr gwasanaeth newydd o dan ddeddfwriaeth TUPE yn rhan o gontract newydd o fis Hydref 2024. Bydd hyn yn sicrhau bod staff yn dal i fod ar gael i gefnogi defnyddwyr y gwasanaeth ac yn rhoi sicrwydd swyddi i weithwyr trwy ddiogelu telerau ac amodau eu contractau presennol. Byddan nhw hefyd yn parhau i fod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Mae'r Cyngor wedi parhau i gael cymorth gwych gan ein darparwyr gofal cartref a gomisiynwyd sy'n darparu, ar gyfartaledd, tua 15,000 o oriau o ofal a chymorth bob wythnos i dros 1,200 o bobl yn eu cartrefi. Gyda'n gilydd, fe ostyngon ni nifer y bobl oedd yn aros am becyn gofal yn y cartref o 40 ym mis Mawrth 2023 i ychydig dros 20 ym mis Mawrth 2024.

Cefnogi pobl hŷn i fyw yn eu cartrefi eu hunain

Astudiaeth Achos



Mae Mr Y yn ddyn 80 oed a oedd yn hunan-ariannu lleoliad yng nghartref gofal Llantrisant yn dilyn strôc a achosodd wendid ar ei ochr chwith. Roedd angen teclyn codi llawn arno ar gyfer pob trosglwyddiad ac roedd yn cael ei nyrsio yn y gwely, roedd yn dibynnu ar gynhalwyr i ddiwallu ei holl anghenion. Roedd yn cyflogi ffisiotherapydd preifat tra yn y cartref i wella ei symudedd.

Neilltuwyd rheolwr gofal, a chynhaliwyd asesiad a benderfynodd beth oedd bwysicaf i Mr Y oedd gallu gadael y cartref gofal a derbyn gofal yn ei gartref ei hun. Mynegwyd pryderon gan y cartref gofal ynghylch ei alluedd meddyliol i wneud y penderfyniad i ddychwelyd adref. Cynhaliodd y rheolwr gofal asesiad galluedd meddyliol ynghylch y penderfyniad a sut y byddai ei anghenion gofal yn cael eu diwallu orau. Daeth i'r casgliad bod ganddo alluedd meddyliol i wneud y penderfyniadau yma.

Sicrhodd gweithio ar y cyd â Therapyddion Galwedigaethol Cymunedol, Nyrsys Ardal, staff cartref gofal a theulu Mr Y fod yr holl lwybrau cymorth angenrheidiol yn cael eu rhoi ar waith yn barod i Mr Y ddychwelyd adref, gan gynnwys yr offer priodol a phecyn gofal. Dychwelodd Mr Y adref ar 2 Chwefror 2024, roedd yn gallu gwireddu ei deiliant personol o fyw yn ei gartref ei hun unwaith eto a dyna oedd bwysicaf iddo.

Blaenoriaeth 6 - Trawsnewid Gwasanaethau Oriau Dydd ar gyfer pobl hŷn

Rydyn ni'n parhau i drawsnewid gwasanaethau oriau dydd i bobl hŷn. Ym mis Rhagfyr 2023, yn dilyn cyfnod o ymgynghori a thrafodaethau **cyn y cam Craffu, cymeradwyodd** y Cabinet gynigion i greu gwasanaeth mwy effeithlon ac effeithiol, gan roi mynediad i bobl hŷn at gyfleusterau modern, a sicrhau gwell defnydd o adnoddau'r Cyngor.

Mae'r gwasanaeth a ddarparwyd yn flaenorol yng Nghanolfan Oriau Dydd Tonyrefail bellach wedi symud i Ganolfan Oriau Dydd newydd yng Nghartref Gofal Ychwanegol Cwrt yr Orsaf ym Mhontypridd gan ddefnyddio dull graddol. Cafodd hyn ei gwblhau erbyn dechrau mis Ebrill 2024, ac nid yw wedi lleihau'r gofal a ddarperir i bobl ag anghenion a aseswyd ond mae'n parhau i hybu llesiant ac annibyniaeth. Mae staff hefyd wedi cael eu hadleoli

i sicrhau parhad gofal. Mae'r symudiad wedi bod yn hynod lwyddiannus. Mae unigolion a staff yn dal i ymgartrefu yn yr amgylchedd newydd, ond mae adborth cychwynnol wedi bod yn gadarnhaol iawn. Mae cynlluniau ar y gweill i gyfuno Canolfan Oriau Dydd Trecynon a Chanolfan Oriau Dydd Cwmni Dda. Bydd gwaith adnewyddu yn cael ei gwblhau fel bod y ddarpariaeth i gyd yn cael ei darparu o Ganolfan Ddydd Cwmni Dda yn y dyfodol.

Gwasanaethau Oriau Dydd i Bobl Hŷn - Cyrraedd Nodau Personol

Astudiaeth Achos



Cafodd Mrs Hannam ei hatgyfeirio at wasanaethau oriau dydd gan ei gweithiwr cymdeithasol drwy'r mewnflwch Gofal yn y Gymuned. O'r sgysiau cychwynnol, yn dilyn yr atgyfeiriad, cawsom ddeall nad oedd Mrs Hannam wedi gadael y tŷ ers peth amser oherwydd ei hanabledd a'i bod hi'n nerfus iawn ynghylch mynychu canolfan oriau ddydd. Roedd peidio â gadael y tŷ yn cael effaith negyddol ar ei llesiant ac yn rhoi straen ar ei merch oherwydd ei rôl fel cynhaliwr.

Fe wnaethom ni ymweld â Mrs. Hannam a'i theulu a chyflwyno ein hunain a sgwrsio'n anffurfiol am y broses o gynnal asesiad o'i chartref. Casglwyd gwybodaeth berthnasol gan Mrs Hannam a'r teulu i lenwi unrhyw fylchau er mwyn cymryd agwedd gyfannol. Gyda'n gilydd fe nodon ni mai nod personol Mrs. Hannam oedd gallu gadael y tŷ a chymdeithasu â chyfoedion o'r un anian â diddordebau tebyg iddi hi ac roedd hi'n gobethio gwneud ffrindiau newydd.

Buom ni'n gweithio ar y cyd â gweithiwr cymdeithasol Mrs. Hannam, ei theulu a therapyddion galwedigaethol i drefnu gosod rampiau cludadwy yn yr eiddo i ddileu rhwystrau ffisegol iddi fynychu'r ganolfan oriau ddydd. Unwaith y gwnaed hyn, fe drefnon ni ddyddiad dechrau, penodi gweithiwr allweddol, drafftio cynllun gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn, trefnu asesiad risg a rhoi systemau gwaith diogel ar waith i sicrhau bod modd i ni ddiwallu anghenion yr unigolyn. Yna fe gysyllton ni â'r gweithiwr cymdeithasol i newid yr amseroedd cymorth yn y cartref i hwyluso gwasanaethau oriau dydd a rhoi'r dyddiad dechrau y cytunwyd arno iddi.

Yn dilyn diwrnod cyntaf Mrs. Hannam yn y ganolfan oriau dydd, ffoniodd merch Mrs Hannam y ganolfan i roi gwybod i ni am y newid a wnaeth un diwrnod yn y ganolfan i'w mam. Dywedodd fod ei mam yn berson gwahanol yn dod adref ac na allai roi'r gorau i siarad am ei diwrnod.

Yn ei hadolygiad pedair wythnos, dywedodd Mrs. Hannam wrth ei gweithiwr allweddol ei bod hi wedi cyflawni ei nod personol o adael y tŷ, cyfarfod â phobl a gwneud ffrindiau. Yna gosododd Mrs Hannam nod personol newydd o ymolchi yn y ganolfan oriau dydd. Fe wnaethom ni gysylltu â'i gweithiwr cymdeithasol er mwyn ychwanegu hyn at ei chynllun gofal, cysylltu â'i merch i gyflenwi nwyddau ymolchi ac ychwanegu ymolchi at ei hasesiad risg.

Rydyn ni bellach wedi cynnal adolygiad chwe mis gyda Mrs. Hannam ac mae hi wedi gosod nod personol newydd o fynychu'r ganolfan dau ddiwrnod yr wythnos. Buom ni'n gweithio ar y cyd â'r garfan ar ddyletswydd a chafodd hyn ei basio gan y panel. Mae Mrs Hannam bellach wedi dechrau ar ei hail ddiwrnod yn y ganolfan a dywedodd ei merch wrthym ni na all y teulu gredu'r cyfleoedd mae'r gwasanaethau oriau dydd wedi'u darparu i'w mam.

Dywedodd merch Mrs. Hannam wrthon ni fod ei mam yn berson gwahanol ers mynychu'r ganolfan oriau ddydd. Mae Gwasanaethau Oriau Dydd wedi gwella llesiant ei mam, gan roi seibiant iddi o'i rôl fel prif gynhaliwr ac mae'n edrych ymlaen yn fawr at y dyddiau y mae ei mam yn mynychu'r ganolfan. Dywedodd wrthon ni fod ei mam ar bigau'r drain i ddweud wrthon nhw am ei diwrnod yn y ganolfan yn enwedig os ydy hi wedi ennill ar y Bingo ac mae'n cyfrif y dyddiau nes iddi fynychu nesaf. Dywedodd y ferch wrthon ni yr oedd hi'n poeni am symud i Gwrt yr Orsaf gan nad oedd hi'n gwybod sut y byddai ei mam yn ymateb ond dywedodd fod ei mam wedi ei dderbyn yn ddiglyffro.

Blaenoriaeth 7 - Trawsnewid Gwasanaethau Oriau Dydd i bobl ag anabledd dysgu

Rydyn ni hefyd yn parhau i drawsnewid gwasanaethau oriau dydd yn rhan o'n **Prosiect Trawsnewid Anabledd Dysgu**, pum mlynedd fel bod pobl ag anabledd dysgu yn cael mynediad at weithgareddau a chyfleoedd ystyrllon yn eu cymunedau eu hunain, gan gynnwys cyflogaeth i gyflawni eu nodau personol a byw bywydau cyffredin.

Cyflwynwyd y strategaeth gwasanaethau oriau dydd drafft i'r **Cabinet ym mis Mai 2023** a chytunwyd i gynnal ymgynghoriad wedi'i dargedu gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau oriau dydd, eu teuluoedd a'u cynhalwyr, staff a rhanddeiliaid cysylltiedig eraill. Aeth yr ymgynghoriad yn ei flaen drwy gydol yr haf, a buom yn cefnogi defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd a'u cynhalwyr i ddeall ac ymgysylltu â'r broses ymgynghori drwy gynnig ymgynghoriadau wyneb yn wyneb, yn ôl y gofyn, a chreu pecyn gwybodaeth iddyn nhw i sicrhau bod yr wybodaeth berthnasol yn cael ei chyflwyno mewn fformat hygyrch a chlir.

Ar ôl ystyried canlyniad yr ymgynghoriad, a gafodd ei lywio gan yr hyn a ddywedodd pobl wrthon ni drwy'r ymarfer ymgysylltu "Fy Niwrnod, Fy Ffordd" **Cytunodd y Cabinet** i weithredu'r Strategaeth Gwasanaethau Oriau Dydd arfaethedig a luniwyd ar

y cyd a gweithredu model ar gyfer pobl ag anableddau dysgu ym mis Tachwedd 2023. Bydd ailfodelu darpariaeth gwasanaeth oriau dydd y Cyngor ar ffurf strwythur Dwyrain a Gorllewin newydd, gan gynnwys grwpiau cymunedol llai i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn ffordd sy'n cyflawni'r deilliannau unigol gorau posibl i bobl, yn seiliedig ar angen a galw, wrth wneud y defnydd gorau o adnoddau'r Cyngor. Mae rhagor o weithdai cydgynhyrchu wedi'u cynnal mewn perthynas â'r prosiectau sy'n cael eu rhedeg yn y gymuned ar hyn o bryd gan Rionda Cynon Taf. Daeth nifer dda o'r rhanddeiliaid i'r rhain a bydd canlyniad hyn yn cael ei gyflwyno gydag opsiynau a awgrymir i barhau i ail-ddylunio ac ailfodelu ein harlwy gofod oriau dydd yn unol â'n model gweithredu.

Trefniadau Aildendro ar gyfer Gwasanaeth Byw â Chymorth i Bobl ag Anabledd Dysgu

Rydyn ni hefyd wedi llwyddo i ail-dendro'r contractau Byw â Chymorth ar gyfer pobl ag Anabledd Dysgu gyda chyfranogiad pobl ag anabledd dysgu. Mae Gwasanaethau Byw â Chymorth yn darparu llety â chymorth 24/7 i oedolion sydd ag anableddau dysgu, ac yn rhoi cymorth i nifer fach o bobl sy'n byw mewn tai a rennir ledled Rhondda Cynon Taf. Mae gan ddefnyddwyr y gwasanaeth eu tenantiaeth eu hunain, gan eu galluogi nhw i barhau i fyw yn eu cymunedau lleol.

Drwy gydol 2023, buom ni'n gweithio ar ail-dendro ein contractau Byw â Chymorth presennol a oedd i fod i ddod i ben ddiwedd mis Mawrth 2024. O lwyddiant 'Fy Niwrnod, Fy Ffordd', gwnaethom ni gydnabod pwysigrwydd a gwerth cydgynhyrchu gyda phobl â phrofiad o fyw i lunio ein gwasanaethau ac mae hyn wedi bod yn allweddol i'r ymarfer ail-dendro. Mae'r rhaglen Fy Nghartref i, Fy Ffordd i wedi'i gydgynhyrchu â defnyddwyr gwasanaeth o'r fanyleb gwasanaeth, hyd at werthuso'r cynigion. Bu'n fuddiol cynnwys defnyddwyr yn y broses o ddrafftio Manylebau Gwasanaeth gan fod eu gwybodaeth wedi bod yn ddefnyddiol ar gyfer diffinio'u hanghenion. Mae'r cwestiynau tendro a osodwyd gan y grŵp wedi'u seilio ar eu gwybodaeth unigol a'u profiad personol o'r Gwasanaethau Byw â Chymorth.

Cydgynhyrchu a'r Rhaglen Aildendro Byw â Chymorth – Fy Nghartref i, Fy Ffordd i

Drwy gydol 2023, cynhaliwyd gweithdai i bobl ag anabledd dysgu i weithio ar y cyd ar ddau gwestiwn yn rhan o'r broses ail-dendro ar gyfer y Gwasanaeth Byw â Chymorth a hwyluswyd gan ein Swyddog Cydgynhyrchu a'r sefydliad Pobl yn Gyntaf. Rhoddwyd cyfle i unigolion gymryd rhan ym mhob cam o'r datblygiad gan gynnwys:


- Datblygu dau gwestiwn aildendro ac astudiaeth achos a fyddai'n cael eu defnyddio yn rhan o'r cwestiynau aildendro.
- Datblygu rhestr wirio o ofynion a fyddai'n cael eu defnyddio i sgorio ymatebion y darparwr, mewn fformat hawdd ei ddarllen, i'r cwestiynau yma ac ymateb fideo i'r astudiaeth achos.
- Ffurio panel i werthuso ymatebion ysgrifenedig y Darparwr, mewn fformat hawdd ei ddarllen i'r ddau gwestiwn ac ymateb fideo i'r astudiaeth achos.


Mae cynnwys defnyddwyr sydd â phrofiad o fyw wrth ail-dendro Gwasanaethau Byw â Chymorth wedi bod yn hanfodol i ail-dendro ein Gwasanaethau Byw â Chymorth ar gyfer Rhondda Cynon Taf. Mae wedi'i wneud yn ofalus iawn ac mae'r grŵp wedi'i gefnogi gan Swyddog Cydgynhyrchu Gwasanaethau i Oedolion a sefydliad Pobl yn Gyntaf Cwm Taf.

Mae'r swyddog caffael arweiniol hefyd wedi darparu cyfarfodydd i'r grŵp ddeall eu rolau, rôl grŵp prosiect Fy Nghartref i, Fy Ffordd i, a natur y broses gwerthuso ail-dendro.

Yn rhan o'r broses o ail-dendro gwasanaethau Byw â Chymorth, cytunodd y Cabinet i **drosglwyddo'r naw Gwasanaeth Byw â Chymorth sy'n weddill gan y Cyngor i ddarparwyr allanol newydd** o fis Ebrill 2024.

Mae hyn yn golygu y bydd y gwasanaeth mewnol bach a arferai ddarparu gofal i tua 10% o gyfanswm y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth Byw â Chymorth yn Rhondda Cynon Taf bellach yn cael ei ddarparu gan y darparwyr allanol newydd. Byddai'r newidiadau'n sicrhau gwerth gorau a chynaliadwyedd y gwasanaeth dros y tymor hir, a hynny heb leihau'r gwasanaeth i helpu'r bobl sy'n dibynnu arno. Cwblhawyd y broses o drosglwyddo'r gwasanaethau byw â chymorth sy'n weddill gan y Cyngor, ychwanegodd rheolaeth lwyddiannus y broses hon at ei llwyddiant gyda phobl yn gweld dim newidiadau i'w gofal a chymorth. Dyfarnwyd y contract ar 1 Ebrill 2024. Y contract yma sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau ar y cyd yw'r cyntaf o'i fath. Rydyn ni wedi symud i ffwrdd o'r dull traddodiadol o ddarparu gwasanaethau i broses fandiio sy'n caniatáu hyblygrwydd a chymorth i'r bobl sy'n byw mewn cartrefi â chymorth ac sy'n galluogi i'r darparwyr addasu i fodloni deilliannau unigolion. Ar hyn o bryd rydyn ni'n gweithio drwy adolygu pob gwasanaeth a byddwn ni'n cwblhau hyn yn y flwyddyn gyntaf.





Blaenoriaeth 8 - Cefnogi rhyddhau o'r ysbyty.

Rydyn ni wedi blaenoriaethu adnoddau yn y rhyngwyneb ysbyty. Mae hyn yn cynnwys ymateb i bob un o'r 5 ysbyty yn ardal Cwm Taf Morgannwg i sicrhau bod y trefniadau pan fydd y person yn gadael yr ysbyty yn ddiogel, yn briodol ac yn sicr.

Lle y gallwn, rydyn ni'n cefnogi rhyddhau cleifion yn uniongyrchol o'r wardiau i'n gwasanaethau er mwyn osgoi oedi wrth asesu. Fydd claf ddim yn cael ei ddyrannu i weithiwr cymdeithasol oni bai bod angen asesiad oherwydd bydd y broses o'i drosglwyddo i'w gartref yn fwy cymhleth. Mae ein hasesiadau yn rhan o broses asesu amlddisgyblaethol, ac rydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth â'n cydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd i

fynd i'r afael ag amserlenni asesu. Mae nifer yr asesiadau a gwblheir bob mis gan ein carfan asesu yn gostwng wrth i ni weithio tuag at y gofynion Rhyddhau i Adfer ac Asesu. Er gwaethaf maint y gweithgarwch asesu, mae nifer y bobl sy'n wynebu oedi oherwydd eu bod nhw'n cael asesiad gofal cymdeithasol yn gymharol isel yn Rhondda Cynon Taf.



Carfan Gwaith Cymdeithasol Rhyddhau o'r Ysbyty

Astudiaeth Achos



Mae Rhondda Cynon Taf yn derbyn grant gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i ariannu'r Garfan Gwaith Cymdeithasol Rhyddhau o'r Ysbyty yn rhannol. Mae gweithio o'r ysbytai yn golygu ei bod hi'n haws i'r gweithwyr cymdeithasol feithrin perthynas waith effeithiol gyda staff, cleifion a'u teuluoedd.

Cafodd Mrs W (88 oed) ei derbyn i'r ysbyty ar ôl cwmpo gartref. Cyn iddi gael ei derbyn i'r ysbyty, roedd hi'n byw gyda'i mab a'i hŵyr ac roedd hi'n cael pecyn gofal ddwywaith y dydd i gefnogi ei threfn foreol a min nos. Mae gan Mrs W ddiagnosis o ddementia ac mae ganddi ddealltwriaeth gyfyngedig o'i hanghenion gofal a chymorth a'i chyfyngiadau. Cafodd ei hasesu fel rhywun sydd mewn perygl o gwmpo ac mae hi wedi cwmpo sawl gwaith gartref ac ar y ward. Yn anffodus, oherwydd ei phroblemau gyda gwybyddiaeth, dyw hi ddim yn gallu cofio cyngor diogelwch. Ers iddi gael ei derbyn i'r ysbyty, mae ei gwybyddiaeth a'i hiechyd cyffredinol wedi dirywio felly mae ei hanghenion gofal a chymorth wedi cynyddu. Doedd y ward bellach ddim yn teimlo y gallai pecyn gofal ddiwallu ei hanghenion gartref hyd yn oed gyda chynnydd yn y cymorth yma, felly roedd angen neilltuo Gweithiwr Cymdeithasol i drefnu cynllunio ar gyfer ei rhyddhau o'r ysbyty.

Rôl y gweithiwr cymdeithasol oedd cefnogi rhyddhau Mrs W o'r ysbyty a sicrhau bod y broses rhyddhau fwyaf diogel ac amserol yn cael ei chydgyssylltu, a bod y trefniadau'n gymesur â'i hanghenion gofal a chymorth. Yn ystod ei harhosiad yn yr ysbyty, derbyniodd ffisiotherapi a therapi galwedigaethol i geisio adfer ei symudedd. Serch hynny, oherwydd ei dementia, nid oedd Mrs W yn gallu cofio cyfarwyddiadau ac roedd hi wedi dod yn amrywiol iawn gyda'i symudedd ar y ward. Nid oedd Mrs W yn hoffi eistedd allan yn y gadair am gyfnodau hir a byddai'n aml yn ceisio mynd yn ôl i'r gwely ei hun.

Cwblhaodd y gweithiwr cymdeithasol asesiad galluedd, a barnodd fod yn rhaid ystyried diffyg galluedd meddyliol Mrs W wrth drefnu ar gyfer ei rhyddhau o'r ysbyty ac wrth benderfynu ar ei chyrchfan ar ôl gadael yr ysbyty. Trefnwyd cyfarfod buddiant pennaf i sefydlu i ble y byddai Mrs W yn cael ei rhyddhau. Trefnodd y gweithiwr cymdeithasol i eiriolwr ymweld â Mrs W i sicrhau bod ei dymuniadau a'i theimladau'n cael eu cynrychioli, gan nad oedd Mrs W am fod yn bresennol. Ymwelodd yr eiriolwr â Mrs W ar sawl achlysur i gael ei barn a'i dymuniadau. Cynhaliwyd cyfarfod i drafod buddiant Mrs W, a oedd yn cynnwys y gweithiwr cymdeithasol, teulu Mrs W, y nyrs staff oedd yn gofalu amdani a'r Therapydd Galwedigaethol a'r Ffisiotherapydd. Nid oedd yr eiriolwr yn gallu bod yn bresennol, ond anfonodd e-bost yn egluro dymuniadau Mrs W er mwyn i'r gweithiwr cymdeithasol allu darllen y rhain allan yn y cyfarfod, a sicrhau bod ei dymuniadau'n cael eu clywed a'u hystyried.

Daeth canlyniad y cyfarfod buddiant pennaf i'r casgliad y byddai Mrs W yn cael ei rhyddhau i leoliad. Roedd pawb a gymerodd ran yn y cyfarfod yn cytuno â hyn ac yn teimlo y byddai Mrs W mewn perygl mawr o gael ei haillderbyn i'r ysbyty oherwydd hunan-esgeulustod anfwriadol, dirywiad yn ei hiechyd a'r risg o anaf o gwmpo pe bai'n mynd adref. Sicrhodd y gweithiwr cymdeithasol fod safbwyntiau a phryderon teuluoedd yn cael eu trafod yn fanwl ac yn cael eu hystyried trwy gydol y cyfarfod. Ystyriais yr holl lwybrau cymorth yr oedd teulu Mrs W wedi ceisio er mwyn ei chadw'n ddiogel cyn iddi gael ei derbyn i'r ysbyty. Serch hynny, roedd ei gwybyddiaeth a'i symudedd wedi gwaethygu'n sylweddol ers iddi gael ei derbyn i'r ysbyty ac ni allai'r teulu bellach roi'r lefel o gymorth roedd ei angen iddi i'w chadw'n ddiogel rhwng ymweliadau gan weithwyr gofal a thros nos. Teimlwyd hefyd y byddai lleoliad yn cael effaith gadarnhaol ar ei hiechyd meddwl a'i llesiant gan fod Mrs W wedi dweud nad oedd hi eisiau bod ar ei phen ei hun mwyach a'i bod hi'n hoffi bod o gwmpas pobl.

Mae'n bwysig cydnabod yn y sefyllfa yma fod barn Mrs W yn glir iawn ei bod hi am ddychwelyd adref a bod yn rhaid i hyn fod wrth galon unrhyw drafodaeth bob amser. Serch hynny, roedd y risgiau pe bai Mrs W yn dychwelyd adref yn uchel o'u cymharu â risgiau eu symud i leoliad ac roedd tystiolaeth o hyn eisoes felly fyddai dychwelyd adref ddim o fudd iddi hi.

Cafwyd trafodaeth ar y cyd gyda Mrs W, ei theulu a minnau ynglŷn â chanlyniad y cyfarfod, sef y dylai gael ei symud i leoliad. Cymerodd y gweithiwr cymdeithasol amser i gael trafodaeth fanwl gyda Mrs W ynghylch yr hyn roedd y penderfyniad yma'n ei olygu iddi hi ac y byddai ganddi bob amser bobl o'i chwmpas ac na fyddai ar ei phen ei hun. Cytunodd Mrs W â'r penderfyniad. Dychwelodd yr Eiriolwr i ymweld â Mrs W i sicrhau bod y broses yn cael ei dilyn yn gywir a bod Mrs W yn dal i gael ei chadw wrth wraidd y penderfyniad yma.

Mae Mrs W bellach yn ymgartrefu'n dda yn ei chartref newydd. Trwy weithio ar y cyd roedd y gweithiwr cymdeithasol yn gallu cyrraedd pwynt lle roedd pawb yn cytuno mai lleoliad cartref gofal oedd yr opsiwn gorau, gan gynnwys Mrs W ei hun. Pe bai Mrs W wedi parhau i wrthwynebu, byddai wedi bod angen cais i'r Llys Gwarchod, a allai fod wedi golygu bod rhaid i Mrs W aros yn yr ysbyty am gyfnod hir.

Er ein bod ni'n blaenoriaethu adnoddau ar gyfer rhyddhau o'r ysbyty, mae ein gweithgarwch yn y gymuned yn llawer ehangach. Rydyn ni hefyd yn credu ei bod hi'n hanfodol ceisio osgoi derbyniadau i ysbytai yn y lle cyntaf. Mae gennym ni nifer o ymatebion gwasanaeth brys sy'n cael eu defnyddio'n ddyddiol i ddiogelu pobl gartref gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol, gwasanaeth ailalluogi, gofal yn y cartref a gofal preswyl brys. Mae integreiddio'r ymatebion yma â gwasanaethau cymunedol y GIG, gwasanaethau iechyd meddwl i bobl hŷn a gofal sylfaenol yn flaenoriaeth ar y cyd yn Rhanbarth Cwm Taf Morgannwg. Byddai dull carfan amlddisgyblaethol o gydgyssylltu triniaeth ochr yn ochr â'n gofal a'n cymorth cymdeithasol yn fwy

effeithiol o ran atal trosglwyddiad i ysbyty. I'r perwyl yma, mae gwaith i sefydlu carfan gymunedol integredig yn mynd rhagddo a phenodwyd Cyfarwyddwr Rhanbarthol ym mis Tachwedd 2023 i ddarparu'r arweinyddiaeth a'r capasiti sydd eu hangen i yrru'r gwaith yma yn ei flaen yn 2024/25.

Mae'r Gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref wedi'i leoli yn yr adrannau Damweiniau ac Achosion Brys yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Ysbyty'r Tywysog Siarl. Ei nod yw osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty drwy ddarparu gwasanaethau ac offer gofal cymdeithasol ataliol. Yn ystod 2023/24 derbyniodd y Gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref 2,401 o atgyfeiriadau, cwblhawyd 947 o asesiadau a sgriniwyd ac atgyfeiriwyd 1,454 o bobl.

Gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref


Astudiaeth Achos



Mae'r Gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref yn garfan o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn yr ysbyty sy'n ceisio osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty o'r adran damweiniau ac achosion brys trwy gael mynediad at wasanaeth gofal yn y cartref cyflym a darparu offer i alluogi pobl i aros gartref. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu 365 diwrnod y flwyddyn ac mae'n gallu cael mynediad at gymorth gofal yn y cartref o fewn 4 awr trwy Wasanaeth Cadw'n Iach Gartref y Cyngor.

Daeth Mr X i'r adran Damweiniau ac Achosion Brys yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg oherwydd codwm yn ei gartref. Doedd dim sganiau a phelydr-x yn dangos unrhyw achosion meddygol o bryder, felly cynhaliodd y garfan Cadw'n Iach Gartref asesiad o anghenion Mr X gan fod ei symudedd wedi lleihau oherwydd iddo gwmpo. Roedd Gwasanaethau Gofal Canolraddol Cymorth yn y Cartref yn ymweld ddwywaith y dydd i gynorthwyo gyda thasgau bob dydd fel ymolchi, gwisgo a pharatoi prydau bwyd. Cynhaliwyd asesiad risg cyn gynted ag y dychwelodd Mr X adref o'r ysbyty a nodwyd offer i'w archebu i leihau'r risg o gwympiadau pellach a'i alluogi i ddod yn annibynnol unwaith eto.

Ar ôl ychydig o wythnosau roedd Mr X wedi gwella digon i leihau'r galwadau gofal i ddim ond tri galwad bore'r wythnos. O fewn ychydig wythnosau eraill nid oedd angen defnyddio'r gwasanaethau gofal. Roedd y cymorth gan y staff Gofal Canolraddol a'r offer wedi sicrhau bod Mr X yn gallu adennill ei lefelau annibyniaeth blaenorol a hyd yn oed wedi gwella ei symudedd.



Blaenoriaeth 9 - Cefnogi buddiannau pobl sy'n byw gydag anghenion iechyd meddwl, gan gynnwys dementia

Mae ein gwaith i adolygu ac ailgynllunio Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol gyda'r Adran Iechyd yn parhau. Yn rhan o'r gwaith yma byddwn ni'n cynnal adolygiad o'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol presennol ac yn datblygu opsiynau i ailgynllunio ein gwasanaeth ar y cyd i ddiwallu pwysau galw hirdymor presennol ac yn y dyfodol.

Mae rhaglen waith ac amserlenni newydd wedi'u cytuno gyda'r Adran Iechyd ar gyfer 2024/25. Rydyn ni'n parhau i weithio gyda'n partneriaid rhanbarthol i wneud gwelliannau i wasanaethau dementia ac mae cyfleoedd sylweddol ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori wedi bod yn nodweddiadol yn y maes yma. Mae llawer o'r gwaith rhanbarthol yn cael ei yrru gan **Safonau Dementia Llywodraeth Cymru** ond datblygiad allweddol yw dyluniad lleol y **Cysylltydd Dementia** sy'n rôl newydd y bwriedir iddi

gynorthwyo gyda'r llywio'r system iechyd a gofal cymdeithasol. Hysbyswyd y rôl drwy ymgysylltu â phobl sy'n byw gyda dementia a'u cynnwys yn y drafodaeth am eu gofal. Yn dilyn proses gaffael, mae'r contract ar gyfer cyflawni ar draws Cwm Taf Morgannwg wedi'i ddyfarnu i Age Connects Morgannwg sy'n recriwtio ac yn sefydlu'r gwasanaeth ar hyn o bryd gyda'r bwriad o ddechrau cynnig y gwasanaeth yn y flwyddyn ariannol newydd.

Cysylltydd Dementia

O fewn ardal Cwm Taf Morgannwg, yn rhan o gyflawni safonau Llwybr Gofal Dementia Cymru Gyfan, rydyn ni wedi comisiynu Age Connects Morgannwg (ACM) i ddarparu gwasanaeth materion dementia a darparu Canllawiau Cof a Llesiant ledled y rhanbarth. Mae'r arweinydd cof a llesiant yn berson ymroddedig i gefnogi pobl sy'n dilyn eu diagnosis waeth beth fo'u hoedran i'w cynorthwyo i lywio'r system iechyd a gofal cymdeithasol a all fod yn rhy aml yn gymhleth i bobl sy'n byw gyda dementia a'u cynhalwyr.

Arweiniodd Rhondda Cynon Taf ymarfer cydgynhyrchu, ymgysylltu ac ymgynghori i greu disgrifiad swydd a manyleb y person ar gyfer y rôl. O ganlyniad, rydyn ni'n hyderus bod yr arweinydd cof a llesiant yng Nghwm Taf Morgannwg yn diwallu anghenion pobl yn ein rhanbarth fel y'u disgrifir ganddyn nhw. Byddwn ni'n parhau i weithio gyda phobl sydd â phrofiad byw a rhanddeiliaid eraill ar recriwtio a gwerthuso'r cynllun peilot yma a fydd yn caniatáu i'r gwasanaeth dyfu'n organig i ddiwallu anghenion dinasyddion ein rhanbarth yn y ffordd orau.

Mae ACM eisoes wedi recriwtio arweinydd y rhaglen sydd wedi bod yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ledled y rhanbarth ac mae wrthi'n recriwtio arweinwyr pellach i gefnogi'r gwaith wrth symud ymlaen. Unwaith bydd y bobl yma yn eu swyddi, byddwn ni'n gallu derbyn atgyfeiriadau gan Wasanaethau Cof a dechrau cefnogi pobl ar yr adeg yma yn eu bywydau.

Rydyn ni'n parhau i godi ymwybyddiaeth a datblygu'r cynnig cymorth i drigolion yn ein cymunedau gan gynnwys drwy'r **prosiect Cymunedau Oed-gyfeillgar**. Yn 2023/24, llwyddom ni i sicrhau cyllid ar gyfer cynllun peilot Rhaglen Atal Dementia Cymunedol. Nod y Prosiect oedd cynyddu ymwybyddiaeth o ddementia mewn cymunedau lleol, ac hefyd atal dementia rhag dechrau dros y tymor hir. Nod y cyllid hefyd oedd cynyddu capasiti lleol ar gyfer y fenter Cyfeillion Dementia trwy recriwtio Llysgenhadon Cyfeillion Dementia ychwanegol. Cynhaliwyd sesiynau gwybodaeth Cyfeillion Dementia Sox ar gyfer sefydliadau a grwpiau a ariennir yn ystod y cyfnod Medi 2023 i Fawrth 2024, gan greu cyfanswm o 110 o Gyfeillion Dementia newydd. Ochr yn ochr â hyn, aeth llawer o'r sefydliadau a'r grwpiau a ariannwyd i sesiwn Cyfeillion Dementia amgen neu ddiigidol. Mae monitro gofynnol yn cadarnhau bod 289 o Gyfeillion Dementia wedi'u creu drwy sesiynau o'r fath.

Cronfa Rhaglen Dementia Gymunedol

Yn ystod 2023/24 derbyniodd ein carfan Datblygu Cymunedol gadarnhad bod cyllid ar gyfer cynllun peilot Rhaglen Atal Dementia Cymunedol. Gan ddefnyddio ein gwybodaeth am y grwpiau a'r rhwydweithiau presennol yn ein cymunedau fe nodon ni sefydliadau a'u gwahodd i wneud cais i gymryd rhan yn y cynllun peilot.

Roedd grantiau o hyd at £2,000 ar gael i ariannu gweithgareddau a fydd yn annog trigolion i:

1. I wneud ymarfer corff 2. I gynnal pwysau iach 3. I gymdeithasu.

Roedd cyfanswm o 19 prosiect yn llwyddiannus wrth sicrhau cyllid ar draws y fwrdeistref sirol. Bydd y math o weithgareddau a ddarperir yn cynnwys gweithgareddau rhwng cenedlaethau yn Ysgol Gymuned y Porth a Chartref Gofal Tŷ Porth; sesiynau lles a therapi gan gynnwys gweithgareddau ymwybyddiaeth ofalgar; gweithgareddau cymdeithasol gan gynnwys boreau coffi a chyfleoedd i gymryd rhan mewn ymarfer corff cymedrol gan gynnwys ioga, pilates a gweithgareddau i wella cryfder a chydbywedd.

Cyflawnwyd y deilliannau canlynol:

- Roedd 370 o unigolion wedi nodi bod ganddyn nhw fwy o gysylltiadau cymdeithasol;
- Roedd 327 o bobl wedi adrodd bod eu hiechyd meddwl/llesiant wedi gwella;
- Roedd 332 o unigolion wedi nodi eu bod nhw'n teimlo'n llai unig;
- Roedd 203 o unigolion wedi nodi eu bod nhw'n fwy actif;
- Roedd 406 o unigolion wedi nodi bod gyda nhw ragor o ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael.

Yn ystod y broses fonitro, mae dau grŵp wedi adrodd am y canlyniadau annisgwyl canlynol:

1. Mae unigolion sy'n cymryd rhan mewn sesiynau ymarfer corff cymedrol wedi eu mwynhau cymaint eu bod nhw bellach wedi cofrestru ar gyfer sesiynau ychwanegol yn y gampfa leol – amgylchedd na fydden nhw wedi meiddio mentro iddo o'r blaen, ond mae'r sesiynau wedi cynyddu hyder ac wedi eu galluogi i fynychu gyda'u ffrindiau newydd.
2. Un canlyniad annisgwyl oedd y niferoedd hynod o uchel a ddaeth i'n sesiynau canu. Cynyddodd ein niferoedd o 15 i dros 60 mewn rhai sesiynau. Buon nhw'n llwyddiannus iawn gan fod pobl yn gallu dod gyda'u teuluoedd gan gynnwys plant, babanod a'r henoed. Roedd pobl yn mwynhau canu gwahanol ganeuon a gwranddo ar yr ysgol leol a'r côr yn perfformio. Cysylltodd y sesiynau â nifer o grwpiau cymunedol eraill yn yr ardal a thu allan iddi. Doedden ni ddim yn disgwyl iddo fod mor llwyddiannus ar ôl siarad â grwpiau cymunedol eraill. Roedden ni'n teimlo mai cynnwys yr ysgolion a gwahodd grwpiau dementia cymunedol eraill yn bersonol oedd y catalydd ar gyfer y cynnydd mewn niferoedd. Roedden ni'n cynnig amgylchedd cynnes a diogel a oedd yn rhad ac am ddim i'w fynychu gyda lluniaeth yn gynwysedig. Fe wnaethon ni hefyd gynnig cludiant i'r rhai oedd yn cael trafferth dod i'r sesiynau, ac roedd hyn o fudd i lawer o unigolion. Dywedodd un fenyw mor braf oedd gweld ei mam mor hapus yn mwynhau'r gerddoriaeth. Dywedodd yr oedd hi'n ymddangos fel hi ei hun eto am gyfnod. Soniodd llawer am sut roedden nhw'n arfer mynd i gyngherddau a bod mynychu'r sesiynau'n teimlo felly pan oedd y corau'n canu.

Gan weithio gydag **Adferiad**, elusen a arweinir gan yr aelodau sy'n darparu cymorth a chefnogaeth i bobl ag anghenion iechyd meddwl, caethiwed i sylweddau, ac anghenion cymhleth sy'n cyd-ddigwydd, rydyn ni wedi agor **llety byw pwrpasol a gefnogir yn Abergorki**, Treorci ar gyfer pobl ag anghenion iechyd meddwl neu sy'n camddefnyddio sylweddau. Mae'r Gwasanaeth yn gallu cefnogi hyd at bump o bobl mewn fflatiau hunangynhwysol, gyda swyddfa staff, man cymunedol a llety ar gyfer staff sy'n cysgu ar y safle. Mae'r Gwasanaeth yn rhoi cymorth i unigolion i fod mor annibynnol, actif a diogel â phosibl, wrth hyrwyddo a phrotestio dros eu hawliau dynol a rhoi'r ansawdd bywyd gorau posibl iddyn nhw. Ers i'r safle agor, mae tri o bobl wedi camu i lawr o leoliadau arbenigol i'r cyfleuster ac rydyn ni ar hyn o bryd yn gweithio gyda dau berson arall i symud i mewn i'r gwasanaeth os penderfynir bod y gwasanaeth yn gallu diwallu eu hanghenion. Mae Adferiad yn cynnal arolwg o ddeilliannau gyda thenantiaid bob tri mis sy'n gysylltiedig â'n contract newydd sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau. Dywedodd 100% o'r tenantiaid fod byw yn Abergorki wedi cael effaith gadarnhaol ar eu llesiant a'u bod nhw'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol gyda staff sy'n cefnogi eu hadferiad. Dywedodd pobl eu bod nhw'n cael cymorth i gael mynediad at wasanaethau gofal iechyd sy'n cysylltu â'r deiliant o gynnal iechyd da. Dywedodd pob tenant eu bod nhw'n teimlo'n hyderus ac yn deall eu hawliau ac yn teimlo eu bod nhw'n cael eu cefnogi. Dywedodd pawb fod eu hiechyd meddwl wedi gwella ers symud i Abergorki.

Diogelu Oedolion sy'n Agored i Niwed

Mae'r rhestr aros Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) wedi parhau i godi drwy gydol 2023/24 o 255 ym mis Mawrth 2023 i 328 ym mis Mawrth 2024 gan fod gan ein darparwr a gomisiynwyd y capasiti i gwblhau gwaith sydd eisoes wedi'i ddyrannu yn unig. Bydd angen i ni ystyried yr her barhaus o reoli asesiad Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn 2024/25 a thu hwnt.

Mae ein Carfan Diogelu yn rheoli'r holl adroddiadau diogelu oedolion i Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf, gan wneud penderfyniadau am y camau sydd eu hangen i amddiffyn a hyrwyddo llesiant oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019. Yn 2023/24, derbyniodd ein Carfan Diogelu 2,197 o adroddiadau gyda 2,119 o Hysbysiadau

Diogelwch y Cyhoedd ychwanegol gan Heddlu De Cymru a 190 o atgyfeiriadau gan weithwyr proffesiynol a oedd yn peri pryder. Cafodd pob adroddiad ei sgrinio, a chychwynwyd gweithdrefnau diogelu lle'r oedd angen, gan arwain at 600 o ymholiadau Diogelu yn cael eu cynnal a 376 o gyfarfodydd strategaeth aml-asiantaeth cychwynnol yn cael eu cynnal.

Diogelu oedolion agored i niwed

Astudiaeth Achos



Dyw'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) a'r Carfanau Diogelu Oedolion ddim yn gweithio gydag unigolion sy'n agored i'r gwasanaethau cymdeithasol yn unig. Mae'r enghraifft yma'n ymwneud ag unigolyn o'r enw Richard sy'n byw mewn cartref gofal. Mae 'Richard' yn 57: bu yn yr ysbyty am 20 mis ac yna cafodd ei ryddhau o'r ysbyty i gartref gofal ym mis Ebrill 2023. Ariennir ei leoliad drwy Ofal Iechyd Parhaus y GIG, lle asesir bod gan rywun angen gofal iechyd sylfaenol a bydd y GIG yn ariannu pob agwedd ar ei ofal a'i driniaeth, gan gynnwys costau llety os yw'r person yn byw mewn cartref gofal.

Aseswyd bod gan Richard ddiffyg galluedd meddyliol mewn perthynas â gwneud penderfyniadau ynghylch sut mae ei anghenion gofal a chymorth yn cael eu diwallu. Oherwydd hyn, dyw Richard ddim yn gallu penderfynu lle mae'n byw, ac mae'n cael lefel uchel o oruchwyliaeth tra yn y cartref gofal; mae hyn yn gyfystyr ag amddifadu o'i ryddid. Mae Aseswyr Lles Gorau o'r garfan DoLS yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw achos o golli rhyddid a brofir gan rywun fel Richard, yn gymesur ac er ei lesiant.

Hefyd, does gan Richard mo'r gallu i reoli ei gyllid. Mae Richard yn effro i'r ffaith nad oes gyda fe arian ar gael iddo ac mae wedi dweud yr hoffai rywffaint o arian yn ei boced. Ers bod yn yr ysbyty ac yn y cartref gofal, dyw Richard ddim wedi cael mynediad at arian. Roedd ei fodryb a'i ewythr yn rheoli'r buddiant-daliadau a oedd ganddo'n flaenorol cyn mynd i'r ysbyty, ond maen nhw wedi dweud bod ei fudd-daliadau wedi'u hatal. Ei fodryb oedd ei benodai ar gyfer yr Adran Gwaith a Phensiynau: talwyd ei fudd-daliadau i'w chyfrif hi, a hi oedd yn gyfrifol am ei faterion ariannol. Roedd yr Aseswr Lles Gorau yn amau y gallai fod achos o gam-drin ariannol, ond nid oedd ganddo unrhyw dystiolaeth ac nid oedd gan unrhyw un yr awdurdod i ymchwilio i'r mater yma. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi cael gwybod am y pryderon. Roedd modryb ac ewythr Richard hefyd yn cael eu hamau o gam-drin mam Richard yn ariannol: mae hi hefyd yn byw mewn cartref gofal lleol ac nid oes gyda hi'r gallu i reoli ei materion ariannol.

Adroddodd yr Aseswr Lles Gorau ei bryderon i'r Garfan Diogelu Oedolion. Roedd gallu'r garfan i ymchwilio yn gyfyngedig oherwydd nad oedd gan unrhyw un yr awdurdod i gael mynediad at gyfrifon banc Richard.

Yn y cyfamser, nid oedd Richard yn derbyn incwm yr oedd gyda fe hawl iddo. Roedd ei anghenion sylfaenol yn cael eu diwallu ond nid oedd ganddo fynediad at arian personol ar gyfer eitemau fel dillad, pethau ymolchi ac ati. Cynhaliwyd cyfarfod buddiant pennaf, a fynychwyd gan y garfan Diogelu, a chytunwyd y byddai cyfreithiwr yn cael ei benodi i achos Richard. Bydd hyn yn galluogi Richard i gael mynediad at ei hawl i fudd-dal a'i ddiogelu rhag risg o gam-drin ariannol yn y dyfodol.

Eleni rydyn ni wedi cydweithio â'n partneriaid ar ymyrraeth gynnar a gwaith atal i leihau nifer yr Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd a gyhoeddir a'r nifer o atgyfeiriadau i wasanaethau statudol drwy brosiect Cymorth Cynnar Heddlu De Cymru. Yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus yn 2022/23, mae'r gwaith yma wedi'i brif ffrydio yn dilyn cyllid gan Heddlu De Cymru. Mae ap Cymorth Cynnar yn darparu llwybr atgyfeirio i'r Heddlu pan maen nhw'n ymateb i alwadau i'r cyhoedd. Nod y cynllun yw sicrhau bod trigolion sy'n ymddangos yn agored i niwed neu angen cymorth ond sydd ddim yn cwrdd

â throthwyon gwasanaeth statudol yn gallu cael eu hatgyfeirio am gymorth yn y gymuned, yn gyflym. Yn 2023/24, derbyniwyd 252 o atgyfeiriadau drwy lwybr Cymorth Cynnar Heddlu De Cymru, a chafodd 113 o'r rhain asesiad llesiant anstatudol, a chafodd 71 eu hatgyfeirio/cyfeirio at sefydliadau/grwpiau cymunedol am gymorth. Mae'r asesiad llesiant anstatudol wedi'i gynllunio i ganolbwyntio ar yr unigolyn, gan sicrhau bod ei anghenion, ei nodau a'i ddeilliannau yn cael eu cyflawni, gan alluogi'r unigolyn i reoli ei fywyd a'i lesiant ei hun.

Effaith Atgyfeirio i'r gwasanaeth Cymorth Cynnar Heddlu De Cymru yn y gymuned

Astudiaeth Achos



Crynodeb o'r cefndir:

Derbyniodd y Cydlynwyr Cymunedol sawl atgyfeiriad Cymorth Cynnar gan Heddlu De Cymru ar gyfer JE yn dweud ei bod hi'n cael ei thargedu er mwyn ei haflonyddu gan bobl ifainc, a'i bod hi'n dioddef problemau iechyd meddwl oherwydd pen-blwydd marwolaeth ei mam. Yn ogystal, roedd hi hefyd yn ffonio/cysylltu ac ymgysylltu â'r garfan Un Pwynt Mynediad - Gwasanaethau i Oedolion a'r garfan Diogelu o ganlyniad i sawl Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd.

Ar y dechrau, roedd y Cydlynwyr Cymunedol yn ei chael hi'n anodd ymgysylltu â JE a chynnal sgwrs Beth sy'n Bwysig, fodd bynnag, datgelodd JE fod ganddi Anabledd Dysgu. Gwnaeth y Cydlynwyr Cymunedol atgyfeiriad i garfan Anableddau Dysgu Gwasanaethau i Oedolion ac i Signposted Cymru ar gyfer cymorth gyda'i hiechyd meddwl. Roedd JE yn hapus gyda'r wybodaeth a'r cyngor yma a chaewyd yr achos.

Oherwydd atgyfeiriadau ailadroddus gan Heddlu De Cymru, roedd yn amlwg nad oedd JE yn ymgysylltu â'r gwasanaethau a doedd hi ddim yn bodloni'r trothwy er mwyn cael cymorth gan Garfan Anabledd Gwasanaethau i Oedolion.

Trefnodd y Cydlynwyr Cymunedol Asesiad Llesiant ar y cyd gyda Phobl yn Gyntaf RhCT a JE lle mynegodd y rhwystredigaeth yr oedd hi a'i phartner yn ei brofi gyda phobl ifainc ac yn teimlo eu bod nhw'n cael eu targedu oherwydd eu hanableddau. Esboniodd fod yr Heddlu wedi gofyn iddi beidio â mynd i'r orsaf fysiau am 6 mis fel ateb i'r broblem.

Yn ystod yr Asesiad Llesiant, esboniodd JE hefyd nad oedd hi wedi ymgysylltu â'r cwrsela a ddarparwyd gan Signposted Cymru gan y byddai'n hoffi mynd yn ôl ac ymgysylltu â New Horizons, gan ei bod hi wedi mynychu cyrsiau o'r blaen. Cytunodd Pobl yn Gyntaf RhCT i drefnu hyn. Cafwyd trafodaeth hefyd ynghylch â'r ffaith fod JE a'i phartner eisau eu hannibyniaeth a'u cartref eu hunain gan ei bod yn dal i fyw gyda'i thad. Esboniodd Pobl yn Gyntaf RhCT y broses i JE a chynghorodd ei phartner i barhau i ymgysylltu â'i Weithiwr Cymdeithasol.

Beth weithiodd yn dda, beth wnaeth ddim gweithio cystal:

Roedd hi'n amlwg nad oedd JE yn ymgysylltu'n dda â gwasanaethau statudol ac nid oedd hi'n gwybod ble i fynd i gael cymorth heblaw ffonio'r Heddlu. Drwy feithrin perthynas â JE, caniataodd y Cydlynwyr Cymunedol i drefnu ymweliad ar y cyd â Phobl yn Gyntaf RhCT, sef y sefydliad cywir i gefnogi JE a gwneud atgyfeiriadau perthnasol i wasanaethau eiriolaeth eraill. Ar y dechrau nid oedd cyfeirio JE at y gwasanaethau yma'n gweithio'n dda gan fod JE angen cymorth oherwydd ei hanableddau.

Sut beth yw 'da' neu 'lwyddiant:

Bod mewn sefyllfa lle mae pawb sy'n byw yn y Sir yn gwybod ble i fynd am wybodaeth a chyngor. Hoffai JE gael ei chartref ei hun a dod yn fwy annibynnol, ynghyd â gwybod at bwy i droi am gefnogaeth.

Yr hyn sydd wedi'i ddysgu:

Deilliannau: Bellach mae gan JE y cymorth sydd ei angen arni drwy Pobl yn Gyntaf RhCT, sef y sefydliad perthnasol sydd â'r wybodaeth a'r profiad o roi cymorth.

Casgliad:

Er mwyn deall trothwyon gwasanaethau statudol a pha gymorth sydd ar gael. Roedd llwybrau'r Rhwydweithiau Cymdogaeth ar gyfer rhoi cymorth i drigolion yn hanfodol yn y sefyllfa yma.

Vision Products – offer a chyflogaeth â chymorth.

Mae **Vision Products** yn fusnes â chymorth, sy'n rhan o'r Adran Gwasanaethau i Oedolion yn Rhondda Cynon Taf. Mae'n darparu ystod o wasanaethau amrywiol gan gynnwys gwasanaeth gweithgynhyrchu ffenestri, gwasanaeth technoleg a gwasanaethu, siop adwerthu symudedd a Gwasanaeth Offer Cymunedol Integredig ar gyfer Rhanbarth Cwm Taf Morgannwg.

Ar hyn o bryd mae'n cyflogi, hyfforddi a chefnogi 96 o unigolion ag ystod o anableddau ac mae'n Arweinydd Hyderus o ran Anabledd. Mae nifer o bobl yn cael eu cefnogi trwy gyflogaeth, cyfleoedd dan hyfforddiant, gwirfoddoli a chyfleoedd profiad gwaith.

Dathlu 30 mlynedd o Vision Products

Ym mis Rhagfyr 2023, cynhaliwyd achlysur i **ddathlu 30 mlynedd o Vision Products**. Yn rhan o'r dathliadau, mae'r garfan yn Vision Products wedi cymryd rhan mewn prosiect paentio murlun i greu Coeden Amrywiaeth gyda chymorth artist lleol. Mae'r prosiect yn rhan o waith ailwampio'r ffreutur ar y safle. Mae pob aelod o staff wedi cyfrannu at y murlun trwy baentio deilen unigol ar y goeden i'w cynrychioli nhw. Recordiwyd **fideo** i gofnodi datblygiad y murlun.

Meddai aelodau o staff Vision Products:

“ Yng ngeiriau Karen Draper “Diversity doesn’t look like anyone. It looks like everyone”. Yn Vision Products, rydyn ni'n meddwl am y gymuned ac am ein gilydd, felly mae'n lle gwych i weithio. Rydyn ni'n edrych ymlaen at y 30 mlynedd nesaf - **Paula** ”

“ Rydw i wedi mwynhau bod yn rhan o'r prosiect ac rydw i'n hoff iawn o edrych ar y murlun wrth weithio - **Max** ”

“ Es i ati i baentio i fy neilen i'n goch gan mai coch yw fy hoff liw. Bydda i'n edrych arni bob dydd o nawr ymlaen - **Josh** ”

“ Dewisais i liwiau'r Hydref a mwynheais i fod yn rhan o dîm wrth gwblhau'r murlun - **David** ”

“ Bydd y goeden yno am y 30 mlynedd nesaf; fe wnes i fwynhau ei phaentio - **Jason** ”

Roedd prosiect paentio'r murlun wedi'i gefnogi gan **Community Murals CIC**.

Un o feysydd allweddol y busnes yw'r Gwasanaeth Offer Cymunedol Integredig sy'n darparu gwasanaethau ar draws Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr gan ddarparu gwasanaeth wedi'i reoli'n llawn ar gyfer Gofal Cymdeithasol, Addysg ac Iechyd trwy Gytundeb Adran 33. Cyfrannodd y gwasanaeth allweddol yma at gefnogi pobl i fyw'n annibynnol yn y gymuned, i gael offer cymunedol yn fwy cyflym, yn arbennig i hwyluso rhyddhau o'r ysbty ac i sicrhau bod offer ar gael pan oedd ei angen ar bobl trwy gasglu ac ailgylchu offer. Yn 2023/24, roedd y Gwasanaeth Offer Cymunedol Integredig ledled rhanbarth Cwm Taf Morgannwg wedi llwyddo i ddsbarthu tua 23,300 o eitemau, gyda thua 5,776 (24.8%) wedi'u dosbarthu ar frys, ac wedi casglu ychydig llai na 17,300 o eitemau nad oedd eu hangen mwyach.

Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer 2024/25?

1. Byddwn ni'n cytuno ar y strategaeth Gwasanaethau i Oedolion, yn ei chyfathrebu ac yn ei rhoi ar waith.
2. Byddwn ni'n parhau i weithio gyda CTM i weithredu model cymunedol effeithiol ac integredig i ddiwallu anghenion y gymuned a lleihau'r pwysau ar wasanaethau aciwt mewn ysbytai.
3. Byddwn ni'n rhoi strategaeth llety'r Gwasanaethau i Oedolion ar waith er mwyn datblygu llety gofal ychwanegol a llety ar gyfer pobl ag anabledd dysgu.
4. Byddwn ni'n gweithredu ein cynnig gwasanaeth oriau dydd ar y cyd i bobl ag anabledd dysgu i wella mynediad at wasanaethau yn y gymuned a chyfleoedd gwirfoddoli a chyflogaeth.
5. Byddwn ni'n ailfodelu'r gwasanaeth oriau dydd i bobl hŷn.
6. Byddwn ni'n rheoli'r broses o gaffael a throsglwyddo'r contractau gofal yn y cartref sy'n seiliedig ar ddeilliannau yn ddiogel, gan gynnwys ymgysylltu â defnyddwyr y gwasanaeth a staff i gynnwys 'yr hyn sy'n bwysig' iddyn nhw ym manyleb y gwasanaeth.
7. Byddwn ni'n parhau i ddatblygu'r strategaeth Technoleg yn Gyntaf. Ar gyfer 2024/2025 byddwn ni'n blaenoriaethu sefydlu Canolfan Derbyn Larymau newydd i'r Cyngor a pharatoi ar gyfer y newid i systemau digidol drwy amnewid yr unedau achubiaeth yng nghartrefi pobl dros 2 flynedd.
8. Byddwn ni'n gwerthuso'r prosiect Sensei a chan ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael byddwn ni'n cynllunio rhaglen hyfforddi Technoleg yn Gyntaf i staff Gofal Cymdeithasol i Oedolion i ystyried technoleg yn opsiwn cyntaf.
9. Byddwn ni'n ffurfioli strategaeth gweithlu'r Gwasanaethau i Oedolion ac yn parhau i'w rhoi ar waith.
10. Byddwn ni'n arwain ac yn rheoli'r rhaglen newid diwylliannol er mwyn cefnogi dull gofal cymdeithasol i oedolion sy'n canolbwyntio ar gryfderau.

adran

4

Sut rydyn ni'n gwneud ein gwaith?



Ein gweithlu

Ein gweithlu gofal cymdeithasol yw ein hased pwysicaf a hebddyn nhw fyddai hi ddim yn bosibl darparu gwasanaethau gofal a chymorth o ansawdd uchel. Rydyn ni angen staff profiadol sydd wedi'u hyfforddi'n dda ac sydd â'r sgiliau a'r ymagwedd gywir sydd eu hangen i weithio gyda'n cynigion gwasanaeth ac yn effeithiol mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill. Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn ffodus i gael grŵp dawnus ac ymroddedig o staff ymhlith ei weithlu gofal cymdeithasol – rydyn ni'n hynod ddiolchgar iddyn nhw.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, er bod recriwtio a chadw staff yn parhau'n flaenoriaeth gorfforaethol ac mae gweithgarwch sylweddol sydd wedi'i arwain gan ein strategaethau gweithlu, mae heriau wedi parhau o ran recriwtio a chadw gweithwyr. Mae cyfraddau swyddi gwag yn parhau i fod yn uchel ac rydyn ni wedi parhau i gollu ymarferwyr. Er hyn, cafwyd nifer o ddeilliannau cadarnhaol o'r gwaith ffocws yma. Mae rhagor o wybodaeth am y rhain isod.



Yn yr adran Gwasanaethau i Blant (Blaenoriaeth 4), mae ein Strategaeth Gweithlu yn cynnwys gweithgareddau sydd â'r nod o wella lles staff a sicrhau bod cymaint o staff â phosibl yn cael eu cadw.

Mae rhai o'r mentrau rydyn ni wedi'u cynnal eleni yn cynnwys:

- Cynnal Sesiynau Hysbysu a Chynnwys ddwywaith y flwyddyn gyda'r nod o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff am yr hyn sy'n digwydd yn y gwasanaeth, a rhoi cyfle i staff gymryd rhan. Cefnogir y sesiynau yma hefyd gan fwletinau electronig rheolaidd i staff.
- Cyflwyno **'Mannau Myfyriol'** ar gyfer gweithwyr cymdeithasol a'u carfanau i gefnogi llesiant a gwynnch proffesiynol.
- Cynnal ymgyrch denu dwys a pharhaus i hyrwyddo recriwtio gan gynnwys creu fideos byr ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol i recriwtio gweithwyr cymdeithasol **Kiera Gwasanaethau i Blant RhCT (fideo Saesneg) (youtube.com)**.
- Sefydlu is-grŵp strategaeth cadw'r gweithlu i ganolbwyntio ar nodi cyfleoedd sy'n mynd i'r afael â'r meysydd lle mae angen cadw gweithwyr yn well a amlygir mewn cyfweiliadau ymadael, sesiynau Hysbysu a Chynnwys ac yn ein cyfarfodydd fforwm ymarferwyr.
- Parhau â'n hymrwymiad i 'fagu ein gweithwyr ein hunain' drwy ehangu nifer y staff a gefnogir gan y rhaglen Rheolwyr Achos Achrededig, y mae modd eu noddi i gael mynediad i radd y Brifysgol Agored mewn Gwaith Cymdeithasol.

Yn Gwasanaethau i Oedolion (Blaenoriaeth 10), rydyn ni wedi parhau i ddatblygu Strategaeth Gweithlu newydd ar gyfer Gwasanaethau i Oedolion, mewn ymgynghoriad â staff a chaiff hon ei chwblhau a'i rhoi ar waith yn 2024.

Mae rhai o'r mentrau a gynhaliwyd eleni, yn cynnwys::

- Parhau i fuddsoddi yn ein cynllun hirsefydlog i 'fagu ein gweithwyr ein hunain' trwy ariannu a chefnogi staff i gael mynediad i'r cwrs gradd mewn Gwaith Cymdeithasol gyda rôl ym maes Gwaith Cymdeithasol wedi'i warantu ar ôl cwblhau'r broses gofrestru. Mae 6 aelod o staff Gwasanaethau i Oedolion yn cael eu chefnogi i ddilyn y cynllun ar hyn o bryd.
- Mae recriwtio staff gofal uniongyrchol wedi bod yn flaenoriaeth ac er bod gwelliannau wedi'u gweld ym mhob maes mae cyfraddau cadw staff yn parhau i herio darparwyr.
- Mae'r gwaith o greu'r carfanau Anabledau Dysgu â'r garfan Gofal a Chymorth ychwanegol yn ardal ganolog Taf wedi'i gwblhau. Mae'r garfan Adolygu Cymunedol hefyd wedi'i ddatgomisiynu.
- Penodwyd Prif Weithiwr Cymdeithasol ychwanegol mewn carfanau Iechyd Meddwl Cymunedol.
- Sefydlwyd Grŵp Gweithlu Cartrefi Gofal Preswyl Mewnol gyda gwelliannau sylweddol i swyddi gwag ac o ganlyniad cyflawnwyd capasiti gwell.
- Rydyn ni wedi gwella tâl ac amodau gwaith ar gyfer rhai swyddi yn ogystal â chymhwyso ychwanegiad costau byw.
- Mae 4 prentis wedi'u lleoli yn ein gwasanaethau preswyl.
- Mae'r adolygiad Therapi Galwedigaethol yn mynd rhagddo gyda'r nod o barhau i recriwtio a chadw staff.
- Mae'r Gwasanaeth Llety wedi cofrestru'r gweithlu cartrefi gofal preswyl gyda Gofal Cymdeithasol Cymru o fewn yr amserlen a bennwyd ar gyfer cofrestru ac mae'r Gwasanaeth Gofal yn y Cartref wedi parhau i gefnogi'r gwaith o gofrestru ei weithlu.
- Cyflwyno fforymau staff ar draws pob maes gwasanaeth i rannu gwybodaeth a rheoli cyfathrebu effeithiol rhwng y staff a'u carfanau arwain.

Dywedodd un o'n gweithwyr cymdeithasol yma am ei swydd:

“ Des i'n weithiwr cymdeithasol cymwys ym mis Awst 2021. Ers ennill fy ngradd, rydw i wedi gweithio gyda charfan Gofal a Chymorth Gwasanaethau i Oedolion y Cyngor, gan ddarparu cymorth mewn rhannau o Gwm Cynon. Ers i mi ddechrau yn fy swydd, rydw i'n cael cymorth gwych gan fy nghydweithwyr. Mae gyda nhw ystod eang o brofiad a gwybodaeth, ac maen nhw bob amser yn barod i helpu, rhoi cyngor neu rannu syniadau. Rydw i'n mwynhau fy rôl fel Gweithiwr Cymdeithasol yn fawr. Rydw i'n enwedig yn mwynhau gweithio gydag oedolion hŷn er mwyn hybu eu hannibyniaeth a sicrhau bod eu hanghenion o ran gofal a chymorth yn cael eu diwallu mewn modd maen nhw'n teimlo sy'n addas ar eu cyfer nhw. Er y gall y rôl fod yn heriol ar adegau, gall hefyd fod yn hynod werth chweil pan rydych chi'n gweld iechyd a llesiant unigolyn yn gwella, pan mae ganddo fynediad i'r gymuned ac ymdeimlad o berthyn, pan fydd ansawdd bywyd unigolyn wedi gwella, pan fydd rhywun yn byw'n annibynnol gyda chymorth neu heb gymorth neu pan fo unigolyn yn cael ei gefnogi i sicrhau bod ei lais yn cael ei glywed a bod yr hyn sy'n bwysig iddo yn cael ei ddeall.

Rydyn ni'n parhau i fod yn bryderus ynghylch morâl a chydnerthedd ein gweithlu wrth i effaith pwysau staffio gynyddu oherwydd heriau'r gweithlu a'r cynnydd yn y galw ac mewn cymhlethdod. O'r herwydd, mae'n bwysig parhau i gyfathrebu gydag ein staff i sicrhau ein bod ni'n blaenoriaethu llesiant staff yn effeithiol.

Bydd recriwtio a chadw'r gweithlu, llesiant a chydnerthedd yn parhau'n feysydd blaenoriaeth, yn rhan o'n Strategaethau Gweithlu Plant ac Oedolion, gyda ffocws parhaus dros y flwyddyn i ddod.

Y Gymraeg

Rydyn ni'n parhau i fod yn ymrwymedig i roi'r cyfle i bobl dderbyn gwasanaethau a ddarperir a/neu a ariennir gennym ni yn Gymraeg. Rydym ni hefyd yn disgwyl i'n gwasanaethau ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol, sy'n golygu darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i neb orfod gofyn amdano, ar bob achlysur. Mae ein hymagwedd yn adlewyrchu Safonau'r Gymraeg a Fframwaith "Mwy na Geiriau" Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg ym meysydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Rydym ni'n parhau i hyrwyddo cynnig gweithredol o hyfforddiant Cymraeg i'r holl staff o'r dechreuwyr i'r rhai sy'n gwella. Mae ein hyfedredd presennol yn y Gymraeg isod.

	Dim	A1 Mynediad - Dealltwriaeth sylfaenol.	A2 Sylfaen - Gallu cynnal sgwrs sylfaenol. Ysgrifennu ymadroddion byr.	B1 Canolradd - Gallu cynnal sgwrs estynedig. Ysgrifennu'n weddol gywir.	B2 Uwch - Gallu siarad yn hyderus ag eraill. Ysgrifennu testun manwl, strwythuredig.	C1 Hyfedredd - Rhugl mewn siarad ac ysgrifennu.	Nifer mewn swydd
Staff canolog	48	57	10	4	2	9	130
Gwasanaethau Oriau Dydd	93	54	9	1	3	5	166
Gofal yn y Cartref	192	93	6	4	8	10	313
Gwasanaethau Preswyl i Oedolion	243	110	8	3	9	21	394
Gwasanaethau Preswyl i Blant	67	60	5	3	3	8	146
Carfan Gwaith Cymdeithasol - Oedolion	95	96	3	3	7	9	213
Carfan Gwaith Cymdeithasol - Plant	130	158	23	11	11	16	349
Carfan Gwaith Cymdeithasol - Pob oedran	7	8	0	0	0	1	16
Byw â Chymorth	25	12	0	2	2	2	43
	900	648	64	31	46	81	1770

Mae pobl y mae'n well ganddyn nhw dderbyn gwasanaethau a chymorth trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu hamlygu yn ein system. Cyfanswm yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn oedd 5,635. Roedd tystiolaeth o gynnig y Gymraeg yn rhagweithiol mewn 1,305 o achosion (23%). Derbyniwyd y cynnig mewn 18 o achosion. Yn y Gwasanaethau i Oedolion, cyfanswm yr asesiadau newydd a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn oedd 5,962. Roedd tystiolaeth o gynnig y Gymraeg yn rhagweithiol mewn 5,959 o achosion (99.9%). Derbyniwyd y cynnig mewn 40 o achosion.

Ein Cyllid

Mae'r Cyngor wedi profi, ac yn parhau i brofi, heriau ariannol sylweddol yn enwedig yn ein Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion a Phlant. Mae'r pwysau ariannol yma'n cael eu profi gan bob awdurdod lleol.

Mae 2023/24 wedi bod yn flwyddyn heriol iawn yn ariannol i adran Gwasanaethau Cymdeithasol wrth i gynydd yn y galw a'r cymhlethdod ynghyd â'r argyfwng costau byw parhaus a chwyddiant uchel roi pwysau sylweddol ar ein darparwyr gofal a chostau gwasanaethau.

Y gyllideb net ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol am y flwyddyn oedd £201.4 miliwn. Er hyn, arweiniodd y pwysau ychwanegol ar y gwasanaeth, yn bennaf yn ymwneud â chynnydd mewn gofal uniongyrchol a chostau lleoli ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion a'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant, at orwariant o £2.5 miliwn yn dilyn tynnu i lawr y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd (cyllid untro) a neilltuwyd i reoli'r risg o gostau ychwanegol yn ystod y flwyddyn yn y meysydd gwasanaeth uchod. Yn ystod y flwyddyn, rydym ni wedi defnyddio grantiau cenedlaethol i reoli rhywfaint o bwysau ar

wasanaethau yn ogystal â datblygu ein gwasanaethau mewn ffordd arloesol ac mewn partneriaethau, fel y cyfeirir atyn nhw yn yr adroddiad yma. Derbyniwyd cyllid cyfalaf hefyd i ddatblygu ein rhaglenni moderneiddio llety yn y Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant a'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion.

Mae proses rheoli ariannol ddatblygedig ar waith ar draws y meysydd gwasanaeth sy'n cefnogi'r cynllun ariannol tymor canolig ac yn galluogi nodi a rheoli risgiau a chyfleoedd cyllidebol. Bydd yr agenda Dileu Elw yn her sylweddol i'r Gwasanaethau i Blant dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, ond mae cynlluniau ar waith ac mae rhestrau cadarn o gostau yn cael eu datblygu gyda chydweithwyr yn yr adran Gyllid. O fewn Gwasanaethau i Oedolion, y brif risg fydd sicrhau cynnydd cynaliadwy mewn ffioedd ar gyfer gofal a gomisiynir. Yn ogystal, mae arbedion sylweddol i'w cyflawni yn 2024/25 o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol a bydd gofyn nodi arbedion effeithlonrwydd pellach yn 2025/26 ac wedi hynny ar draws cyllidebau'r Cyngor. Bydd hon yn her barhaus i'w rheoli wrth ddarparu gwasanaethau.

Arweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, Llywodraethu ac Atebolrwydd

Mae arweinyddiaeth wleidyddol a chorfforaethol y Cyngor yn gryf. Mae Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel. Mae Gwasanaethau i Oedolion a Gwasanaethau i Blant yn derbyn cefnogaeth gref a rhagweithiol gan Aelodau'r Cabinet.

Rydyn ni'n atebol trwy amrywiaeth o fecanweithiau gan gynnwys adolygiadau cyflawniad misol a gwiriadau sicrhau ansawdd, trafodaethau rheolaidd gydag Aelodau o'r Cabinet ac uwch aelodau o staff gan ddefnyddio'r data a gasglwn, adroddiadau i Gabinet y Cyngor, Pwyllgorau Craffu, a chyfarfodydd Rhianta Corfforaethol, ac ymgysylltu â staff.

Ein partneriaethau

Mae gweithio mewn partneriaeth yn allweddol i ddarparu gwasanaethau ymatebol o ansawdd uchel. Rydyn ni'n parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid allweddol ar lefel unigol a strategol i wella gwasanaethau a chyflawni mesurau effeithlonrwydd.

Rydyn ni'n parhau i chwarae rhan arwyddocaol yn y canlynol:

- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
- Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg
- Anabled Dysgu Rhanbarthol ac is-grwpiau eraill
- Partneriaeth Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid Cwm Taf
- Bwrdd Partneriaeth y Gwasanaeth Offer Cymunedol Integredig
- Cynllun Mabwysiadu Cydweithredol Rhanbarthol y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd
- Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Cwm Taf

Yn ogystal, mae gyda ni hanes da o weithio mewn partneriaeth ac rydyn ni'n disgrifio rhai o'r gwasanaethau a'r mentrau rydyn ni wedi'u datblygu gyda'n partneriaid.

Serch hynny, fel y nodwyd yn adroddiad y llynedd, mae'r angen o hyd i ddatblygu a gweithredu cynlluniau newydd sy'n cyflymu'r broses o integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Er bod cynnydd yn cael ei wneud, rydyn ni ar hyn o bryd yn wynebu heriau o ran cyflawni'r dull integredig sy'n ofynnol i sicrhau bod y system iechyd a chymdeithasol yn cyflawni'r deilliannau sydd eu hangen arnom ni a bod y gwasanaethau hanfodol yma'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Byddwn ni'n parhau i fynd i'r afael â hyn wrth i ni gynllunio ein dull gweithredu yn 2024/25.



Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd | Regional
Partneriaeth | Partnership
Rhanbarthol | Board



Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Diogelu
Safeguarding Board

adran

5

Hyrwyddo a gwella
lles y rhai rydyn ni'n
eu helpu – Y chwe
safon ansawdd.



Mae'r tablau isod yn dangos sut mae ein blaenoriaethau'n cyflawni'r chwe safon ansawdd a lle mae rhagor o wybodaeth i'w chael ym mhrif gorff yr adroddiad yma:

Safon Ansawdd 1 - Gweithio gyda phobl i bennu a chyd-baratoi deilliannau lles personol maen nhw eisiau'u cyflawni.

Ein blaenoriaethau ar gyfer 2023/24	Ble i gael rhagor o wybodaeth yn Adroddiad y Cyfarwyddwr?
Byddwn ni'n parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau i osgoi angen rhag dwysáu neu arwain at adferiad ac annibyniaeth.	Mae modd dod o hyd i ragor o wybodaeth trwy glicio ar y ddolen yma: Blaenoriaeth 2 - Atal anghenion rhag gwaethygu a galluogi adferiad ac annibyniaeth.
Byddwn ni'n gweithredu'r Strategaeth Atal Plant sy'n Derbyn Gofal- Bydd hyn yn targedu gwasanaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth tuag at gymorth i deuluoedd er mwyn sicrhau mai dim ond y plant hynny nad oes dewis arall diogel ar eu cyfer sy'n dod i ofal.	Mae modd dod o hyd i ragor o wybodaeth trwy glicio ar y ddolen yma: Blaenoriaeth 1 - Gweithredu'r Strategaeth Atal Plant sy'n Derbyn Gofal gan y Cyngor.

Ein blaenoriaethau ar gyfer 2024/25

1. Byddwn ni'n arwain ac yn rheoli'r rhaglen newid diwylliannol er mwyn cefnogi dull gofal cymdeithasol i oedolion sy'n canolbwyntio ar gryfderau.
2. Byddwn ni'n ffurfioli strategaeth gweithlu'r Gwasanaethau i Oedolion ac yn parhau i'w rhoi ar waith.
3. Byddwn ni'n ail-ddylunio ein Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) (Strategaeth 'Cymorth lawn, Lle lawn, Amser lawn') ochr yn ochr â rhanddeiliaid i fod yn wasanaeth cynaliadwy gyda'r bwriad o fynd i'r afael a materion wrth y drws ffrynt.
4. Byddwn ni'n sicrhau bod gweithlu Gwasanaethau i Blant Rhondda Cynon Taf yn uchel ei gymhelliant, yn ymgysylltu ac yn cael eu gwerthfawrogi; bod gan staff y gallu, y sgiliau, y cymhwysedd a'r hyder i ddiwallu anghenion plant a theuluoedd.

Safon Ansawdd 2 - Gweithio gyda phobl a phartneriaid er mwyn diogelu a hyrwyddo iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol y bobl.

Ein blaenoriaethau ar gyfer 2023/24	Ble i gael rhagor o wybodaeth yn Adroddiad y Cyfarwyddwr?
Byddwn ni'n parhau i weithio gyda'r Adran Iechyd i archwilio opsiynau ar gyfer datblygu model ardal iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol integredig.	Mae modd dod o hyd i ragor o wybodaeth trwy glicio ar y ddolen yma: Blaenoriaeth 8 - Cefnogi rhyddhau o'r ysbyty.
Gweithio gyda'r Adran Iechyd i wella profiad cleifion ac ailgynllunio llwybrau i wella'r gwasanaeth osgoi mynd i'r ysbyty a'r gwasanaethau "cartref yn gyntaf" i sicrhau trosglwyddiadau amserol rhwng lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol fel bod pobl yn y lleoliad gofal mwyaf priodol.	Mae modd dod o hyd i ragor o wybodaeth trwy glicio ar y ddolen yma: Blaenoriaeth 8 - Cefnogi rhyddhau o'r ysbyty.
Gweithio gyda'r Adran Iechyd i gwblhau adolygiad ac ailgynllunio gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol i ddarparu mynediad ymatebol a chymorth iechyd meddwl effeithiol.	Mae modd dod o hyd i ragor o wybodaeth trwy glicio ar y ddolen yma: Blaenoriaeth 9 - Cefnogi buddiannau pobl sy'n byw gydag anghenion iechyd meddwl, gan gynnwys dementia.
Byddwn ni'n gweithredu'r Strategaeth Atal Plant sy'n Derbyn Gofal- Bydd hyn yn targedu gwasanaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth tuag at gymorth i deuluoedd er mwyn sicrhau mai dim ond y plant hynny nad oes dewis arall diogel ar eu cyfer sy'n dod i ofal.	Mae modd dod o hyd i ragor o wybodaeth trwy glicio ar y ddolen yma: Blaenoriaeth 1 - Gweithredu'r Strategaeth Atal Plant sy'n Derbyn Gofal gan y Cyngor.

Ein blaenoriaethau ar gyfer 2024/25

- Byddwn ni'n parhau i weithio gyda CTM i weithredu model cymunedol effeithiol ac integredig i ddiwallu anghenion y gymuned a lleihau'r pwysau ar wasanaethau aciwt mewn ysbytai.

Safon Ansawdd 3 - Cymryd camau i amddiffyn a diogelu pobl rhag cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu'u niweidio.

Ein blaenoriaethau ar gyfer 2023/24	Ble i gael rhagor o wybodaeth yn Adroddiad y Cyfarwyddwr?
<p>Byddwn ni'n gweithredu'r Strategaeth Atal Plant sy'n Derbyn Gofal- Bydd hyn yn targedu gwasanaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth tuag at gymorth i deuluoedd er mwyn sicrhau mai dim ond y plant hynny nad oes dewis arall diogel ar eu cyfer sy'n dod i ofal.</p>	<p>Mae modd dod o hyd i ragor o wybodaeth trwy glicio ar y ddolen yma: Blaenoriaeth 1 - Gweithredu'r Strategaeth Atal Plant sy'n Derbyn Gofal gan y Cyngor.</p>

Ein blaenoriaethau ar gyfer 2024/25

1. Byddwn ni'n gweithredu'r Strategaeth Atal Plant sy'n Derbyn Gofal- Bydd hyn yn targedu gwasanaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth tuag at gymorth i deuluoedd er mwyn sicrhau mai dim ond y plant hynny nad oes dewis arall diogel ar eu cyfer sy'n dod i ofal.

Safon Ansawdd 4 - Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a bod yn rhan o'r gymdeithas.

Ein blaenoriaethau ar gyfer 2023/24	Ble i gael rhagor o wybodaeth yn Adroddiad y Cyfarwyddwr?
Byddwn ni'n cydweithio/cyd-gynhyrchu ein harlwy gwasanaethau oriau dydd i bobl hŷn er mwyn gwella mynediad at wasanaethau allgymorth a chymunedol a fydd yn diwallu eu hanghenion.	Mae modd dod o hyd i ragor o wybodaeth trwy glicio ar y ddolen yma: Blaenoriaeth 6 - Trawsnewid Gwasanaethau Oriau Dydd ar gyfer pobl hŷn.
Byddwn ni'n cyd-gynhyrchu'r gwaith o drawsnewid ein cynnig gwasanaeth i bobl ag anabledd dysgu er mwyn gwella mynediad at weithgareddau a chyfleoedd ystyrion yn eu cymunedau eu hunain i gyflawni eu nodau personol a byw bywydau cyffredin.	Mae modd dod o hyd i ragor o wybodaeth trwy glicio ar y ddolen yma: Blaenoriaeth 7 - Trawsnewid Gwasanaethau Oriau Dydd i bobl ag anabledd dysgu.
Byddwn ni'n cyflawni'r strategaeth Cyfranogiad sy'n amlinellu dull Gwasanaethau i Blant Rhondda Cynon Taf o gefnogi hawliau plant, pobl ifainc, rhieni, cynhalwyr, a theuluoedd sy'n derbyn gofal a chymorth, i leisio'u barn ac i gymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau am eu bywyd a helpu i lunio datblygiadau gwasanaeth yn y dyfodol.	Mae modd dod o hyd i ragor o wybodaeth trwy glicio ar y ddolen yma: Blaenoriaeth 3 - Hyrwyddo ymgysylltu a chymryd rhan - Cyflawni ein Strategaeth Cyfranogiad.

Ein blaenoriaethau ar gyfer 2024/25

1. Byddwn ni'n gweithredu ein cynnig gwasanaeth oriau dydd ar y cyd i bobl ag anabledd dysgu i wella mynediad at wasanaethau yn y gymuned a chyfleoedd gwirfoddoli a chyflogaeth.
2. Byddwn ni'n ailfodelu'r gwasanaeth oriau dydd i bobl hŷn.
3. Byddwn ni'n cyflawni'r strategaeth Cyfranogiad sy'n amlinellu dull Gwasanaethau i Blant Rhondda Cynon Taf o gefnogi hawliau plant, pobl ifainc, rhieni, cynhalwyr, a theuluoedd sy'n derbyn gofal a chymorth, i leisio'u barn ac i gymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau am eu bywyd a helpu i lunio datblygiadau gwasanaeth yn y dyfodol.

Safon Ansawdd 5 - Cefnogi pobl i ddatblygu a chynnal perthnasau domestig, teuluol a phersonol iach mewn modd diogel.

Ein blaenoriaethau ar gyfer 2023/24	Ble i gael rhagor o wybodaeth yn Adroddiad y Cyfarwyddwr?
Byddwn ni'n gweithio gyda chynhalwyr di-dâl a phartneriaid i sicrhau bod darpariaeth seibiant yn diwallu eu hanghenion ac anghenion unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau fel bod pobl yn gallu byw yn eu cartrefi teuluol am gyfnod hwy.	Mae modd dod o hyd i ragor o wybodaeth trwy glicio ar y ddolen yma: Blaenoriaeth 3 - Cefnogi Cynhalwyr di-dâl.
Byddwn ni'n gweithredu'r Strategaeth Atal Plant sy'n Derbyn Gofal- Bydd hyn yn targedu gwasanaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth tuag at gymorth i deuluoedd er mwyn sicrhau mai dim ond y plant hynny nad oes dewis arall diogel ar eu cyfer sy'n dod i ofal.	Mae modd dod o hyd i ragor o wybodaeth trwy glicio ar y ddolen yma: Blaenoriaeth 1 - Gweithredu'r Strategaeth Atal Plant sy'n Derbyn Gofal gan y Cyngor.

Ein blaenoriaethau ar gyfer 2024/25

1. Byddwn ni'n arwain ac yn rheoli'r rhaglen newid diwylliannol er mwyn cefnogi dull gofal cymdeithasol i oedolion sy'n canolbwyntio ar gryfderau.
2. Byddwn ni'n gweithredu'r Strategaeth Atal Plant sy'n Derbyn Gofal- Bydd hyn yn targedu gwasanaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth tuag at gymorth i deuluoedd er mwyn sicrhau mai dim ond y plant hynny nad oes dewis arall diogel ar eu cyfer sy'n dod i ofal.

Safon Ansawdd 6 - Gweithio gyda phobl a bod yn gymorth iddyn nhw i gyflawni lles economaidd gwell, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion.

Ein blaenoriaethau ar gyfer 2023/24	Ble i gael rhagor o wybodaeth yn Adroddiad y Cyfarwyddwr?
Byddwn ni'n parhau i ddatblygu gweledigaeth a strategaeth y Cyngor ar gyfer llety gofal i bobl hŷn a bregus i sicrhau ein bod ni'n creu'r cynnig gwasanaeth cywir sy'n ymateb i alw cynyddol ac anghenion newidiol, gan alluogi rhagor o bobl i fyw'n annibynnol yn eu cymuned.	Mae modd dod o hyd i ragor o wybodaeth trwy glicio ar y ddolen yma: Blaenoriaeth 1 - Datblygu llety gofal ar gyfer pobl hŷn a phobl agored i niwed.
Byddwn ni'n parhau i weithio gyda darparwyr gofal cartref i sicrhau bod pobl yn cael gofal yn y cartref o ansawdd da yn seiliedig ar y deilliannau y maen nhw am eu cyflawni a bod digon o ddarpariaeth ar gael ar y lefel gywir i ateb y galw.	Mae modd dod o hyd i ragor o wybodaeth trwy glicio ar y ddolen yma: Blaenoriaeth 5 - Comisiynu Gofal yn y Cartref.
Byddwn ni'n grymuso pobl i gomisiynu eu gofal a chymorth eu hunain drwy hyrwyddo taliadau uniongyrchol yn well.	Mae modd dod o hyd i ragor o wybodaeth drwy glicio ar y ddolen yma: Blaenoriaeth 4 - Hyrwyddo Taliadau Uniongyrchol.
Byddwn ni'n gweithio gyda chynhalwyr di-dâl a phartneriaid i sicrhau bod darpariaeth seibiant yn diwallu eu hanghenion ac anghenion unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau fel bod pobl yn gallu byw yn eu cartrefi teuluol am gyfnod hwy.	Mae modd dod o hyd i ragor o wybodaeth trwy glicio ar y ddolen yma: Blaenoriaeth 3 - Cefnogi Cynhalwyr di-dâl.
Byddwn ni'n cyflawni'r Strategaeth Trawsnewid Preswyl i Blant, gan wneud yn siŵr bod y Cyngor yn darparu'r llety a'r cymorth sydd eu hangen ar ein plant sy'n derbyn gofal.	Mae modd dod o hyd i ragor o wybodaeth trwy glicio ar y ddolen yma: Blaenoriaeth 2 - Gweithredu Strategaeth Trawsnewid Preswyl Plant sy'n Derbyn Gofal.

Ein blaenoriaethau ar gyfer 2024/25

- Byddwn ni'n rhoi strategaeth llety'r Gwasanaethau i Oedolion ar waith er mwyn datblygu llety gofal ychwanegol a llety ar gyfer pobl ag anabledd dysgu.
- Byddwn ni'n rheoli'r broses o gaffael a throsglwyddo'r contractau gofal yn y cartref sy'n seiliedig ar ddeilliannau yn ddiogel, gan gynnwys ymgysylltu â defnyddwyr y gwasanaeth a staff i gynnwys 'yr hyn sy'n bwysig' iddyn nhw ym manyleb y gwasanaeth.
- Byddwn ni'n parhau i ddatblygu'r strategaeth Technoleg yn Gyntaf. Ar gyfer 2024/2025 byddwn ni'n blaenoriaethu sefydlu Canolfan Derbyn Larymau newydd i'r Cyngor a pharatoi ar gyfer y newid i systemau digidol drwy amnewid yr unedau achubiaeth yng nghartrefi pobl dros 2 flynedd.
- Byddwn ni'n gwerthuso'r prosiect Sensei a chan ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael byddwn ni'n cynllunio rhaglen hyfforddi Technoleg yn Gyntaf i staff Gofal Cymdeithasol i Oedolion i ystyried technoleg yn opsiwn cyntaf.
- Byddwn ni'n cyflawni'r Strategaeth Trawsnewid Preswyl, gan wneud yn siŵr bod y Cyngor yn darparu'r llety a'r cymorth sydd eu hangen ar ein plant sy'n derbyn gofal.



Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2023/24

53103-12 • Tachwedd 2024

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg.